

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 360 - 60c
Chwefror 2018

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Cadw pentref
Llanfair
yn lân**



Tudalen 6

**Delmi y
Cymeriad
Bro**



Tudalen 23

**Sioned yn
bencampwraig
yn siarad**



Tudalen 27

Grŵp Trafod yn dathlu'r 40ain



Bu Grŵp Trafod Amaethyddol Llanbed yn dathlu 40 mlynedd ers ei sefydlu, yng Nghlwb Rygbi Llanbed ar 12 Ionawr. Yn y llun gwelir Anwen Hughes, Llywydd, Ben Lake AS, Aneurin Davies, Cadeirydd, Twynog Davies, siaradwr gwadd, Dai a John Evans, trysoryddion, Ioan Williams, Is-gadeirydd a Gareth Jones, ysgrifennydd.



Cynhaliodd C.Ff.I. Llanllwni noson i gyflwyno sicciau i wahanol elusennau ar ôl yr holl godi arian yn ddiweddar. Dyma lle aeth yr arian iddo: Sioe a Threialon Cŵn Defaid 2017- Cafodd yr arian ei rannu rhwng dwy elusen sef Ambiwylans Awyr Cymru (£1,145.95) ac Uned Gofal y Fron Ysbyty Tywysog Philip (£1,145.95). Canu Carolau: Cafodd yr arian ei rannu rhwng Beiciau Gwaed Cymru a Chronfa'r clwb sef £584.14 yr un. Cwrdd Diolchgarwch: Aeth yr arian (£68) at gronfa'r clwb.

Rhodd hael i Beiciau Gwaed



Dyma gynrychiolwyr o bwyllgor Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog yn cyflwyno sicciau o £3,500 i Phil Harries (Beiciau Gwaed Cymru), a £500 yr un i C.Ff.I. Llanwenog a Neuadd yr Hafod, Gorsgoch, ar noson eu cinio blynyddol ar yr 2il o Ragfyr, yng Nghefnhafod.

Diolch i bawb unwaith yn rhagor am eu cefnogaeth a'u haelioni.



Cynhaliodd Helwyr Llanwnnen eu helfa draddodiadol ar Wyl San Steffan yng Ngwesty'r Glyn Hebog, Llambod.



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@Craffwr
Ionawr 16

Noson ddiddorol heno gyda John yn dangos ffilmiau Bethan Phillips i aelodau Cymdeithas Hanes #Llanbed.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@NFUCymru
Ionawr 15

Prif Swyddog Milfeddygol Llywodraeth Cymru yn trafod cynlluniau gwaredu Tb heno yn Nghlwb Rygbi Llambod.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@CFfCwmann
Ionawr 12

Seiat holi'r clwb heno dan arweiniad ein llywydd Mair. Ar y panel Eirios Thomas, Owain Davies ac Elliw Dafydd

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@tanfirellambod
Ionawr 2

Tân technegol 1af #2018 galwyd timau allan am fod #simnai plasty ar dân. Daeth y llwyfan ddringo o #Aberystwyth.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd @Clonc360
Rhagfyr 21

"Rhaid i ni gymryd cyfrifoldeb" oedd prif neges @MaredRandJones ar ran @FuwCeredigion wrth gloi cyfarfod heno am gau banc.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@JillTomas
Rhagfyr 19

Drama'r geni i'r Plant Mawr unwaith eto yn y Gymanfa Garolau yn Brynhafod! A'r clod i Dduw.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

LAS Recycling Ltd

GWASANAETH CASGLU GWA STRAFF MASNACHOL

Am wasanaeth effeithiol a
fforddiadwy i'ch holl anghenion
gwastraff ffoniwch:

01570 421 421

Rydym yn darparu
biniau maint:
240 / 660 a 1100 Lit



LAS RECYCLING LTD
HEOL TREGARON, LLANBEDR PONT STEFFAN,
CEREDIGION. SA48 8LT

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Chwefror Sian Jones, Rhandir, Cwmann 421443
Mawrth Lois Williams, Crynfryn, Cwmann 423700
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Gwyneth Davies, Sian Jones, Marian Morgan, Delyth Morgans Phillips, Siwan Richards, Lois Williams.

Dylunydd y mis Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi 481041
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llambedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

2018

Flwyddyn yn ôl roeddwn i'n eich cyfarch drwy sôn bod pob blwyddyn yn llawn o golli ac ennill. A bu'r newid o 2017 i 2018 yn ddim gwahanol i ni fel pobol mae'n siŵr - yn gyfle i werthfawrogi'r da a gafwyd, ac i hiraethu am y colledion a fu.

Roeddwn i hefyd yn fy llith flwyddyn yn ôl yn tynnu sylw at 'flwyddyn chwedlau' Llywodraeth Cymru. Wel, eleni, mae'n flwyddyn y môr. Hwrê medde ni yn ardal Clonc! (Ac fel mae sawl un wedi dweud, yn sarcastig iawn, mae trigolion sir Powys wrth eu boddau mae'n siŵr!) Yn y tywydd gwlyb a gaeafol rydym wedi'i brofi ers yr haf diwethaf, mae dathlu glannau môr yn swnio'n beth dierth iawn i ni, ac mae meddwl am ymdrochi yn yr haul ar un o draethau Ceredigion yn ddim ond rhywbeth y gallwn freuddwydio amdano. Dim ond gobeithio y cawn haf gwerth chweil eleni ... mae angen rhywbeth sylweddol i sychu'r holl bwdel ar hyd y wlad!

A sôn am obeithio, tybed beth ddaw o'r datblygiad ar safle hen ysgol Ffynnonbedr? Alla i ddim honni 'mod i wedi gwneud gwaith ymchwil trylwyr i'r mater, ond roedd hi'n braf clywed Gareth Jones (ymysg eraill) ar Newyddion S4C yn siarad yn ddoeth yn erbyn bwriadau Wales & West Housing i godi 21 o gartrefi fforddiadwy ar y safle. Gobeithio y bydd synnwyr cyffredin yn ennill y dydd.

Beth bynnag yw eich bwriadau, eich gobeithion a'ch breuddwydion am 2018, bydded iddi fod yn flwyddyn lewyrchus i chi gyd. Cofiwch rannu'ch straeon yn y papur bro Clonc, ac ar wefan Clonc360!

Cloncen

Dathlu Gwyl Dewi

Dathliadau Gŵyl Dewi Llambedr Pont Steffan a'r cylch Mawrth 2018

O ddydd Iau Mawrth y 1af hyd nos Sadwrn y 3ydd bydd dathliadau Gŵyl Dewi yn y dref. Ar y dydd Iau sef Dydd Gŵyl Dewi Sant bydd holl gaffis y dref yn cynnig bwydydd Cymreig felly ewch i ddathlu a gwledda.

Ar brynhawn Gwener yr 2il o Fawrth 2018 trefnir gorymdaith gan Gyngor y dref a Cered drwy dref Llambled a hoffwn eich gwahodd i ymuno â ni. Bydd y parêd/gorymdaith yn cychwyn o Ysgol Bro Pedr am 12.45 gydag ysgolion y dalgylch, cymdeithasau, clybiau ac eglwysi'r cylch. Gofynnir i bob ysgol/cymdeithas arddangos baner eu mudiad a gwisgo gwisg Gymreig neu goch!

Bydd Ben Lake (AS) ac Elin Jones (AC), Cyngor y dref a Chôr Cwmann yn gorymdeithio hefyd. Cynhelir digwyddiad i ddilyn ym Mharc yr Orsedd gyda siaradwyr, Côr Cwmann a grŵp o Ysgol Bro Pedr. Awn i Neuadd Victoria os na fydd y tywydd yn caniatáu. Bydd sesiwn yn dilyn i'r plant yn y Neuadd gyda Sally Saunders a Sioned Rees.

Mae croeso i bawb ymuno yn y parêd neu ym Mharc yr Orsedd tua 1.15 o'r gloch.

CERED, CYNGOR TREF LLAMBLED TOWN COUNCIL AC YSGOL BRO PEDR:

GIG GŴYL DEWI

FLEUR DE LYS

MEI EMRYS A'R BAND

BWCA

DJS BRO PEDR

20:00 3.3.18

NEUADD VICTORIA HALL
LLAMBLED

TOCYN £8 / £10 AR Y DRWS

TICKET OFFICE / SWYDDFA DOCYNNAU:
01545 572 350 / CERED@CEREDIGION.GOV.UK

Ar nos Sadwrn y 3ydd o 8 o'r gloch ymlaen trefnir Gig yn Neuadd Victoria gyda Fleur de Lys, Mei Emrys a'r Band, Bwca a DJ's Ysgol Bro Pedr. Tocynnau £8 o flaen llaw gan Cered 01545 572350 neu drwy'r ysgolion neu £10 wrth y drws.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ar e-bost ann.bowen.morgan@hotmail.co.uk

Diolch i'n noddwyr - Cyngor y dref, Cered, LAS, Prifysgol y Drindod Dewi Sant a W.D.Lewis, Clwb Rotari a Chlwb Cinio Llambled.

Bydd gwobr i'r siop / busnes sydd wedi addurno orau ar gyfer wythnos y dathlu yn rhoddedig gan Gyngor y dref.

CYMRAG Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.



CHWEFROR

- 1 Recordio Sioe Radio Ysgol Brofiad yng Nghlwb Rygbi Llanbed am 7.30yh.
- 8 Noson Gymdeithasol a swper gan Plaid Cymru Cylch Llambled yn y Grannell am 7.30y.h. Pris £15. Tocynnau gan Ann Morgan 07791 966122.
- 9 Noson yng nghwmni 'Ar Wasgar' yng Nghlwb Bowls Llanbed. Tocynnau yn £5.
- 12 Gyrfa Chwist Merched y Wawr Llambled - Noson Gymdeithasol yn nghwmni dysgwyr y Gymraeg yn lleol.
- 14 Siop Siarad y dysgwyr yn yr Hedyn Mwstard am 10.30y.b.
- 16 Sefydliad Prydeinig y Galon Ardal Llanybydder a Llambled - Noson gyda Bois y Gilfach ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant am 7.30y.h. Llywydd : Mr Aled Lewis. Swper Ysgafn. Tocyn £15.00. Ffoniwch: 422625, 422441, 423692. Elw tuag at Sefydliad Prydeinig y Galon.
- 17 Gŵyl Gwrw Llambled yn Neuadd y Celfyddydau 12.00y.p – 11.00y.h.
- 19-23 Cystadleuaeth Pantomeim C.Ff.I. Ceredigion yn Theatr Felinfach.
- 25 Oedfa Deuluol yn Noddfa am 5 o'r gloch
- 26 Cyngerdd Pantomeim C.Ff.I. Ceredigion yn Theatr Felinfach.
- 28 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4.00y.p.

MAWRTH

- 1 Dechrau dathliadau Gŵyl Ddewi Llambled- caffis y dre yn cynnig bwyd Cymreig.
- 2 Pared Gŵyl Ddewi yn Llambled- Cychwyn o Fro Pedr am 12.45 y.p.
- 2 Gŵyl Offerynnol Urdd Ceredigion yn yr Hen Goleg, Aberystwyth.
- 2 Cyngerdd Gŵyl Dewi Ysgol Llanllwni yng Nghapel Nonni am 7.00y.h. Artistiaid "Ar Wasgar" a phlant yr ysgol. Tocynnau ar werth yn yr ysgol neu wrth y drws, £5 i oedolion a phlant ysgol gynradd am ddim. Croeso cynnes i bawb.
- 3 Gig yn Neuadd Fictoria am 8.00y.h. gyda Fleur de Lys, Mei Emrys a'r Band a Bwca.
- 4 Sioe Ffasiwn a The Prynhawn gyda duet a lan llofft yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch am 3.00y.p. Tocynnau £10 ar gael drwy ffonio Wendy 07875 289431 neu Rhian 07807 238441. Elw tuag at y Neuadd a Beiciau Gwaed Cymru.
- 8 Eisteddfod yr Urdd Cylch Llambled yn Ysgol Bro Pedr.
- 9 Eisteddfod Rhyng-Gol Cymru ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant, Llanbed.
- 11 Oedfa'r Ifanc yn Noddfa am 5 o'r gloch
- 14 Merched y Wawr yn Dathlu Gŵyl Ddewi- Te prynhawn yn yr Hedyn Mwstard am 3.00y.p.
- 14 Cynhadledd Harmoni Llanbed ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant, Llanbed.
- 16 Gŵyl Ddawns yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul.
- 16 Cinio'r Gamp Lawn i ddathlu degawd Shane Williams yng Nghlwb Rygbi Llanbed am 7.00y.h.
- 23 Eisteddfod Rhanbarth Uwchradd ym Mhafiliwn Bont.
- 24 Eisteddfod Rhanbarth Cynradd ym Mhafiliwn Bont.

EBRILL

- 4 Eisteddfod Gadeiriol Capel y Groes, Llanwnnen
- 4 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4.00y.p.
- 20 Dawns Dewis Brenhines Carnifal Llanybydder yng Nghlwb Rygbi Llanybydder.
- 24 Eisteddfod Rhanbarth Celf a Chrefft yng Ngwersyll Llangrannog.

MAI

- 2 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4.00y.p.
- 5 Eisteddfod Gadeiriol Capel y Fadfa Talgarreg. Os am ragor o fanylion cysylltwch â Emyr Griffiths 01545 590383 neu Enfys Llwyd 01545 590295.
- 11 Noson gyda'r Welsh Whisperer yng Nghlwb Rygbi Llanbed gyda Chymdeithas Amaethyddol Llanbed.
- 12 Rali CFFI Sir Gâr.
- 27 It's a Knockout Llanybydder.

MEHEFIN

- 2 Rali C.Ff.I. Ceredigion yn Felinfach.
- 6 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4.00y.p.

Gorsgoch

Cydymdeimlad

Yn ystod mis Ionawr daeth profedigaeth i ran Eirwen a Gwilym Evans, Glasfryn pan fu farw brawd Eirwen, Ifor Herbert, lawr yn Nhrimsaran ger Llanelli. Cydymdeimlir yn ddwys â chi a'r teulu oll yn eich colled.

Rhifyn Mawrth

yn y Siopau

1 Mawrth

Erthyglau, Newyddion
a Llundiau i law erbyn

19 Chwefror

Gohebiaeth



Annwyl Bapur Bro,

DOD Â PHOBL AT EI GILYDD

Ydych chi yn ysu cyfarfod rhywun eto? 'Da chi'n chwilio am berthynas gwaed? Neu'n dymuno dod o hyd i'r person hwnnw wnaeth gymwynas â chi flynyddoedd yn ôl? Ydych chi angen dweud diolch wrth rywun? Neu ail-gynnau tân ar hen aelwyd?!

Dyma gyfle ichi gael dod ynghyd...

Bydd cyfres newydd gyffrous ar S4C yn rhoi'r cyfle i bobl gyfarfod – boed ers blynyddoedd maith neu am y tro cyntaf un – mewn cyfres o aduniadau ddaw â phobl yn ôl at ei gilydd i wireddu dyhead i weld rhywun o'r gorffennol unwaith yn rhagor.

Bydd 'na aduniadu yn digwydd rhwng aelodau teulu gwaed sydd wedi bod ar wahân am flynyddoedd, rhwng unigolion sy' wedi colli cysylltiad, rhwng cyn gyd-weithwyr, cyn-filwyr, aelodau o'r gwasanaethau brys a'r rhai a achubwyd. Dyma gyfle bythgofiadwy i ail-gydio yn y gorffennol, i ddod i adnabod perthynas am y tro cyntaf, i ail fyw profiadau melys a thrist, cyfle i ail-gydio mewn hen garwriaeth, cydnabod rhywun wnaeth ysbrydoli, neu ddweud diolch wrth rywun wnaeth dro da pan oedd wir angen.

Mae'r cwmni teledu Darlun yn estyn gwahoddiad i unrhyw rai sydd â diddordeb i gysylltu i drafod ymhellach.

Os ydych CHI eisiau cyfarfod efo rhywun eto, cysylltwch am sgwrs pellach efo Gwen o gwmni teledu Darlun ar 01248 531531 neu drwy ebost at gwen@darlun.tv

Pencarreg

Llwyddiant mawr

Yn ystod mis Rhagfyr cafodd Cerys Angharad Jones, Cysgod y Graig wybod ei bod wedi cael ei derbyn yn un o ddwy drwy Brydain ar gyfer canu'r delyn yng Ngherddorfa Genedlaethol Plant Prydain o dan 10 oed. Ymfalchiwn fel ardal yn dy llwyddiant Cerys a da iawn ti.

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Delyth Jacob, Frondeg yn teimlo'n well erbyn hyn yn dilyn ei harhosiad yn Ysbyty Glangwili cyn y Nadolig.

Cwrdd Carolau Sant Padrig

Noswyl Nadolig cynhaliwyd Cwrdd Nadolig y plant yn Eglwys St Padrig. Hyfryd oedd gweld cynifer o blant ac oedolion wedi dod ynghyd i ddathlu Gŵyl y Nadolig yn yr Eglwys Hynafol. Diolch i Tirion Tomos, Megan Thomas, Annie Thomas a hefyd i Swyn Tomos am eu hunawdau hyfryd ac i Carys Griffiths-Jones am gyfeilio iddynt.

Siân Elin Williams wnaeth ddarllen yr ail ddarlleniad a braf yw gweld yr ifanc yn cymryd rhan.

Mrs Ceinwen Evans, Felinfach oedd yr organyddes yn ôl ei harfer ac rydym yn ddyledus iddi am ei pharodrwydd a'i dawn arbennig trwy'r flwyddyn.

Roedd cyfle i'r gynulleidfa sgwrsio dros gwpanaid a danteithion ar y diwedd a diolch i Heulwen Jones a Tanya Jacob am arlwyio'r wledd gyda nifer o blant y pentre yn cynorthwyo gyda Danny a Jason yn helpu i gario'r fflasgiau te a'r basgedi bwyd.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn ddedwydd i bawb yn 2018 a'n dymuniadau gorau i chi gyd o Eglwys Sant Padrig, Pencarreg.

Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau i Jac Evans Berllandeg, ar ennill disgybl y flwyddyn yn karate. Cyflwynwyd y darian gan Sensei Jemma Bliss.

18 oed

Dathlodd Manon Williams, Muriau Gwyn ei phen-blwydd yn 18 oed ar y 18fed o Ionawr. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r dathlu.

C.Ff.I. Cwmann

Bu aelodau'r clwb yn canu carolau o gwmpas y pentref a diolch i bawb a gyfrannodd. Casglwyd swm anrhydeddus o £408.35 tuag at MIND Cymru – achos teilwng iawn. Ar ôl canu cafwyd lluniaeth blasus tu hwnt yn y neuadd a baratowyd gan ein llywydd Mrs Mair Williams -diolch yn fawr iddi. Cynhaliwyd ein cinio blynyddol yng ngwesty'r Grannell a chafwyd adloniant i ddilyn yng ngofal Sian Elin, Gethin a Morgan. I ddechrau'r flwyddyn newydd cafwyd Seiat holi o dan arweiniad Mair Williams. Ar y panel oedd Eirios Thomas, Owain Davies ac Elliw Dafydd a chafwyd llawer o hwyl a sbri yn gofyn cwestiynau ac yn gwrando ar yr atebion diddorol. Mae'r aelodau wrthi'n brysur ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer cystadleuaeth Panto'r Sir a gynhelir yn ystod wythnos hanner tymor.

Enillwyr Clwb 125 Neuadd Sant Iago

Mis Rhagfyr

1. Marian Thomas Brondeify, Cwmann, 66. 2. Ruth Jones, Heol-y-Maes, Pencarreg, 20. 3. Aled Evans, Hafod-y-Gân Cwmann, 39. 4. Rhidian Lloyd, Penybont, Pumsaint, 31. 5. Gavin a Rebecca Evans, Annwylfan, Llanllwni, 73. 6. Carol Doughty, Caris, Cwmann, 15. 7. Mr a Mrs T Brennad, Pant-y-Nos, Cellan, 101.

Mis Ionawr 2018

1. Mr H Williams, Brynmeusydd, Parc-Y-Rhos, Cwmann, 118. 2. Mrs D Hardy, Cwrt-Deri, Cwmann, 9. 3. Mr G Evans, Fferm-Felinfach, Cwmann, 36. 4. Mrs N Beaumont, Trefi, Cwmann, 27. 5. Mr N James, Emlyn-Cottage, Cwmann, 42. 6. Mr Irfon Williams, Bryneiddig, Cwmann, 116. 7. Mrs M Jones, 14, Bryn-Yr-Eglwys, Llambled, 32.

Enillwyr Clwb 225 Pwyllgor Pentref Cwmann mis Rhagfyr 2017

1. Sheila Lewis, Brynawel, Cwmann, 196. 2. Muriel McMullan, 44 Heol-Hathren Cwmann, 93. 3. Mr a Mrs Owain Jones, Trywerin Cwmann, 85. 4. Eric Harries, Aberystwyth, 70. 5. Dawn Ling, Glynbedw, Cwmann, 79. 6. Mary Jones, 40a Stryd Fawr, Llambled, 52. 7. Mr a Mrs Terry Jones, Awel-y-Grug, Cwmann, 47.

Enillwyr Misol y Clwb 225 Mis Ionawr 2018

1. Herbert a Glenys Morgans, Rhydownen, Cwmann, 8. 2. Mrs. R. Jones, Cherry- Pines, Cwmann, 122. 3. Mrs. Iona Davies, Murmur -Teify, Cwmann, 33. 4. Aneurin Jones, Hathren, Heol y Bont,

Llambled, 124. 5. Ian, Bryngolau, Cwmann, 197. 6. Mr & Mrs. E. Williams, Cilgell-uchaf, Cwmann, 186. 7. Owain a Bethan Jones, Trywerin, Cwmann, 150.

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Mrs Eluned Lewis, Tanlan yn well ar ôl iddi dorri ei garddwn yn ddiweddar.

Symud i'r pentref

Yn ystod y mis yma mae Emyr ac Eirian Jones wedi symud o Hollies, Llambled i fyw i Brynelfed. Croeso cynnes i chwi i Gwmann!

Pen-blwyddi arbennig

Llongyfarchiadau i Aled Evans, Pennaeth Ysgol Carreg Hirfaen ar ddathlu pen-blwydd arbennig. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r dathlu!

Dathlodd Sara, Caernant ei phen-blwydd arbennig ddiweddd mis Rhagfyr. Pob dymuniad da.

Ganol y mis dathlodd Lowri Wilson, Gwynfryn ei phen-blwydd hithau yn 30 oed.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Glyndwr a Margaret Jones, Y Glyn ar ddathlu eu Priodas Ruddem ddechrau'r flwyddyn newydd. Iechyd da am flynyddoedd i ddod.

Cydymdeimlo

Mae yna nifer wedi colli anwyliaid yn ystod yr wythnosau diwethaf ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd hynny: Mr Eric Williams a'r teulu, Y Fedw ar farwolaeth ei frawd yn Cheltenham, teuluoedd y diweddar Mrs Sallie Jones, Hathren; Iona a Terry Davies, Murmur Teifi, Cae Ram ar farwolaeth ei chwaer, Lenora yn Llanddewi Brefi; Tony a Sheila Lewis ei frodyr a'i chwiorydd ar farwolaeth eu mam Mrs Mag Lewis, Sarn Helen Bakery [gynt] a chwaer i Maureen Evans a'r teulu Brynmaen a Mrs Carys Jenkins, 26 Heol Hathren y plant a'u teuluoedd ar farwolaeth ei phriod Mr Arthur Jenkins.

Sefydliad y Merched

Croesawyd pawb i gyfarfod mis Rhagfyr gan y llywydd Elma. Estynnodd groeso i aelodau o Sefydliad y Merched Llanybydder, Pumsaint a Llanddewi Brefi ac aelod o Ferched y Wawr, Llambled. Aeth ymlaen i groesawu ein gwraig wadd am y noson sef Delyth Price o Landdeusant, gwraig ffarm ac yn fam i ddau o blant. Mae Delyth wedi gwneud enw mawr iddi ei hun dros Gymru a Chlawdd Offa yn trefnu, yn dysgu ac yn beirniadu blodau. Mae wedi ennill medal

Aur yn Sioe Flodau 'Chelsea'. Yn 2017 enillodd lawer iawn o wobrau yn y 'Ffair Aeaf'. Cawsom noson i'w chofio ganddi wrth iddi wneud pedwar trefniant o flodau yn ymwneud â'r Nadolig. Yn gyntaf Torch, yn ail Trefniant Bwrdd, yn drydydd Trefniant Bwrdd Bach, yn bedwerydd Coeden Nadolig Triongl. Y cyfan yn wledd i'r llygad. Diolchwyd iddi yn gynnes iawn gan Gwen. Tynnwyd raffl y blodau 1. Heather 2. Tegwen Williams 3. Elma Phillips 4. Gwyneth Morgan ac enillwyd gwobrau eraill gan Delyth Price, Diana Harper, Glesni Thomas, Gwynfil Griffiths, Bethan Lewis a Joyce Williams. Yna cafwyd punch poeth a danteithion Nadoligaidd wedi eu paratoi gan Elma, Gwen, Gwyneth a Joyce. Yn dilyn hynny cawsom gyfarfod busnes a Gwen yn y gadair. Llongyfarchwyd Elma ar gael ei hethol yn Ymddiriedolwr i'r Pwyllgor Iechyd, addysg a materion cyhoeddus ac i Mary fel aelod cyfetholedig ar Bwyllgor y Celfyddydau a Hamdden.

Cafwyd gwahoddiad oddi wrth Sefydliad y Merched Pumsaint i brynhawn agored ar ddydd Mercher, Rhagfyr 13eg o 2-5y.p. i ddathlu 60 mlynedd. Noson garolau yng Nghaerfyrddin nos Wener, Rhagfyr 8fed.

Croesawodd y llywydd bawb i gyfarfod cyntaf 2018 yn Festri Bethel gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Dywedodd eu bod yn falch i weld Avril yn ôl. Cydymdeimlwyd ag Avril ar golli ei brawd yng nghyfraith a hefyd ag Iona ar golli ei chwaer.

Roedd y cyfarfod ym Mhumsaint wedi ei ganslo oherwydd y tywydd.

Cwis ar Ionawr 23ain yn Hanner Ffordd, Nantgaredig. Dominos Nos Fawrth Chwefror 27ain yng Ngwesty'r Oen, Llangeler. Darllenwyd y 'Resolutions' ac roedd pawb yn gytûn mai 'Iechyd Meddwl' ddylai gael y sylw.

Aeth Gwen ymlaen i groesawu'r gŵr gwadd sef Kevin Hughes, bachgen lleol sy'n byw yng Nghellan gyda'i wraig Heather a'r plant Dion a Megan. Mae Kevin yn gweithio i'r tîm 'Search Rescue' gyda'r Frigâd Dân. Dechreuodd ei yrfa yn y Frigâd Dân yn 2006 yng Nghaerfyrddin yna symud i Abertawe a Llanelli. Roedd ganddo gi o'r enw Celt wedi ei hyfforddi i chwilio ac i helpu pan fyddai angen. Soniodd ei fod wedi bod ym Machynlleth ar adeg April Jones a hefyd yn Llangammach Wells adeg y tân rhai misoedd yn ôl. Ar ôl cael ychydig o hanes ei waith, aeth allan i ddod â Celt i mewn er mwyn i ni gael ei weld. Diolchwyd iddo yn gynnes iawn gan Gwyneth. Glesni a Gwyneth fu'n paratoi te. Enillwyd y raffl gan Brenda.

Annwyl Olygydd,

Ysgrifennaf ar ran tîm cynhyrchu y gyfres 'Garddio a mwy' ar S4C, fydd yn dychwelyd i'r sgrin yn y gwanwyn am gyfres arall.

Unwaith eto, bydd ein cyflwynwyr - y garddwyr brwd Iwan a Sioned Edwards a Meinir Gwilym - yn ymadael â'u gerddi eu hunain yn achlysurol i gynnig help llaw i arddwyr eraill ar hyd a lled Cymru. Nid trawsnewid gerddi yw'r bwriad, ond yn hytrach dod â bywyd newydd iddi trwy ganolbwyntio ar ran ohoni a welai fudd diwrnod caled o dorchillewys.

Felly, pa bynnag agwedd o'r ardd sydd angen sylw, anogwn eich darllenwyr i ddod i gysylltiad â ni. Yn ddelfrydol, dylid anfon cyfres o luniau a disgrifiad byr o'r joban dan sylw, neu o ddyheadau'r perchennog (fydd wrth gwrs yn cymeryd rhan yn yr eitem!).

Yn ogystal a gerddi preifat, rydym hefyd yn agored iawn i glywed am brosiectau garddio cymunedol neu grŵpiau lleol, eto a hoffai fewnbwn gan y tîm.

Am ragor o wybodaeth, neu i gynnig syniad am eitem, dylid ebostio garddioamwy@cwmnida.tv, ffonio 01286 685 300 (a gofyn am Euros neu Meinir) neu adael neges ar ein tudalen facebook (facebook.com/garddioamwy).

Cofion cynnes,

Tîm Garddio a mwy

Mae CLONC wastad yn chwilio am bobl newydd i helpu.

Hoffech chi ysgrifennu erthygl neu dynnu lluniau?

Hoffech chi weinyddu'r wefan?

Neu beth am waith dylunio?

Rydym yn chwilio am swyddogion hysbysebu a swyddogion gwerthiant.

Allech chi sbario awr y mis wrth ymuno â'r criw ffyddlon sy'n plygu Clonc?

Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes er mwyn cynnig eich gwasanaeth os gwelwch yn dda.

Gŵyl Gwrw a Seidr Llanbedr Pont Steffan



17 Chwefror 2018

Neuadd Celfyddydau'r Brifysgol, Llambled

Hanner dydd - 11 yh

Adloniant byw

Amrywiaeth eang o gwrw a seidr

Lluniaeth ar gael

Mynediad £3 gan gynnwys gwydr arbennig

www.facebook.com/lampeterbeerandciderfestival
www.lampeterbeerfestival.co.uk

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gofologofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
ac yn golchi *duvets*.
Sychlanhau ar y safle.



Graham Jones

Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- ★ Pherifferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776
neu 07715 740777
www.tynici.com

graham@tynici.com



Dawns
WELSH GIFTS
2 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan

T: 01570 423884 S: 07900 370537
e.dawnsemporium@gmail.com f.dawnswelshgifts

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llanbedr
Ffôn: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant **Eryl Jones Cyf**

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Tai Bwyta / Siopau

Cyfrifoldeb

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cynghor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401
E-bost: carol@ejic.co.uk

Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoledig
gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Llanfair Clydogau

Parti Nadolig y Plant

Ar Ragfyr 2il daeth nifer o blant a'u rhieni i'r neuadd i fwynhau parti wedi ei drefnu gan Anwen Bell, Nant Gwyn, a Rhian Lewis, Penlan. Uchafbwynt y prynhawn oedd ymweliad Sion Corn ac roedd ei bresenoldeb, pan gyrhaeddodd ar gefn tractor mawr, wedi creu awyrgylch cyffrous iawn i'r plant. Cafodd pob plentyn anrheg gan Sion Corn ac roedd anrhegion yn wobrau i'r gemau wedi eu rhoi gan drigolion y pentre. Roedd y bwyd wedi ei gyfrannu gan rieni'r plant a ffrindiau. Yn ôl pob golwg roedd pawb wedi cael prynhawn difyr dros ben. Diolch i Anwen a Rhian am drefnu'r dydd a'r adloniant. Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y dydd.

Canu Carolau

Yn ôl yr arfer yn Llanfair trefnwyd dwy noson i fynd o amgylch y pentref i ganu carolau a chasglu arian tuag at achosion da. Dros y blynyddoedd mae pobol y pentre wedi cyfrannu'n hael tuag at nifer o elusennau. Eleni, siomwyd llawer gan fod y tywydd garw wedi ei gwneud yn amhosib mynd allan i ganu. Serch hynny, ar y nos Iau, roedd cawl a mins peis wedi eu trefnu yn y neuadd a daeth llawer i'r neuadd i gymdeithasu. Ar ôl derbyn cyfraniadau ar y noson penderfynwyd rhoi bocs yn y siop er mwyn i'r pentrefwyr nad oeddent yn bresennol gael cyfle i gyfrannu.

Gwasanaeth Carolau

Ar Ragfyr 17eg cynhaliwyd y gwasanaeth blynyddol eleni yn Eglwys y Santes Fair yng ngofal y Parch. Bill Fillery gyda Paula Barker wrth yr organ. Bu aelodau'r Eglwys a Chapel Mair yn cymryd rhan gyda darlleniadau a charolau yn dweud stori'r Nadolig. Roedd yn bleser hefyd croesawu, am y tro cyntaf, Côr Sefydliad y Merched, Ceredigion, o dan arweiniad Llinos gydag Alwena yn cyfeilio. Roedd casgliad y gwasanaeth yn cael ei ychwanegu at gasgliad y bocs canu carolau, a'r arian yn cael ei rannu rhwng prynu 'defibrillator' i'r pentre a'r Uned ar gyfer Babanod sydd wedi'u Geni Cyn Pryd yn Ysbyty Glangwili. Casglwyd swm o dros £460. Diolch i bawb a gyfrannodd mor hael at ddau achos haeddiannol.

Sefydliad y Merched

Braf oedd cael dathlu ein cinio Nadolig eleni yng Ngwesty Glynhebog. Cafwyd pryd o fwyd blasus a noson o gymdeithasu mewn amgylchedd cysurus. Diolch i Annie Zakiewicz am wneud y trefniadau ac i unrhyw un arall a gyfrannodd at lwyddiant y noson.

Cydymdeimlad

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Michael Williams yn 58 oed, gynt o Afallon, Bro Clywedog. Mab Crystal a Cynon Williams oedd Michael ac yn un o saith o blant. Mynychodd Ysgol y Pentref yn Llanfair ac Ysgol Gyfun Llanbed. Ar ôl gadael yr ysgol bu'n gweithio yn Siop Quan yn Llanbed cyn mynd i weithio ar fferm Pentrelan lle bu am dri deg o flynyddoedd cyn symud i Ffarmers am y blynyddoedd diwethaf. Roedd Michael wedi bod â diddordeb mawr mewn cerdd ers pan oedd yn ifanc ac yn cynnal disgos ym mhentrefi'r ardal. Roedd wedi cael iechyd gwan ers blynyddoedd ac wedi treulio'r misoedd diwethaf yng ngartre Cae'r Ffair yn Llanelli. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Llanelli gyda'r gweddillion yn cael eu claddu ym mynwent y plwyf yn Llanfair. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i chwiorydd a'i frodyr a'u teuluoedd oll.

Daeth ail dristwch dros yr ardal hefyd pan ddaeth y newyddion am farwolaeth Dennis Jones, Llwynieir yn 79 oed. Mab Llwyn, Llanfair oedd Dennis yn un o un ar ddeg o blant. Symudodd y teulu o Gellan i fyw yn Llwyn yn 1947 gyda Dennis wedi cael ei addysg yng Nghellan ac ysgol Gyfun Llanbed lle arbenigodd mewn chwaraeon ond yn enwedig mewn rygbi lle roedd ganddo sgiliau arbennig. Gadawodd yr ysgol i fynd adre i ffermio ond fe barhaodd ei gariad at rygbi a phob math o fabolgampau. Ar ôl treulio ei oes yn ffermio a gweithio'n galed, bu'r diddordeb yma yn ffordd iddo dreulio llawer awr fach ddiddig pan wnaeth ei iechyd ddirywio dros y blynyddoedd diwethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad â Helen a'r plant, Rhian a Dafydd, y chwiorydd a'r brodyr a'u teuluoedd i gyd.



Casglu Sbwriel

Gan fod llawer o bentrefwyr Llanfair wedi sylwi fod sbwriel yn sarnu harddwch yr ardal, penderfynwyd mynd ati i drefnu bore pan fyddai pawb gyda diddordeb yn gallu cwrdd tu allan i'r neuadd i gasglu'r sbwriel. Y bore hwnnw oedd dydd Sul, Ionawr 14eg am 10 o'r gloch, pan ddaeth tua 30 ynghyd yn cynnwys oedolion a phlant. Buont yn casglu am dros awr tra bu grŵp o'r gwragedd yn paratoi 'brunch' i bawb yn y neuadd erbyn iddynt orffen.

Cafwyd bore llwyddiannus gyda phawb yn cymdeithasu ar ôl gorffen, dros fwyd blasus iawn. Llanwyd bagiau di-ri o sbwriel. Gobeithio bydd pawb yn mynd â'u sbwriel adre o hyn allan.



C.Ff.I. Llanllwni

Blwyddyn newydd dda i holl aelodau a Ffrindiau'r clwb.

Ar ran CFFI Llanllwni hoffwn ddiolch i bobl y pentref a'r ardaloedd cyfagos am eu haelioni ar hyd y flwyddyn.

Cynhaliwyd Swper Cynhaeaf blynyddol y clwb yn Neuadd yr Eglwys Maesycrugiau, lle roedd aelodau'r clwb yn perfformio pigion o'r eisteddfod yn rhan o adloniant y noson, codwyd £617.50.

Llongyfarchiadau mawr i Ifor Jones a enillodd y gystadleuaeth barnu carcass dan 21. Hoffai'r clwb hefyd longyfarch Sioned Howells am ddod yn 3ydd yng nghystadleuaeth y goron yn Eisteddfod CFFI Cymru yn Llandudno, ac i Owain Davies am ddod yn ail am gyfansoddi sgets.

Gwahoddwyd CFFI Capel Iwan i dafarn y Talardd am noswaith o gymdeithasu gyda'r clwb, roedd pawb i'w weld yn mwynhau chwarae'r gemau. Diolch i aelodau CFFI Capel Iwan am ddod a diolch i dafarn y Talardd am ein croesawu ni unwaith eto!

Aeth criw o ferched lawr i Ysgol Gynradd Nantgaredig ar 25ain o Dachwedd i'r gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg. Ar ôl bore prysur o gystadlu daeth tîm yr adran ganol yn drydydd, gyda Sioned Howells yn mynd ymlaen i gynrychioli Sir Gaerfyrddin fel Cadeirydd a Sioned Bowen fel eilydd. Llongyfarchiadau i'r tîm iau a thîm yr adran ganol!

Fe aeth rhai aelodau i fyny i Faes y Sioe i'r Ffair Aeaf. Llongyfarchiadau i Ifor Jones am ddod yn drydydd am Feirniadu Carcas Wyn. Llongyfarchiadau i Anwen Jones am gystadlu yn y Beirniadu gwartheg biff, ac i Sioned Howells am gystadlu yn y torch Nadolig.

Diolch i holl drigolion yr ardal a gyfrannodd at y Canu Carolau a gododd gyfanswm o £1,168.28. Caiff yr arian yma ei rannu rhwng Beiciau Gwaed Cymru a CFFI Llanllwni. Fe aeth nifer o aelodau'r clwb ar drip dirgel y Sir a drefnwyd gan

Lysgenhadon y sir sy'n cynnwys Siôn Evans sy'n Llysgennad i'r Sir. Diwrnod llawn hwyl a chymdeithasu.

Fe aeth y clwb hefyd ar daith flynyddol i weld Pantomeim Felinfach. Braf oedd gweld un o aelodau'r clwb sef Owain Davies ar y llwyfan yn perfformio - llongyfarchiadau iti!

Aeth aelodau hynaf y clwb i Ddawns Nadolig y Sir yn Abertawe i gefnogi Siôn Evans. Yn wir fe wnaeth pawb fwynhau mas draw!

Cynhaliwyd Cinio Nadolig y clwb eleni yn Nhafarn y Talardd. Diolch i'r Talardd am y croeso unwaith yn rhagor.

Cynhaliodd y clwb noson i gyflwyno sieciau i wahanol elusennau ar ôl yr holl godi arian. Dyma lle aeth yr arian iddo:

Sioe a Threialon Cŵn Defaid 2017- Cafodd yr arian ei rannu rhwng dwy elusen sef Ambiwylans Awyr Cymru (£1,145.95) ac Uned Gofal y Fron Ysbyty Tywysog Philip (£1,145.95) - *gweler y llun ar y dudalen flaen.*

Canu Carolau: Cafodd yr arian ei rannu rhwng Beiciau Gwaed Cymru a Chronfa'r clwb sef £584.14 yr un.

Cwrdd Diolchgarwch: Aeth yr arian (£68) at gronfa'r clwb.

Erbyn hyn mae ymarferion tuag at Gystadleuaeth y Pantomeim wedi dechrau. Pob lwc i'r aelodau sy'n cystadlu, bydd yr holl hanes i ddod cyn hir.

Pen-blwyddi arbennig

Yn ystod mis Rhagfyr dathlodd James Powell, Erwdeg, Maesycrugiau ei ben-blwydd yn 40 oed. Iechyd da eto i'r dyfodol.

Hefyd ar nos Galan dathlodd y Parch. Aled Williams, Cwmawel ben-blwydd arbennig.

Gobeithio eich bod eich dau wedi mwynhau'r dathlu!

Newyddion Eglwys Sant Luc

Llanllwni:

Enillwyr mis Rhagfyr:
£20 Martin Doyle (51); £15 Bethan a Catrin (27); £10 David Thorne (12); £10 John A. Jones (67);

£10 John ac Ivy Evans (79); £10 Angela Craig (141).

Enillwyr mis Ionawr:

£15 Tom Jones (124); £10 Parch. S. Bale (92); £10 Dylan a Bethan Jones (29).

Llongyfarchiadau i bawb, a diolch am gefnogi.

Cynhaliwyd gwasanaeth Plygain y Ddeoniaeth yn Llanllwni eleni ar Ionawr 7fed. Daeth cynulleidfafa gref allan ar brynhawn llym o oer. Cafwyd gwasanaeth hyfryd iawn o dan arweiniad y Parch. Suzy Bale. Daeth tri pharti o wahanol eglwysi ymlaen i ganu; Llanbed, un grŵp o Lanybydder, Llanwenog a Llanwnnen, ac Eglwys Llanllwni. I orffen cafwyd eitem gan Sioned a Siriol Howells. Ar ôl y gwasanaeth bu cyfle i gael lluniaeth a chymdeithasu yn y Neuadd. Diolchodd ein Deon Gwlad y Parch. Philip W. Davies am y croeso yn yr Eglwys a'r Neuadd. Roedd naws hyfryd i'r prynhawn.

Yn ôl ein harfer, fe ymlwybron tuag at Eglwys Llandysul ar Ionawr 13eg i gymryd rhan yn y Calan Hen blynyddol. Daeth parti niferus o Lanllwni ynghyd, yn blant ac oedolion; y plant wedi astudio hanes Samson, a'r oedolion yn pori drwy ddarnau o lyfr Marc. Braf yw gweld yr Ŵyl hynafol hon yn parhau o hyd.

Undeb y Mamau

Yn anffodus, oherwydd y tywydd gohiriwyd ein cyfarfod i weld gwaith llaw Eluned Davies yn Rhagfyr, ond cawn gyfle arall cyn bo hir. Fe gwrddon ar y nawfed o Ionawr, pan gawsom gyfle i wrando ar y Parch. Goronwy Evans, Llanbed. Dyna beth oedd orig ddiffr iawn. Roedd ein gŵr gwadd wedi dod â nifer o lyfrau a ysgrifennwyd ganddo, a'r mwyafrif yn ymwneud â hanes lleol. Wrth gwrs roedd nifer o'r aelodau'n adnabod y cymeriadau yn y llyfrau, a hynny'n cydio'n gryf yn y dychymyg. Does dim maeddu hanesion cefn gwlad. Rhoddwyd y diolchiadau gan Janet. Ar Chwefror 13eg byddwn yn croesawu'r Parchedig Ganon Aled Williams i'n hannerch.

Ysgol Llanllwni

Profiad bythgofiadwy i bawb oedd cael gwahoddiad i ganu carolau yn y Ffair Aeaf yn Llanellwedd. Aethom fel ysgol gyfan gan ganu am hanner awr a hynny tair gwaith mewn gwahanol leoliadau. Ar ôl gorffen canu cawsom peth amser i fynd o amgylch y stondinau a siopa! Roedd pawb wedi mwynhau mas draw a diolch i'r rhieni a deithiodd i fyny i'n cefnogi. Diolch yn fawr hefyd i'r sioe, Mr. a Mrs. Eric Jones Tirlan a Chymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau yr Ysgol am eu cyfraniadau tuag at gost y bws.

Cawsom Ffair Nadolig lwyddiannus iawn eleni eto ar

ddechrau mis Rhagfyr. Trefnwyd y Ffair gan Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r Ysgol a'r Ysgol Feithrin. Roedd y lle yn llawn o stondinau amrywiol a nifer fawr o rieni a ffrindiau wedi dod i'n cefnogi ac i ddechrau eu siopa Nadolig! Diolch yn fawr i Lywyddion y dydd, sef Mr. a Mrs. Alan Bellamy am eu rhodd hael a'r geiriau caredig. Diolch hefyd i Mrs. Marian Jones o Fanc Barclays am gefnogi trwy'r cynllun £ am £. Galwodd Siôn Corn heibio gan roi anrhegion i'r plant. Bu'r plant yn canu carolau a diolch i Mrs. Eirlys Owen am gyfeilio. Gwnaethpwyd dros £4000 o elw i'w rannu rhwng yr ysgol a'r Ysgol Feithrin. Diolch i bawb a gefnogodd mewn unrhyw ffordd.

Rydym yn ddiolchgar i Dave a Tracey, Y Swyddfa Bost am eu rhodd o £30 i'r ysgol yn dilyn eu raffl Nadolig. Diolch yn fawr.

Ar ddiwrnod gwisgo siwmperi Nadolig fe gasglwyd £69 tuag at yr elusen "Achub y Plant".

Mewn sesiwn Urdd cyn y gwyliau daeth Ficer Suzy Bale atom gan gynnal sesiwn o Ddawnsio Gwerin. Mwynhaodd pawb mas draw gan ddysgu rhai symudiadau newydd. Diolch Ficer Suzy.

Croeso i'n glanhawraig newydd sef Mrs. Delia Buckley a ddechreuodd ei swydd newydd wythnos cyn diwedd tymor. Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r gwaith.

Croeso nôl ar y staff i Mrs. Susan Pendle fel cynorthwywraig ran amser yn nosbarth yr Adran Iau. Gobeithio y byddwch yn hapus eto yn ein plith!

Mae Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r ysgol wrthi'n trefnu cyngerdd Gŵyl Ddewi a fydd yn cael ei chynnal Nos Wener, Mawrth 2il yng Nghapel Nonni gan ddechrau am 7 o'r gloch y.h. Yr artistiaid fydd plant yr ysgol ac "Ar Wasgar"- grŵp o fechgyn o ardal Dyffryn Cothi. Pris tocyn yw £5 gyda phlant ysgol gynradd am ddim. Mae tocynnau ar werth o'r ysgol neu wrth y drws. Croeso cynnes i bawb.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol-

Mis Rhagfyr
1af - £50 - Mrs. Delyth Evans, Maesgwyn, Llanybydder. 2il - £40 - Teulu Penlan, Pontrhydfendigaid. 3ydd - £30 - Jane Rodrigues, Garden House, Maesycrugiau. 4ydd - £20 - Andy McGill, Belle View, Llanllwni. 5ed - £10 - Chris Owen, Tan-y-Bryn, Llanllwni. 6ed - £5 - Gwyndaf Jones, Tirbanal, Llanymdyffri.

Mis Ionawr
1af - £10 - Ieuan Thomas, 8 Bro Nantlais, Gwyddgrug. 2il - £5 - Denize Thomas, Neuadd Deg, Llanllwni. 3ydd - £5 - Mathew Williams, Clyniar, New Inn.



Tîm C.Ff.I. Llanllwni yn ennill cystadleuaeth yr Adran Ganol Siarad Cyhoeddus Cymraeg Sir Gâr ar ddiwedd mis Ionawr. Owain Davies enillodd y Siaradwr gorau hefyd. Yn y tîm gyda fe oedd Sioned Bowen a Sioned Howells. Mrs Mererid Jones oedd y beirniad.

Llanllwni

Newyddion Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni

Ar ddechrau Rhagfyr buodd plant y Cylch a Ti a Fi i fyny yn Aberystwyth i weld Sioe Nadolig Cyw.



Dyma lun ohonyn nhw ar ddiwedd y Sioe gyda'r cyflwynydd newydd Elin Haf Jones (cyn-ddisgybl yn Ysgol Llanllwni).

Dymuna pwyllgorau'r Cylch Meithrin a Chymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanllwni ddiolch o waelod calon i bawb a wnaeth gyfrannu at ddiwrnod ein Ffair Nadolig ar yr 2il o Ragfyr. Bu'r diwrnod yn llwyddiant mawr gyda £4,005 o elw. Fe ddaeth tyrfa dda i ymuno yn hwyl yr ŵyl. Braf oedd clywed araith ein Llywydd Ann Bellamy yn sôn am ei hatgofion melys o fod yn ddisgybl yn yr ysgol a diolch iddi ac Alan am eu rhodd hael. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a wnaeth gyfrannu eitemau ar gyfer y raffl ar ocsiwn, ac i A Jones and Sons Tarmac am noddi'r raffl. Fe wnaeth Siôn Corn ymweliad ac rydym yn ddiolchgar iawn i Siop Y Pentre am noddi'r groto! Rydym hefyd yn ddiolchgar i Siop Y Bont,

Sainsbury's, Bara Gwalia a Marks & Spencer am eu cyfraniadau tuag at lluniaeth y dydd ac i aelodau'r cyngor bro am eu cymorth. Diolch hefyd i'r holl stondinwyr a wnaeth roi o'u hamser i gefnogi'r dydd. Dymunwn hefyd ddiolch yn arbennig i Marian Jones Banc Barclays am ei chyfraniad hael trwy gynllun '£1 am £1'.

Ar ran Pwyllgor, Staff, Rhieni a phlant Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni hoffon ddiolch i Ymddiriedolwyr Cronfa Fferm Wynt Statkraft Alltwalis am eu cyfraniad hael o £5,000 tuag at gostau cynnal ein Cylch.

Mae'r arian yma'n gwneud gwahaniaeth mawr i ni, ac rydym yn ddiolchgar iawn am eu cyfraniad ar gyfer y flwyddyn.

Mae Cylch Meithrin Llanllwni yn rhedeg ar foreau dydd Llun, Mawrth Mercher a Gwener ar gampws yr ysgol gynradd, rhwng 8.45-12. Cynigir addysg a gofal o safon uchel trwy gyfrwng y Gymraeg i blant 2 oed tan oedran ysgol. Os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Helen Davies ar 07377781977 neu cylchmeithrinllanllwni@yahoo.co.uk.

Cylch Ti a Fi Llanllwni

Cynhelir Cylch Ti a Fi ar foreau dydd Iau yn ystod y tymor, rhwng 9-11yb ar gampws yr ysgol gynradd. Croeso i rieni, gofalywyr, mamgus a thadcu i ddod gyda'u plant i fwynhau gwahanol weithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros banded.

Alltyblaca

18 oed

Babi'r Mileniwm oedd Cerys Lewis, Bro Teifi ac mi ddathlodd ei phen-blwydd yn 18 oed ar ddydd Calan. Hefyd, dathlodd Ryan Holmes, Llygaid-yr-Haul ei ben-blwydd yntau ganol y mis. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu.

Llwyddiant cerddorol

Llongyfarchiadau i Elan Jenkins, Llain Deri am basio Gradd 1 ar y piano o dan nawdd y London College of Music. Pasiodd Elan gydag anrhydedd gan gael marciau llawn yn y theori.

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Sarah Humphreys Jones a Teifi, Frongelli yn eu profedigaeth ar golli chwaer a modryb yn ystod y mis, sef Janet Richards o Seilo ger Llanymddyfri. Ychydig ddyddiau yn ddiweddarach daeth y newyddion trist am farwolaeth sydyn gŵr Janet sef Eric Richards, brawd yng nghyfraith ac ewythr hoffus. Derbyniwch ein cydymdeimlad llwyr yn eich colled erchyll.

Llanybydder



Ymdeoliad

Ymdeoliad hapus i Mike a Pam Burrke, Siop Compton, sydd wedi bod yn rhedeg siop bapurau yn y pentref am 45 o flynyddoedd. Dymuna'r cwsmeriaid ymdeoliad hapus i'r ddau.

Côr Lleisiau'r Werin

Fel rheol mae mis Rhagfyr yn llawn o wasanaethau'n ymwneud â'r Nadolig ac nid oedd eleni'n eithriad. Ar y 3ydd o Ragfyr cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig blynyddol y côr yn eglwys Sant Pedr Llanybydder. Canwyd llawer o garolau amrywiol a bu rhai o aelodau'r côr yn cyflwyno darlenniadau yn gysylltiedig â Gŵyl y Geni. Roedd y casgliad eleni yn mynd tuag at Uned Nyrsgys Arbenigol ysbyty Felindre Caerdydd a chasglwyd dros £500 at yr achos teilwng hwn. Yna, ar Ragfyr 16eg, eglwys Sant Pedr Llambod oedd y lleoliad ar gyfer Carol, Cerdd a Chân. Unwaith eto cafwyd sawl datganiad o garolau amrywiol eu naws gan y côr, ac yr oedd eitemau graenus hefyd gan unawdwyr adnabyddus a chorau lleol eraill. Yn ôl yr arfer roedd casgliad y noson yn mynd tuag at Cymorth Cristnogol.

Hoffai aelodau'r côr ddymuno adferiad buan i Elonwy yn dilyn ei llawdriniaeth a diolch yn fawr i Alwena am lenwi'r bwlch.

Siarad Cyhoeddus

Llongyfarchiadau i Sioned Fflur Davies am ennill y Darlennydd gorau a'r Cadeirydd gorau dan 14 yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg CFfI Ceredigion. Bydd yn cynrychioli Ceredigion yn y Siarad Cyhoeddus Cymraeg a Saesneg yn Llanelwedd

ym mis Mawrth. Bydd Ffion Mai Davies hefyd yn cynrychioli Ceredigion yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg dan 14. Pob hwyl i'r ddwy.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Morfydd Evans, 82 Bro Einon ar golli ei phriod sef Rhys Evans; i Eleri a Bronwen ar golli tad gweithgar a John a Daniel ar golli tad yng nghyfraith a ffrind parchus; i Miriam, Kiera ac Alpha ar golli tad-cu arbennig iawn.

Hefyd, cydymdeimlwn ag Alun Evans, Dolydd ar golli brawd.

Diolch

Dymuna Gill Evans, 44 Heol-y-Gaer ddiolch o waelod calon am y consyrn, y caredigrwydd a phob cymwynas yr wyf wedi derbyn ar ôl fy llawdriniaeth yn ddiweddar. Gwerthfawrogaf y cyfan. Diolch yn fawr.

Dymuna Jean Davies, Hafod-y-Gân ddiolch i'w cymdogion, ffrindiau a phawb am y llu o gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ôl llawdriniaeth yn ddiweddar.

Gwerthfawrogir eich consyrn a'r help a gefais yn fawr iawn. Diolch o galon i bawb.

Hefyd, dymuna Owen Davies, Brynmerau ddiolch i bawb am y llu cardiau, galwadau ffôn a rhoddion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

Clwb Clonc

Chwefror

£25 rhif 486 :

Mrs Nia Wyn Williams,
Bwlch-y-ffin, Silian.

£20 rhif 335 :

Mrs Carol Jones,
Awel-y-Grug, Llanybydder.

£15 rhif 469 :

Llion a Meirion Thomas,
Gilfachwen, Rhodfa Glynhebog,
Llambod.

£10 rhif 171 :

David Evans,
Brynbach, Rhodfa Glynhebog,
Llambod.

£10 rhif 337 :

Mrs Megan Jones,
Rhandir, Cwmsychpant.

£10 rhif 519 :

Iestyn Jac Wilson,
Trysor, Stryd y Brenin,
Caerfyrddin.

£5 rhif 269 :

Dan Jones,
Penarth, Heol-y-Bryn, Llambod.



Cofrestrwch ar ein gwefan gymunedol
www.clonc360.cymru
er mwyn cyfrannu eich stori chi.

Llanbedr Pont Steffan

Shiloh a Soar

Dyma'r ail waith i'r Gymdeithas Ddiwylliadol drefnu cyfarfod i fwynhau a gwerthfawrogi dawn arbennig Bethan Phillips fel llenor. Y tro yma, roedd ei phriod John Phillips wedi trefnu i'r gynulleidfa luosog a ddaeth ynghyd i ail- fyw bywyd y cymeriad cymhleth o Drecefel, Tregaron - Joseph Jenkins a hynny'n cael ei bortreadu'n broffesiynol iawn gan yr actor Dafydd Hywel.

Ar ôl cael ei feirniadu a'i guro am ei oferedd a'i driniaeth o'i deulu, mi benderfynodd codi pac ac ymfudo i Awstralia. Yn rhyfedd iawn, mi adawodd yr orsaf yn Llanio ar y 7fed o Ragfyr 1868 i ddal y llong yn Lerpwl a ninnau'n cyfarfod 149 mlynedd i'r diwrnod ar y 7fed o Ragfyr 2017. Cymerodd y daith ar y llong 87 diwrnod cyn cyrraedd Melbourne.

Er i fywyd Joseph Jenkins yn Awstralia fod yn anodd tu hwnt, gyda gwaith ac arian yn brin, llwyddodd i aros yno am dros 25 o flynyddoedd cyn i'w iechedd ddirywio. Penderfynodd ddod yn ôl i Drecefel yn 1895 ond bu farw yn 1898. Cadwodd ddyddiadur manwl ac roedd yn dasg enfawr i Bethan ddod â stori'r Swagman yn fyw i ni - yn wir, mae'r hanes yn fwy poblogaidd yn Awstralia nag ydyw yng Nghymru ac mae'r llyfr bellach allan o brint. Mwynhad pur oedd gweld yr hanes ar ffilm. Yn ôl pob hanes, roedd portreadu'r Swagman yn un o uchafbwyntiau gyrfa Dafydd Hywel.

Gwelwyd ffilm hefyd o Bethan yn sôn am hanes yr hen Blasdy yn Peterwell a Goronwy yn cyfeirio mewn cyfweiliad at hanes tref Llanbed a'i phobl. Diolchodd y Llywydd Philip Lodwig i John Phillips am wneud y trefniadau ac am brynhaun a erys yn hir yn y cof.

Cydymdeimlo

Ddechrau mis Rhagfyr fe gollwyd Mrs Sallie Jones, Hathren yn dilyn salwch byr. Roedd hi'n un o blygwyr ffyddlon CLONC ar un adeg ac fe anfonwn ein cydymdeimlad llwyrfa â'i phriod Aneurin, y plant Tegryn a Trefina ynghyd â'r wyrion oll a'r cysylltiadau teuluol i gyd. Bu'r angladd yng Nghapel Brondeifi ac yno yn y fynwent y rhoddwyd ei gweddillion i orffwys.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Janice a John Williams, Gerllan, Heol-y-Bryn a Siop duet ar ddathlu eu Priodas Ruddem yn ystod mis Rhagfyr. Gobeithio i chi fwynhau'r dathlu.

Cylch Cinio

Cynhaliwyd cyfarfod diweddaraf y Cylch Cinio ar nos Iau y 14eg o Ragfyr yn lle'r noswaith arferol.

Er newid y dyddiad am y tro, yr un oedd y brwdfrydedd a chroesawyd pawb i'r achlysur gan y llywydd a mwynhawyd yn ôl yr arfer bryd ardderchog o fwyd.

Ein gŵr gwadd ar y noswaith oedd y Bnr Steffan Hughes - un sydd â chysylltiadau clos â'r ardal. Buan y dangosodd agosatrwydd dymunol iawn a thrwy hynny ennyn diddordeb ar unwaith yn ei destun sef gweithio gyda phobl anabl yn y gemau Olympaidd a chystadlaethau tebyg ledled y byd.

Damweiniol braidd fu dechrau ei gysylltiad â'r gwaith gwerthfawr ac unigryw hwn. Ymateb wnaeth i hysbyseb heb feddwl fod ganddo fawr o obaith i gael cynorthwyo rhedwraig ddall o'r enw Tracy - merch er ei dallineb oedd yn awyddus i gystadlu yn y gemau paralympaidd a bod yn llwyddiannus. Yr elfennau hollbwysig oedd hybu'r meddwl, yr ysbryd a'r corff. Sylweddolodd nad oedd yn bosibl gwneud hynny heb sefydlu perthynas glos a chreu cydymdeimlad agos. Llwyddwyd i wneud hynny ond dechrau'r daith yn unig oedd hynny. Wrth gystadlu yn Beijing, Llundain a Chanada ac ennill nifer o fedalau, wynebodd yr holl rwystrau a wynebai'r holl gystadleuwyr a oedd eisioes wedi dygymod ag anawsterau fyddai'n ddigon i dorri calon ac ysbryd y llai pendant a phenderfynol. Roedd yn fywyd a oedd yn gallu disgyn o uchelfannau llwyddiant i ddiflastod methiant dros nos bron. Amlwg iawn oedd edmygedd Steffan o'r cystadleuwyr fedrai ddygymod â hynny dro ar ôl tro a thros hir amser. Amlwg hefyd oedd ein hedmygedd ni o un a oedd wedi ymroi i gefnogi'r fath bobl a hynny'n dod â chymaint o bleser a mwynhad iddo. Anodd dros ben darganfod ansoddair addas i roi tegwch i'r math yma o waith. Mae ysbrydoledig yn dod yn weddol agos.

Testun y ddarlith oedd Tywys Tracy. Mae'n siŵr iddo ein tywys ni, bob un mewn edmygedd o'i waith.

Diolchwyd iddo yn gynnes iawn ar ran pawb gan y Bnr Andrew Jones.

Mae yna lawer o ddilorni ar ieuencid y dyddiau hyn ond mae un peth yn gwbl sicr - ni ymunai neb a oedd yn bresennol yng nghyfarfod diweddaraf Cylch Cinio Llanbed yn y feirniadaeth. Ein siaradwyr oedd triawd talentog o ieuencid yr ardal oedd wedi dod i draddodi hanes eu taith i Batagonia. Pobl ifanc hyderus, hawddgar a galluog. Boi bach! Os yw'r rhain yn nodweddiadol o'r genhedlaeth sydd ohoni, nid gofid sydd angen ond cefnogaeth a chanmoliaeth gyson a chadarn. Rhyfeddod i rai ohonom oedd cofio'n cymysgedd o bleser a pheth ansicrwydd wrth wynebu trip ar y bws i Aberystwyth heb sôn

am Gaerdydd. A nawr dyma ni yng nghwmni triawd oedd wedi mentro i ben draw'r byd ac yn llwyr abl i draddodi eu profiadau.

Gwnaeth Nest Jenkins, Cadi Jones a Morgan Lewis hynny drwy gyfrwng llais a llun a hynny mewn modd eglur a diddorol. Y rhyfeddod oedd iddynt gyflwyno eu pleser a'u boddhad i ni mor effeithiol. Clywsom gymaint fu'r croeso iddynt a dyfinedd fu eu hedmygedd hwythau o ymdrechion y Wladfa i gadw'n hiaith annwyl yn fyw. Cawsom flas ar hyn oll yn y cyflwyniad ac efallai ambell bwl o euogrwydd nad yw'r ymdrech yn nes gartref.

Diolchwyd iddynt yn gryno ac yn gynnes gan ein His-lywydd y Bnr Eifion Williams. Noswaith arall o wledda eithriadol ymhob ystyr o dan arweiniad sicr ein Llywydd Richard Marks.

Mae'r rhaglen eithriadol yn gyflym tynnu at y terfyn. Parhau yr un mor ddiddorol fydd tynged y Cylch Cinio. Ymunwch â ni os hoffech fwynhau profiadau tebyg i'r rhai a brofwyd ar nos Iau y 4ydd o Ionawr. Anodd os nad yn amhosibl fyddai cael gwell yn unman.

Diolch

Dymuna Dai, Brynbach, Rhodfa Glynhebog ddiolch yn fawr iawn i bawb am y llu cardiau, galwadau ffôn a'r rhoddion a dderbyniodd yn dilyn llawdriniaeth ar ei ben-glin. Gwerthfawrogi hyn yn fawr.

Alun Isaac Thomas B.Sc.(Hons)

Dymuna Gillian gydnabod yn ddiolchgar iawn bob arwydd o gydymdeimlad oddi wrth y teulu, Mr. a Mrs. Gwynne a Mary Jones a Miss Anna Jones, Norrie a Geri, ffrindiau a chymdogion, yn ei phrofedigaeth, ac am y cardiau o gydymdeimlad. Derbyniwyd blodau oddi wrth Gillian, Norrie a Geri, Tŷ Brookfield, (trwy law Nicola Cascade), Patricia a John, Joan a Haydn, Dai ac Enfys, Ann a'r teulu, Eluned a Fiona, Hazel a'r teulu a Catrin, Roger a Ceri (Cwmni Joio) ynghyd â phawb o Craith (Cwmni Severn Screen). Diolch i bawb a deithiodd o bell yn y tywydd garw i fod yn bresennol yn yr angladd yng nghapel Soar ar Ragfyr yr 11eg. Diolch i'r cludwyr, Mr. Norrie Thomas, Mr. Gwynne Jones, Mr. Sam Thomas, Mr. Raj Boodenay a Mr. Cillian Barry.

Diolch arbennig i'r gofalwyr i gyd yn Nhŷ Brookfield ac i'r doctoriaid a'r nyrsys yn yr ysbytai gwahanol am eu gofal arbennig dros Alun, ac i Ysbyty Glangwili am eu cefnogaeth yn ei ddyddiau olaf.

Diolchiadau cynnes i'r Parchedig D. J. Goronwy Evans am gynnal gwasanaeth arbennig, i Mr. Ifan Gruffydd, Mr. Gareth Jones a Mrs. Annabel Aynsley, am eu cyfraniadau

i'r gwasanaeth, ac i Delyth Y Pantri, am flodau'r capel a'r lluniaeth arbennig ar ôl y gwasanaethau, yn y capel a'r amlogsgfa. Diolch i'r Diaconiaid caredig, i'r organyddes Mrs. Eirwen Davies ac i Mr. a Mrs. Alan a Sulwen Morgan, hefyd i Cerdin Price am ei ofal graenus ac am drefnu'r angladd yn wych.

Rhoddion i Gartrefi Fronhaul a Brookfield er cof am Alun Isaac Thomas drwy law Gwilym C. Price ei Fab a'i Ferched, 1-2 Heol y Coleg, Llanbedr Pont Steffan Ceredigion. SA48 7DY.

Noddfa

I orffen dathliadau Nadolig Noddfa cynhaliwyd Oedfa Garolau yng ngolau kannwyll ar 7 Ionawr. Roedd y capel wedi ei addurno yn drawiadol iawn a'r canhwyllau lliwgar yn creu naws o dawelwch hyfryd yn dilyn bwrlwm yr Ŵyl. Croesawyd pawb yn gynnes ac offrymwyd gweddi agoriadol gan ein Gweinidog y Parchedig Jill Tomos. Darllenwyd rhannau o'r Beibl gan 14 o'r aelodau gan ddechrau gydag adnodau o lyfr Esaia yn rhagfynegi dyfodiad Iesu a gorffen gyda darlleniad o efengyl Ioan wrth i ni gamu nôl a cheisio deall beth yw ystyr y cyfan. Cyhoeddwyd y carolau gan 9 o'r bobol ifanc. Hefyd mwynhawyd unawdau swynol gan Elan i gyfeiliant Alwena a Sioned i gyfeiliant Eiry, ei Mam-gu. Wrth dalu'r diolchiadau datganodd Alun ei falchder o weld cymaint o'r ieuencid yn cymryd rhan a thalodd deyrnged uchel i'n Gweinidog am lunio'r oedfa ac am ei gwaith gyda'r offer technegol, i Ann Morgan am drefnu ac i Alwena am ei gwasanaeth wrth yr organ. Hefyd diolchodd i'r chwiorydd am baratoi'r capel, i Janet am annog y bobol ifanc i fod yn rhan o'r gwasanaeth, i'r rhai oedd wedi cymryd rhan a chyflawni eu gwaith yn ardderchog, i Delyth am gynllunio'r faner newydd a Derek am ei rhoi i fyny ac yn olaf ond nid y lleiaf i bawb am eu cefnogaeth.

Teimlai pawb a oedd yn bresennol eu bod wedi derbyn bendith yn cydaddoli mewn oedfa arbennig iawn. Casglwyd swm sylweddol tuag at Gymorth Cristnogol.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y misoedd diwethaf.



Llanbedr Pont Steffan

Dathlu'r Plygain!

Er gwaetha'r tywydd mwyn daeth tymor y Nadolig unwaith eto, ac un o ddigwyddiadau cyntaf yr Adfent yn Llambedd ers rhai blyneddodd bellach yw'r plygain a gynhelir yng Nghapel y Coleg. Nos Lun, 4 Rhagfyr 2017, cynhaliwyd gwasanaeth Plygain yng Nghapel Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, ac roedd Capel y Coleg yn orlawn eto eleni ar gyfer y gwasanaeth hyfryd hwn. Diolch i drigolion Llambedd a'r fro am eu cefnogaeth driw i'r oedfa am ddegawd a mwy.

Arweiniwyd darn o'r Hwylol Weddi gan y Gwir Barchedig J. Wyn Evans, cyn-Esgob Tyddewi, a'r organyddes oedd Mrs Glynis Morris. Cymerwyd rhan gan Saba a Sophia, Parti Plygain Coleg Llambedd, Parti'r Penrhyn, Côr Cymysg Eglwys Llandeilo, Parti Meibion Llandeilo, Rhiannon Ifans a Trefor Pugh, Twynog Davies, Kees Huysmans. Wedi i'r dynion ganu 'Carol y Swper', croesawyd pawb i'r Hedyn Mwstard i gymdeithasu dros wydraid o bwnsh cynnes a lluniaeth ardderchog. Diolch i'r cwmni yno am eu hynawsedd.



Yr oedd yn hyfryd gweld Llywydd y Brifysgol, Dr R. Brinley Jones a Mrs Stephanie Jones, yn bresennol yn y gwasanaeth plygain yn ôl eu harfer, ac eleni croesawyd atynt Is-Ganghellor y Brifysgol, Yr Athro Medwin Hughes, a'i wraig Mrs Fiona Hughes. Ymysg y gwesteion hefyd yr oedd Maer Llanbedr Pont Steffan, y Cynghorydd Hag Harris, a'i bartner. Trefnwyd y noson gan Dr Rhiannon Ifans o Gyfadran y Dyniaethau a'r Celfyddydau Perfformio.



Dr Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru, yn annerch y cyfarfod am y sefyllfa bresennol o ran TB yng Nghymru ac yng Ngheredigion, yn ystod Cynhadledd NFU Cymru Ceredigion yn Llambedd yn ddiweddar.

Isod - Rhai aelodau o'r gynulleidfa'n gwrandao ar Dr Christianne Glossop yn annerch ac yn ateb cwestiynau o'r llawr.



Cymorth Cristnogol

Braf oedd gweld tyrfu luosog wedi dod ynghyd i dathlu Gŵyl y Geni yn Eglwys San Pedr mewn noson hyfryd wedi ei threfnu gan bwyllgor Cymorth Cristnogol, sef Carol, Cerdd a Chân. Roedd y noson hon yn achlysur arbennig iawn gan fod deng mlynedd ar hugain ers cychwyn y digwyddiad blyneddol hwn gan y diweddar Hazel Davies, un a roddodd oes o wasanaeth i Gymorth Cristnogol. Croesawyd pawb yn gynnes ac offrymwyd gweddi agoriadol gan y Canon Andy Herrick. Hefyd datganodd ei lawenydd o weld yr eglwys lleol yn dod at ei gilydd i gefnogi achos mor deilwng.

Pleser oedd cael cwmni Cadeirydd Cynghor Sir Ceredigion y Cynghorydd Lynford Thomas a'i briod ynghyd â'r Cynghorydd Hag Harris a'i bartner Eiry, Maer a Maeres y dref gyda ni. Mwynhawyd noson ardderchog yng nghwmni talentau lleol sef Côr Lleisiau'r Werin, Côr Llefaru Sarn Helen, Côr Ysgol Carreg Hirfaen, Prif Swyddogion Bro Pedr, Kees Huysmans, Aled Wyn Thomas, Gwenann Jones, Lowri Elen, Sara Elan o Aelwyd yr Urdd, Gwawr Jones, Elin Williams, Deborah Angel a Margaret Wilson. Cafwyd perfformiadau cloddiw gan y cantorion a'r llefarwyr i gyd gan greu naws hyfryd y Nadolig wrth ein tywys tua Bethlehem.

Talodd Twynog Davies, Cadeirydd y pwyllgor deyrnged uchel i'r Canon Andy Herrick a wardeiniaid San Pedr am eu cydweithrediad parod, i'r artistiaid i gyd o'r lleiaf i'r hynaf am wledd arbennig, i'r stiwardiaid wrth y drysau, i bawb am eu cefnogaeth ac i Janet am drefnu'r noson gyda'i brwdfrydedd arferol. Datganodd ei werthfawrogiad i Elonwy Pugh Huysmans am ei gwasanaeth amhrisiadwy wrth yr organ yn flynyddol ers y cychwyn.

Codwyd swm sylweddol iawn o £820 tuag at Gymorth Cristnogol ac fe fydd y llywodraeth yn ychwanegu punt am bunt. Wrth droi tuag adre roedd pawb yn uchel iawn eu canmoliaeth o arlwy'r noson.

Cymdeithas Hanes

Y Bnr John Phillips, Cyn-gyfarwyddwr Addysg Dyfed oedd y siaradwr gwadd yng nghyfarfod mis Ionawr. Dangoswyd dwy ffilm o waith ei wraig Bethan, hanesydd amlwg drwy Gymru gyfan. Rhoddodd gefndir y ffilm gyntaf a wnaed tua 20 mlynedd yn ôl, am Joseph Jenkins, Blaenplwyf, ac wedyn Trecefel, Tregaron (1818 -98). Dechreuodd gadw dyddiaduron pan oedd yn 21 mlwydd oed, a'u hysgrifennu yn Saesneg, yn bennaf er mwyn gwella safon ei fedrusrwydd yn yr iaith honno.

Mae'r 58 o ddyddiaduron sydd wedi goroesi yn rhoi hanes bywyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd y ffilm a wnaed gan Bethan a Paul Turner yn dechrau gan ganolbwyntio ar fywyd Joseph yn Nhregaron, lle chwaraeodd ran sylfaenol mewn agor yr ysgol gynradd. Er ei fod yn ŵr amlwg yn y gymuned honno, cododd ei bac gan anelu am Awstralia, a cheisio gwaith yn Victoria, gan symud o un fferm i'r llall er mwyn cael dau ben llinyn ynghyd, a chael ei adnabod fel 'Y Swagman'.

Wedi 25 mlynedd yn Awstralia, dychwelodd adre i Drecefel at ei wraig Beti, ac er nad oes yna gofnod iddo yfed diodydd meddwol tra'r oedd yn Awstralia, buan y trodd yn ôl at y demtasiwn honno, a chronicleir ei hanes wedi iddo ddychwelyd yn nyddiaduron ei ferch Ann. Bu farw yn 1898, a'i gladdu gyda dau o'i feibion ym mynwent Capel-y-Groes.

Hanes George Pocock oedd yr ail ffilm; y goroeswr diwethaf yn Llambedd i ymladd yn y Rhyfel Mawr. Tynnwyd y ffilm gan Dylan Lewis yn 1989 pan oedd yn y Chweched dosbarth yn ysgol gyfun Llambedd, a da oedd cael cwmni Dylan ar y noson. Gwelwyd Bethan Phillips yn holi George am ei gyfnod yn y fyddin. Roedd wedi ymuno yn 15 oed, ond wedi celu ei wir ddyddiad geni. Soniodd sut y bu iddo ef a 55 o fechgyn eraill ymdeithio i'r orsaf drên yn Llambedd, i gychwyn ar chwe wythnos o hyfforddiant cyn eu cael eu hanfon i'r ffosydd yn Ffrainc. Soniodd am y brwydrau y bu'n rhan ohonynt, a'r erchyllterau a welodd yno; y defnydd o nwy a chyflwr eu bywyd yn y ffosydd; agwedd y Swyddogion a'r ddisgyblaeth ofynnol tra bu yno.

Dangosodd y gynulleidfa luosog ei gwerthfawrogiad i John Phillips a Dylan Lewis am ddangos y ffilmiau a rhoi'r cefndir perthnasol iddynt.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 20fed Chwefror am 7.30 yh - yn Ystafell 1, Neuadd Celfyddydau'r Brifysgol (Arts Hall - nodwch y newid yn y lleoliad). Bydd Eric Williams a Jen Cairns yn siarad am yr ymchwil diweddar sydd wedi ei wneud ar Blwyf Pencarreg.

Diolch

Dymuna teulu'r diweddar Mrs. May Thomas (Tŷ Capel Soar gynt) ddiolch i bawb am eu cydymdeimlad, y cardiau a'r blodau a gafwyd adeg colli Mam.

Diolch i'r Parch Goronwy Evans a'r Parch Cen Llwyd a hefyd Gwilym Price, ei fab a'i ferched. Hefyd i Delyth Pantri am baratoi'r bwyd, i Nicola am y blodau ac am y cyfraniadau a dderbyniwyd er cof am Mam tuag at Nyrsys yn y Gymuned, Llambedd.

Llanbedr Pont Steffan

Ysgol Sul Noddfa

Bu'r flwyddyn aeth heibio yn un lwyddiannus unwaith eto yn hanes Ysgol Sul Noddfa.

Bu'r plant yn dod yn ffyddlon bob nos Wener am 4 o'r gloch a'r rhieni yn cymryd eu tro i gynorthwyo yn wythnosol. Cymerodd yr aelodau ran yn y Gymanfa Ganu a gynhaliwyd yn Noddfa ac mewn nifer o Oedfaon yr Ifanc gan dderbyn canmoliaeth uchel iawn am eu gwaith. Maent wedi cyfrannu tuag at Fanc Bwyd y dref hefyd.

Oherwydd yr eira bu'n rhaid cynnal ein Dathliadau Nadolig nos Fercher 20 Rhagfyr a braf oedd gweld cynulliad teilwng iawn wedi dod ynghyd i Oedfa arbennig wedi ei llunio gan Janet. Teimlwyd naws hyfryd yr ŵyl wrth deithio i Fethlehem mewn pennill a chan yn nghwmni 21 o blant a phobl ifanc ynghyd ag 8 o'r Mamau. Bu'r plant cynradd yn cyflwyno drama'r geni a phob un wrth eu bodd yn dathlu pen-blwydd Iesu a'r rhai lleiaf mor frwdfrydig gan ddod â gwên i wyneb pawb. Hefyd cyfoethogwyd yr Oedfa gan ddarlenniadau o'r Beibl, adroddiadau, gweddiâu, unawdau a grwpiau canu amrywiol heb anghofio sgwrs hwyliog y bugeiliaid. Gwelwyd talentau pawb ar eu gorau.

Ar ddiwedd yr Oedfa pwy alwodd heibio ond Santa (diolch i Roy Roach) a bu'n brysur iawn yn dosbarthu llong sach o anrhegion. Diolch yn fawr i



Alun ac Eifion am eu rhoddion o ffrwythau i bawb eleni eto. Ar ran yr Ysgol Sul cyflwynwyd anrhegion i Janet gan Cai, Ifan a Trystan Wyn am ei gwaith diflino yn ystod y flwyddyn [*llun ar y chwith*]. Wrth ddiolch talodd deyrnged uchel i'r plant am eu teyrngarwch a'u ffyddlondeb i'r Ysgol Sul ac i'r rhieni am eu cydweithrediad a'u cymorth mawr. I ddiwedd prynhawn hyfryd iawn mwynhawyd te parti ardderchog wedi ei baratoi gan y rhieni dan gyfarwyddyd Llinos. Edrychwn ymlaen at

gydweithio hapus a llwyddiannus eto yn ystod 2018.

Mae'r bobol ifanc yn meddu ar dalentau amrywiol. Enillodd Sion Evans y wobwr gyntaf ym Mhencampwriaeth Prydain mewn rasys beiciau modur a dewiswyd ei gyfnither Beca i gynrychioli Cymru mewn cystadlaethau Athletau yn yr Alban gan gyrraedd safon uchel.

Hefyd dewiswyd Cerys Angharad i ganu'r delyn yng Ngherddorfa Prydain.

Llongyfarchiadau i'r tri ar eu llwyddiant mawr a phob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

Nos Wener 19 Ionawr bu criw o aelodau'r Ysgol Sul yn diddanu'r Henoed yng Nghartref Hafandeg. Cyflwynwyd unawdau swynol gan Elan, Cerys Angharad a Trystan Bryn ac roedd Sion Ifan, Tudur, Rhun, Trystan Wyn, Ifan, Cai, Lynwen ac Esther yn rhan o'r grwpiau canu amrywiol. Roedd y plant i gyd wrth eu bodd yn perfformio a'r Henoed wedi cael gwledd yn eu cwmni. Hefyd bu'r Mamau a'r preswylwyr yn ymuno gyda'r plant i ganu nifer o emynau adnabyddus gan fwynhau yn fawr.

Diolchodd Margaret, un o staff Hafandeg i Janet am ddod â'r plant i Hafandeg yn rheolaidd ers blyneddau maith gan roi cymaint o bleser i bawb. Cyn troi tuag adre cafwyd cyfle i fwynhau diod ac i gymdeithasu.

Diolch

Dymuna Janet ddiolch yn ddiffuant i bawb yn gysylltiedig ag Ysgol Sul Noddfa am yr anrhegion hyfryd a gyflwynwyd iddi gan Cai, Trystan Wyn ac Ifan. Diolch o galon i chi gyd. Gwerthfawrogi y cyfan yn fawr iawn.



Criw Ysgol Sul Noddfa yn diddanu'r Henoed yn Hafandeg ar 19 Ionawr.

Oedfa Deulu

Cynhelir Oedfa Deulu yn Noddfa nos Sul 25 Chwefror am 5 o'r gloch yng ngofal y Parchedig Simeon T. Baker, Cyfarwyddwr Cenhadaeth Undeb Bedyddwyr Cymru. Croeso cynnes i bawb.

Oedfa Sul y Mamau

Ar Sul y Mamau sef 11 Mawrth cynhelir Oedfa Arbennig yn Noddfa am 5 o'r gloch yng nghwmni'r plant a'r bobol ifanc. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Dyweddïo

Llongyfarchiadau i Natalie Moore, 28 Penbryn a Jonathan Evans o Gaerfyrddin ar eu dyweddïad ar Ddydd Calan. Dymuniadau gorau i'r ddau.

Diolch

Dymuna John Morgan, 4 Maesyfelin ddiolch i bawb am y galwadau ffôn, cardiau a rhoddion a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch i bawb am eu caredigrwydd.

Noson Hwyl wrth gadw'n Heini Merched y Wawr

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan ein llywydd Morwen a chanwyd cân y mudiad a thrafod busnes.

Croesawyd ein gwraig wadd atom sef Llinos Williams sy'n gweithio yng Nghanolfan Hamdden Llambed. Cawsom sgwrs gyntaf gan Llinos am ei hanes a'r math o waith a wna yn y ganolfan. Mae'n hyfforddi amrywiol bethau fel circuits, bocsio, ffitrwydd, troelli a llawer mwy. Soniodd am ei datblygiad ym maes hyfforddi ffitrwydd ac yn fwy arbennig am y gwaith a wna gyda phobl a gyfeirir gan eu doctoriaid am amrywiol resymau er enghraifft colli pwysau, problemau â'r galon, ystywytho ac ati. Mae'n gwneud llawer o waith yn asesu a helpu pobl i adfer eu hyder wedi triniaeth neu salwch.

Wedi mwynhau ei sgwrs cawsom sesiwn ymarferol a phawb yn cael hwyl wrth wneud amrywiol ymarferion i ystywytho'r corff dan hyfforddiant Llinos ac i gyfeiliant cerddoriaeth.

Diolchwyd i Llinos gan Gwynfil a diolchodd i Dorothy, Gwen ac Eiry am baratoi'r te.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Erw
Cyfeiriad
Codi post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

7				5		9	6	3
					6		2	
9	1			3				
6							9	
		2				4		
	3							2
				1			3	8
	6		2					
8	7	4		9				6

Swdocw Rhagfyr:

Llongyfarchiadau i:

Eirian Jones,
Bro Teifi, Alltbylaca,
a diolch i bawb arall am
gystadlu: Richard Evans,
Godre'r Coed, Olmarch;
Sian Blake, Penlon
Cottages, Gorsgoch;
Bethan Williams, Neuadd
Fryn, Llanybydder; Avril
Williams, Y Fedw, Cwmann; Bryn Hughes,
Cwmere, Felinfach
a Glenys Davies, Gelli Aur, Llanybydder.

6	3	5	8	7	9	2	1	4
7	8	2	6	4	1	5	9	3
4	1	9	2	5	3	8	7	6
1	9	8	5	3	7	6	4	2
2	7	6	4	9	8	1	3	5
3	5	4	1	6	2	9	8	7
5	6	7	9	8	4	3	2	1
8	4	1	3	2	5	7	6	9
9	2	3	7	1	6	4	5	8

Llanbedr Pont Steffan

Ymweliad ag Ysgol Bro Pedr gan ddisgyblion o'n gefeilldref yn Ffrainc

Cyrhaeddodd bws yn llawn o blant o'n gefeilldref, St Germain Sur Moine ger Nantes, yn gynnar ar y bore dydd Mercher.

Yn gynta aethant i'r coleg i weld rihysal y plant bach. Fe ddefnyddion nhw ddigon o egni yn actio a chanu.

Wedyn cawsom ganu corawl ac roedd y Ffrancwyr wrth eu bodd.

Yna yn ôl i'r ysgol, lle cafodd yr ymwelwyr eu rhannu'n grwpiau i fynychu gwahanol ddosbarthiadau... Roedd yna Grefft, Celf, Coginio, Canu a digon i'w diddori.

Ar ôl cinio da yn yr ysgol cafwyd canu a gwersi Cymraeg. Ac roedd y Ffrancwyr yn cael hwyl dda ar ynganu geiriau Cymraeg. I gloi canodd yr ymwelwyr Y Marseillaise cyn dal y bws yn ôl i Gaerdydd.

Cyfrannodd y pwyllgor lleol at y cinio. Diolch yn fawr i'r Pennaeth Mrs Jane Wyn, Dr Delyth Jones, yr athrawon a heb anghofio'r disgyblion a helpodd i wneud yr ymweliad yn un diddorol. Taith gymunedol lwyddiannus. Bon Voyage!

Capel Brndeifi Cofio Mrs Sallie Jones

Ar y 5ed o Ragfyr, daeth y newyddion trist am farwolaeth Mrs Sallie Jones, Hathren. Roedd Sallie wedi gwasanaethu Brondeifi am dros hanner can mlynedd, wedi iddi briodi gydag Aneurin - un o deulu Hendai - ac ymgartrefu yn Llanbed. Yn wreiddiol o Bumsaint, bu Sallie'n athrawes Ysgol Sul mawr ei pharch, a'n dilyn hynny yn aelod ffyddlon a gweithgar iawn yn y capel. Bu hefyd yn brysur gyda nifer o gymdeithasau a chlybiau lleol, ac roedd ei chyfraniad hi ac Aneurin yn gwbl allweddol i lwyddiant elusen Sefydliad Prydeinig y Galon yn y fro. Roedd ei theulu hefyd yn bwysig iawn iddi ac roedd yn ymfalchïo yn llwyddiannau y plant, Trefina a Tegryn, a'r wyrion Gwion, Sion ac Ela-Gwennon. Roedd y dorf niferus wnaeth lanw Brondeifi ar gyfer angladd Sallie yn arwydd o'r parch oedd iddi ymhlith y rheiny oedd wedi ymwneud â hi mewn amrywiol feysydd dros y blynyddoedd. Cydymdeimlwn gydag Aneurin, Trefina a Tegryn a'u teuluoedd yn eu colled a'u galar.

Gwasanaeth Carolau

Ar Noswyl Nadolig cafwyd Gwasanaeth Carolau hyfryd yn y capel. Roedd yn achlysur cofiadwy gyda chyfraniadau gan bobol o bob oed. Yn codi'r canu roedd Eirian a Meinir. Yn chwarae'r delyn roedd Lili Branwen. Hannah fu'n canu'r garol, 'Un Seren'. Aelodau'r band bach oedd Elen, Sion, Marged, Rhys, Ifan a Deina. Y cantorion ifanc oedd Martha, Gruff, Sion, Rhys, Ifan, Lili, Elen, Marged a Deina. Bu'r canlynol

yn ymgymryd â'r gwaith o gyhoeddi carolau: Bryn, Dafydd a Daniel, Hannah a Megan, ac Elen, Marged ac Ifan. Bu Bryn hefyd yn helpu gyda'r sgrîn fawr. Yn cymryd rhan gyda'r band roedd Hywel, Goronwy, Helen a'r gweinidog, y Parch Alun Wyn Dafis. Traddodwyd y fendith gan y Parch Goronwy Evans.

Bore Nadolig

Ar fore dydd Nadolig cynhaliwyd y gwasanaeth sydd, yn ôl yr arfer, wedi datblygu yn draddodiad ym Mrondeifi ers degawdau bellach. Braf oedd gweld fod Sion Corn wedi galw eleni eto i wireddu breuddwydion aelodau iau (a rhai hynach hefyd!) yn y gynulleidfa.

Y Ffestri yn 21 oed

Ar ddydd Sul ola'r flwyddyn cafwyd cyfle i ddathlu penblwydd y Ffestri yn 21 oed. Dangoswyd ffilm fer o'r broses adeiladu yn 1997, a rhannodd y Parch Alun Wyn Dafis luniau roedd Aneurin Jones, Hathren, wedi eu tynnu, yn dangos yr hen festri yn cael ei dymchwel a'r un newydd yn cael ei chodi.

Bu'r plant a'r ieuenctid yn holi rhai o'r rheiny a fu'n rhan o'r broses adeiladu, sef Eryl Jones, y Trysorydd, a'r Parch Goronwy Evans - a gafodd y freuddwyd o greu festri newydd yn y lle cynta', ac yna gwireddu'r freuddwyd honno, gyda chymorth parod yr holl aelodau.

Wedi i'r digwyddiad ddod i ben, diolchodd y Parch Goronwy Evans i'r Parch Alun Wyn Dafis am drefnu'r achlysur ac am ei wasanaeth arbennig fel gweinidog ym Mrondeifi ers iddo gymryd yr awenau, gan ddymuno'n dda iddo i'r dyfodol hefyd.

Yn dilyn cafwyd cyfle i gymdeithasu dros gwpaned o de a bisgedi, a bu Alan Morgan, Haulfryn, yn ein diddanu gyda rhai dynwarediadau o gymeriadau comedi enwog o'r gorffennol. Roedd yn brynhawn pleserus, gyda digon o gyfle i chwerthin a mwynhau.

Llongyfarchiadau i Alan hefyd ar gwblhau 43 mlynedd ar staff y Co-op yn Llanbed, ac wrth gwrs, mae'n parhau yn aelod pwysig a phoblogiad o'r staff yno.

Ar ddydd Sul cyntaf 2018 - y 7fed o Ionawr - cynhaliwyd Cymunedb dan ofal y Parch Goronwy Evans. Y Sul canlynol, y gweinidog, y Parch Alun Wyn Dafis, oedd yn y pulpud. Yna, ar yr 21ain, tro Ysgrifennydd yr enwad, Mrs Melda Grantham, oedd hi i gymryd gwasanaeth, gyda'r gweinidog yn dychwelyd ar yr 28ain. Ar ddydd Sul, y 4ydd o Chwefror, aelodau Urdd y Benywod fydd yn cymryd y gwasanaeth.

Gwasanaeth BBC Radio Cymru

Ar ddydd Sul yr 21ain Ionawr, y Parch Goronwy Evans, oedd

yn gyfrifol am yr oedfa foreol a ddarlledwyd ar BBC Radio Cymru. Yn ei gynorthwyo yn abl iawn, roedd Hywel Roderick, gyda darlleniad a gweddi. Mae modd clywed y gwasanaeth eto ar wasanaeth 'i-player' BBC Radio Cymru.

Urdd y Benywod Brondeifi

Ar ddiwedd mis Tachwedd cafodd aelodau o Urdd y Benywod Brondeifi y pleser o groesawu un o'n talentau lleol i sôn wrthym am ei gwaith a'i diddordebau. Mae Rhiannon Lewis yn ferch brysur iawn gan ei bod yn bennaeth yr Adran Gerdd yn ogystal a bod yn bennaeth Cynorthwyol yn Ysgol Henry Richard, Tregaron. Mae ei doniau yn y byd cerdd yn adnabyddus yn lleol ac yn genedlaethol ac mae'n bleser ei chlywed yn sylwebu ar Radio Cymru o'r Esitoddffodau Cenedlaethol.

Mae ei disgrifiadau a'i hymrywmiaid i fudiad Urdd Gobaith Cymru yn llawn brwdfrydedd ac nid yw'n syndod deall ei bod yn un o Ymddiriedolwyr y mudiad. Dywedodd iddi ddod yn rhan o'r Urdd yn gynnar yn ei bywyd, a'i bod wedi cael hyfforddiant ac arweiniad gan y diweddar Dan Williams a Miss Mary James yn Adran yr Urdd, Llanbed. Rhoes i ni bortread o hanes yr Urdd o'r adeg y sylfaenwyd y mudiad yn 1922 gan Syr Ifan ab Owen Edwards hyd at y presennol. 'Roedd yn amlwg fod ganddi lu o ystadegau ar flaenau ei bysedd megis y ffaith y bydd yr Urdd yn gant oed mewn tair blynedd. Dywedwyd wrthym ni fod gan yr Urdd 54,943 o aelodau yn 2017. Soniodd hefyd am amryw gylchgronau'r mudiad a chyfeiriodd at weithagredau'r gwersylloedd yn Llangrannog, Glanllyn, Pentre Ifan a Chaerdydd gan ychwanegu fod ganddynt erbyn hyn dŷ yn Hwngari hefyd.

Yr hyn a wnaeth ei sgwrs yn ddiddorol oedd y straeon personol oedd yn britho'i sgwrs megis ei hatgofion am ddringo'r Wyddfa yng nghwmni ei ffrind Elin Jones pan oeddent yn gwersylla yng Nglanllyn, a'r wefr a deimlodd pan gafodd ffrog o ddefnydd Laura Ashley pan oedd yn y Coleg Cerdd a Drama yng Nghaerdydd. Cyfaddefodd hefyd iddi un tro letya yn yr un ystafell mewn gwesty yn Llangollen a ddefnyddiwyd gan y tenor enwog Pavarotti, ond prysurodd i ddweud nad ar yr un adeg y buont yn lletya yno!!

Roedd yr atgofion yn byrlymu o'i genau a phob un ohonom yn gwranddo'n astud arni.

Diolchwyd yn gynnes iddi ar ein rhan gan Dilwen a bu Elsie a Gwenda'n ffodus i gael cymorth parod yn y gegin i weini te a bisgedi ar ôl hynny.

Adran Llambed

Cafwyd noson hwylus tu hwnt yng nghwmni Mr Eryl Jones. Roedd wedi paratoi cwis hynod o ddiddorol gydag amrywiaeth eang o destunau a gwybodaeth gyffredinol. Diolch i Mr Jones am ddod atom. Bu Mrs Haf Meredith yn gwneud gwaith Celf gyda'r aelodau a fydd yn cael ei ddefnyddio ar faner i'r adran/aelwyd a diolch iddi am ei chefnogaeth gyson.



Adran Llambed yn ennill y Cwis Sirol. Llongyfarchiadau i Rhun, Regan, Michael, Sara a Leah.

Aelwyd Llambed

Bu'r tymor diwethaf yn un llwyddiannus yn hanes yr Aelwyd a'r aelodau'n cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau yn cynnwys hwyl Calan Gaeaf yng ngofal Geinor Medi, chwarae'r gêm cyrlio gyda Rhydian a Meriel a noson o waith crefft yng nghwmni Elan heb anghofio eu gwasanaeth clodwiw yn y Gymanfa Garolau a gynhaliwyd ym Mrondeifi. Braf yw gweld criw bywiog o flwyddyn 7 wedi ymaelodi. Mae yna groeso cynnes i bawb ymuno â ni.

Erbyn i Clonc ddod o'r wasg bydd cyfarfod cyntaf o'r tymor newydd wedi ei gynnal i baratoi rhaglen. Ceir manylion yn y rhifyn nesaf.

NEGES BWYSIG i'r aelodau sy'n cystadlu yn Yr Eisteddfod Gylch a gynhelir ddydd Iau 8 Mawrth - y dyddiad cofrestru yw 12 Chwefror. Felly peidiwch anghofio!!

Grŵp Trafod Amaethyddol Llanbed

Agorwyd cyfarfod 5 Rhagfyr gan Aneurin Davies drwy longyfarch pawb a fu'n cystadlu yn y Ffair Aeaf ac yn enwedig y rhai fu'n ffodus i ddod i'r brig unwaith yn rhagor. Cyflwynodd y Siaradwraig Wadd, sef Gail Lewis, sy'n dod o Lanidloes, wedi graddio o Goleg Harper Adams yn Syrffwraig Siartredig ac enillydd Ysgoloriaeth Nuffield yn 2014. Mae bellach yn byw ym Mhumsaint yn Fferm Ynysau ac yn rhannu'r gwaith yna gyda'i phartner. Mae o gefndir amaethyddol a'i bryd felly ar wahanol fathau o rentu tir. Mae wedi astudio'r pwnc yma'n fanwl

Llanbedr Pont Steffan

ac wedi cymharu sefyllfaoedd a chyfleon gwahanol wledydd megis Seland Newydd, Awstralia, Brasil, Cymru ac Iwerddon. Mae'n faes y bydd rhaid edrych yn fwy manwl arno yn y dyfodol er mwyn galluogi ffermwyr ifanc i ddechrau ar ei gyrfa ym myd amaeth. Cynigwyd y diolchiadau gan Bleddyn Williams.

Cyn swyddog y Grŵp oedd y gwestai ar 19 Rhagfyr, sef Eurig Jenkins, Pentrefelin a ddaeth a chlod mawr i'r ardal drwy ennill Ffarmwr Tir Glas y Flwyddyn yn 2016, tipyn o gamp yn wir. Cafwyd noson hwylus gydag Eurig yn sôn am ei system ef o ffermio mewn partneriaeth â'i dad a'i frawd. Mae ganddynt uned laeth ym Mhentreffelin ac yn brys iawn yn cael y gorau allan o'r tir. Soniodd hefyd am ei daith i'r Almaen a'r Iseldiroedd drwy Ysgoloriaeth Cyswllt Ffermio a'i alluogodd i ymchwilio i Unedau Llaeth y ddwy wlad. Casglwyd y samplau gwair a silwair ar gyfer y gystadleuaeth flynyddol yn ystod y noson ac Eurig yw'r beirniad arbenigol eleni.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf 2018 ar 9 Ionawr gydag Aneurin Davies yn dymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb a phen-blwydd hapus iawn i Margaret Dalton, un o Lywyddion Anrhydeddus y Grŵp wrth iddi ddathlu'r 80 drannoeth. Atgoffodd bawb am y Ginio i ddathlu'r 40 nos Wener a'i fod yntau a Twynog Davies wedi bod yn siarad am y digwyddiad pwysig yn hanes y Gymdeithas gyda Sian Cothi ar Radio Cymru. Nododd hefyd fod Heno yn ffilmio eitem fyw o'r ginio nos Wener. Soniodd Margaret Dalton am drip yr Hydref i ynysoedd Shetland ac Orkney a'r dyddiad i'w gadarnhau yn y dyfodol agos. Cyflwynodd Aneurin y ddau westai, sef Ann Davies a John Parker o Gwmni TendaHealth. Cafwyd cyflwyniad manwl iawn gan Mr Parker am faeth i'r anifeiliaid a'r gwahanol ddulliau o'i gyflwyno iddynt. Credai'n gryf hefyd mewn cadw traed yr anifeiliaid yn iach a'i bod yn hollbwysig i gadw cyflwr yr anifeiliaid yn dda er mwyn iddynt berfformio ar eu gorau. Maent yn gwerthu nifer o gynnyrch i helpu yn y meysydd yma ac yn barod i ymweld ag unrhyw fferm i gynnig cyngor. Diolchodd John Davies, Tynloff i'r ddau am eu hamser gan nodi fod nifer o sialensau yn wynebu amaethwyr.

Cynhaliwyd Cinio Dathlu'r 40 ar 12 Ionawr yn y Clwb Rygbi gyda bron i 100 yn bresennol. Roedd rhaglen Heno yn darlledu'n fyw ar ddechrau'r noson gyda Yvonne yn cyfwrdd y Swyddogion a bu'n ffilmio ar fferm Felindre Uchaf, Cwmann yng nghwmni Andrew Jones, Aneurin Davies, Twynog Davies a Rhythwyn Evans yn sôn am ddechrau'r Grŵp Trafod. Edrychai'r dynion yn smart iawn yn eu teis newydd ar gyfer y dathlu, heb anghofio Margaret Dalton yn smart hefyd yn gwisgo'i sgarff. Paratodd Gareth Jones yr Ysgrifennydd daflen yn nodi holl swyddogion y Grŵp yn ystod y 40 mlynedd.



Y 27 o gyn-lywyddion a ddaeth i'r cyfarfod.

I ddechrau'r rhan swyddogol, offrymwyd gras gan Aneurin Davies, y Cadeirydd. Wedi'r pryd blasus iawn a baratowyd gan Cegin Gwenog, cyflwynodd Aneurin y Siaradwr Gwadd sef Twynog Davies, a sefydlodd y Grŵp yn 1977 ac sy'n un o Lywyddion Anrhydeddus y Grŵp. Cafwyd araith arbennig o ddiddorol a llawn hiwmor ganddo gan nodi bod dechrau'r Grŵp Trafod wedi bod yn un o uchafbwyntiau ei yrfa. Diolch iddo am gael y weledigaeth er mwyn i ni, yr aelodau presennol a'r holl aelodau ar hyd y blynyddoedd, elwa o fod yn aelodau o'r Grŵp. Erfyniodd ar i'r aelodau ifanc gymryd at yr awenau i sicrhau llwyddiant y Grŵp i'r dyfodol. Cyflwynodd Andrew Jones, Felindre sylwadau ar ran Syr Henry Plumb a oedd yn methu bod yn bresennol ac a oedd am ddymuno'n dda i'r Grŵp. Margaret Dalton a wnaeth ymddiheuro ar ran Brian Jones, Castell Howell, yntau hefyd wedi methu ymuno yn y dathlu a nododd ei haelioni a'i ddymuniadau da yntau i'r Gymdeithas. Adroddodd Margaret nifer o straeon hapus am y triplau a drefnwyd yn y gorffennol. Dymunodd pawb yn dda iddi ar ddathlu ei phen-blwydd arbennig yn 80. Roedd yn bleser i gael cwmni ein Haelod Seneddol, sef Ben Lake a chafwyd araith bwrpasol iawn ganddo gan nodi fod nifer o'i gyfoedion yn y Senedd yn eiddgeddus ohono'n ymuno i ddathlu 40 mlynedd

y Grŵp, gan nad oes ganddynt y fath sefydliad yn eu hardaloedd hwy. Nododd hefyd ei bod yn adeg o sialensiau newydd i'r byd amaeth a'i fod yn gwerthfawrogi arweiniad a chyngor gan y Grŵp arnynt. Bu Aneurin yn adrodd penillion a gyfansoddwyd adeg y triplau yna cyflwynwyd gwobrau i enillwyr y cystadlaethau. Eurig Jenkins, Pentrefelin a Stephen Griffiths fu'n dadansoddi'r cyniau.



Enillwyr yr amrywiol gystadlaethau a gynhaliwyd yn ystod 2017.

Cyhoeddodd Gareth Jones y canlyniadau a llongyfarchiadau i'r canlynol - Gwair - 1af Craig Evans, Cilgwyn; 2il Ioan Williams, Dolgwm Isaf; 3ydd Carwyn Lewis, Gwarcoed Einon. Byrnau Mawr Silwair - 1af Carwyn Davies, Penlan; 2il Aneurin Davies, Blaenplwyf Lodge; 3ydd Elgan Evans, Bryngwyn. Silwair Clamp - 1af Dafydd Mills, Ffynnonfair ac yn ennill cwpan Coffa Tim Morgan, Coedparc a Chwpan y diweddar Albert Evans fel prif enillydd; 2il Daniel Evans, Tandderi a 3ydd Iwan Jenkins, Tyllwyd. Cafodd cacen y dathlu ei pharatoi gan Sian Jenkins a Sirian Davies.

Bu John a Dai Evans, y Trysoryddion yng ngofal y Raffl. Casglwyd tuag at Uned Cemotherapi Ysbyty Bronglais yn ystod y noson, sef elusen y Cadeirydd. Roedd arddangosfa dda o hen luniau'r triplau wedi'i pharatoi. Talwyd y diolchiadau yn raenus iawn gan Ioan Williams yr Is-Gadeirydd. Cyflwynodd Brian Jones anrheg i bawb oedd yn bresennol yn y ginio ac fel y soniwyd yn flaenorol, diolch yn fawr iawn iddo am ei haelioni. Cafwyd noson hwylus dros ben yn dathlu pen-blwydd y Grŵp yn 40 a gobeithio y bydd dathlu eto yn 50 mewn deng mlynedd arall.

Hir oes i'r Grŵp Trafod.

Gohebiaeth

Gŵyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018

Rhif elusen: 500350

Cadeirydd: Iwan Morgan: ebost: iwan.morgan@ymail.com

Ysgrifennydd: Bethan Haf Jones, 01766 830435

ebost: bethaniwan@yahoo.co.uk

Trefnydd yr ŵyl: John Eifion Jones ebost: johneifionjones@yahoo.com

Cyfeiriad gohebiaeth: Ysgol y Moelwyn, Heol Wynne, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3DW

Annwyl Ddarllenwr,

Yn Nhachwedd 2018 mae Gŵyl Genedlaethol Cerdd Dant Cymru yn ymweld â Blaenau Ffestiniog a'r Fro. Mae hwn yn ddigwyddiad cenedlaethol cyffrous i'r ardal ac mae edrych ymlaen garw at y digwyddiad.

Cynhelir yr ŵyl dros benwythnos ym mis Tachwedd. Mae hi'n ŵyl sy'n denu cystadleuwyr o bob cwr o Gymru a chaiff ei darlledu'n llawn ar S4C.

Mae'r pwyllgor gwaith a sefydlwyd yn dilyn cyfarfod cyhoeddus y llynedd wedi dechrau ar y dasg o godi arian i sicrhau gŵyl lwyddiannus a chofiadwy. Targed ariannol yr ŵyl yw £40,000. Mae'r pwyllgor gwaith yn gweithio'n galed iawn trwy drefnu digwyddiadau er mwyn codi arian i gyrraedd y nod.

Rydym yn troi atoch fel darllenwyr i ofyn yn garedig am eich cefnogaeth. Rydym yn gobeithio y byddwch mewn sefyllfa i ystyried y cais am gefnogaeth i'n galluogi i gyrraedd ein targed.

Os bydd angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch mae croeso i chi gysylltu hefo ni yn uniongyrchol.

Edrychwn ymlaen i glywed gennych.

Yn gywir iawn,
Iwan Morgan
(Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith)
Dewi Lake
(Cadeirydd Pwyllgor Cyllid).



Efallai ichi weld ambell un o redwyr Clwb Sarn Helen ar raglen uchafbwyntiau Marathon Eryri S4C a ddarlledwyd wedi'r ras ar yr 28ain o Hydref. Yr oedd 16 ohonynt yno ymhlith y 2200 a gychwynnodd y ras ac fe lwyddodd pob un ohonynt i orffen y ras anodd hon sy'n cynnwys 2700 o droedfeddi o ddringo. Daeth un ohonynt, Murray Kisbee, yn gyntaf yn ei ddosbarth (dynion dros 65 oed) mewn 3 awr 51 munud a 9 eiliad, y trydydd gwaith iddo ennill ei ddosbarth yn y ras hon. Derbyniodd un arall o aelodau'r clwb, Jane Holmes, wobwr arbennig hefyd sef Gwobr Ysbrydoliaeth yn rhoddedig gan drefnwyr y ras - dyma'r drydedd waith iddi hi gwblhau'r ras hon wedi triniaeth am gancr yr ysgyfaint wrth iddi orffen mewn 5.28.10. Y cyntaf o'r clwb i groesi'r llinell oedd Ken Caulkett (yn 41fed mewn 3.7.50) ar ôl i'w obeithion o orffen dan 3 awr ddiiflannu ar ddringfa Bwlch-y-groes. Rhyw 10 munud ar ei ôl daeth Dan Hooper (75ain mewn 3.17.56) a Michael Davies (78ain mewn 3.18.20) ac yna Glyn Price (3.26.52 ac yn 7fed yn ei ddosbarth) a Nigel Davies (3.30.57.) Mae George Eadon yn parhau i wella dros y pellter hwn gan orffen yn 175ain mewn 3.44.57 gyda Steven Holmes hefyd yn gorffen dan 4 awr (3.53.28.) Eleri Rivers oedd y gyntaf o fenywod y clwb i orffen gan ddod yn 15fed yn ei dosbarth mewn 4.01.03 - record bersonol iddi hi dros y pellter. Yr oedd Eric Rees yn rhedeg y ras hon am y pedwerydd tro ar hugain wrth iddo orffen mewn 4.03.32 - yntau'n un o'r ychydig o aelodau'r clwb sydd wedi ei rhedeg dan 3 awr yn y gorffennol. Yn ei farathon gyntaf dros y clwb fe wnaeth Aled Morgan yn arbennig i orffen mewn 4.15.07 ychydig o flaen Mitchell Readwin (4.20.54) a Carwyn Thomas (4.24.45). Hon oedd marathon gyntaf Delyth Crimes hefyd a gwnaeth hithau'n rhagorol i ddod yn 32ain yn ei dosbarth (4.29.17) un safle a rhyw 8 eiliad y tu ôl i'w chyd-aelod Helen Willoughby. Yr oedd y ras yn cynnwys Pencampwriaeth Marathon Cymru a chafodd Murray Kisbee fedal aur am ei ymdrech ac enillodd Glyn Price fedal yn ei ddosbarth hefyd. Mae'r achlysur hefyd yn cynnwys rasys ieuenctid Daeth Jack Caulkett yn ail yn ei ddosbarth a Harri Rivers yn 3ydd yn ei ddosbarth ef gyda Chris Readwin yn dilyn. Yr oedd y chwiorydd Maddie, Poppy a Violet Caulkett hefyd yn cystadlu dros y clwb yno.

Bu ambell i aelod o'r clwb yn cystadlu ymhellach oddi cartref. Aeth Martin Darby i Hanner Marathon Birmingham ar y 15fed o Hydref gan orffen mewn 1 awr 57 munud ac 1 eiliad ac aeth David Thomas i redeg marathon Palma yn Mallorca mewn 4 awr 15 munud.

Ar yr 22ain o Hydref daeth Dawn Kenwright yn 12fed (ac yn ail o'r menywod dros 35 oed) yn Ras y Ddau Fryn yn Nhegryn. Cynhaliwyd ras lwybr 6 milltir Llyn-y-fran ger Crymch ar yr 11eg o Dachwedd. Daeth Calvin Williams yn 16eg allan o 62 ac yn ail yn ei ddosbarth mewn 46 munud a 20 eiliad gyda Mitchell Readwin yn dilyn (51.49).

Yn ail gyfarfod Cynghrair Traws Gwlad Gwent ar yr 11fed o Dachwedd yn Aberhonddu daeth Susan Jenkins yn 20fed yn nosbarth y menywod dros 60 oed mewn 35 munud a 40 eiliad a daeth Ellen Page yn 80fed mewn 35 munud a 30 eiliad yn nosbarth y menywod dros 45 oed. Yn ras y bechgyn dan 13 oed daeth Rhys Williams yn 29ain mewn 11 munud a 17 eiliad.

Mae blwyddyn o welliant ar ôl gwelliant yn parhau i Caryl Wyn Davies wrth iddi hi ddod â'i hamser deg cilometr i lawr i 41 munud a 26 eiliad yn yr Age UK Leeds Dash ar y 9fed o Dachwedd.



Cynhaliwyd ras ryngwladol traws-gwlad Meistri Prydain yn Derry yng Ngogledd Iwerddon ar y 18fed o Dachwedd. Yr oedd dau aelod o'r clwb, Dawn Kenwright (yn ail yn nhîm menywod 60 - 65 oed Cymru) a Richard Marks (yn ail yn nhîm dynion 65 - 70 oed Cymru), yn cynrychioli Cynghrair Meistri Cymru.

Gwelir isod llun o redwyr Ceredigion yn Derry.



Ar y 19eg o Dachwedd ymunodd 7 o redwyr y clwb â'r 600 neu fwy a redodd ras 10 milltir flynyddol y Sospan ym mharc Gwledig Pembre - ras dros lwybr, porfa a thywod Cefn Sidan. Gwnaeth Ken Caulkett yn neilltuol i ddod yn ail mewn 61 munud a 2 eiliad. Fe orffennodd Mark Rivers mewn 71 munud a 46 eiliad a'i wraig Eleri yn 10fed yn ras y menywod (84:38) o flaen Jenny Caulkett (105:20) Jane Burtenshaw-Jones (118:31) a Rowena Greasley (142:09.)

Cynhaliwyd Ras y Mast ar y 26ain o Dachwedd i ddod â chalendr rasys swyddogol Clwb Sarn Helen i ben am y flwyddyn. Aeth y pedwar safle cyntaf yn y ras chwe milltir hon dros dirwedd garw ac amrywiol i fyny ac i lawr Mynydd Pencarreg i aelodau'r clwb. Yr enillydd oedd Felipe Jones mewn 43 munud a 18 eiliad, deg eiliad o flaen Dylan Lewis gyda Ken Caulkett yn dilyn (43:38) a Carwyn Thomas (46.20) y tu ôl iddo yntau i'n hatgoffa ei fod o fewn cyrraedd i'r goreuon o hyd. Cafwyd perfformiadau cryf hefyd gan Simon Hall (47:05) Glyn Price (49:49 a'r 1af dros 50 oed) Mark Rivers (50:13 a'r ail dros 40) Michael Davies (51:10 a'r 3ydd dros 40) a Calvin Williams (51:15 a'r 3ydd dros 50.) Gwnaeth dau o redwyr ifanc y Clwb yn arbennig hefyd - Aled Sion Jones (50:30) a Tomos Morgans (51:22.) Enillydd ras y menywod oedd Dee Jolly (51:22) a daeth cefnogaeth oddi wrth Eleri Rivers (60:16 a'r ail yn y dosbarth 35 i 40 oed) a Delyth Crimes (66:44 a'r ail yn y dosbarth 45 i 50 oed.) Yr oedd 23 o aelodau'r Clwb yn rhedeg yn y brif ras. Yr oedd yr achlysur yn cynnwys ras fer i rai dan 16 oed a ras fer i blant ysgol gynradd. Y bachgen cyntaf dan 16 oedd Rhys Williams (10:36) ychydig o flaen Dafydd Lloyd (10:52) gydag Owen Davies (14:44) yn dilyn a'r ferch gyntaf oedd Alaw Jones (12:15) ychydig o flaen Gwenllian Llwyd (14:10) rhain i gyd yn aelodau ifanc addawol o'r Clwb. Yn y ras i blant ysgol gynradd Harri Rivers (5:44) oedd yn fuddugol gyda Tudur Llwyd, Chri Readwin, Jac Rees, Steffan Rivers a Tomos Green yn ei gefnogi, ac yn ras y merched daeth Nia Williams (7:13) yn ail i Nia Lewis (6:26) o Glwb Aberystwyth.

Ar y 3ydd o Ragfyr cynhaliwyd Ras Elusen Aberystwyth, ras heol 10 cilometr dros gwrs gwastad a chyflym sy'n denu dros bum cant o redwyr o flwyddyn i flwyddyn. Cafwyd ymdrech orau dynion y Clwb gan Ken Caulkett wrth iddo ddod yn 6ed (ac yn 3ydd yn y dosbarth agored) mewn record bersonol am y pellter, sef 34 munud a 58 eiliad. Yn ras y menywod daeth Caryl Wyn Davies yn ail yn y dosbarth agored mewn 41 munud 18 eiliad, record bersonol. Llwyddodd Michael Davies (39:15 ac yn 4ydd dros 40) ac Aled Sion Jones (39:42 ac yn ail yn y dosbarth dan 20) i orffen dan 40 munud. Y tu ôl iddynt hwy cafodd Nigel Davies (41:11) George Eadon (41:13) Mitch Readwin (45:08) a Martin Darby (50:5.) ras dda hefyd. Yn ras y menywod yr oedd gan y Clwb ddau enillydd dosbarth - Dawn Kenwright (46:02 dros 60 oed) a Delyth Crimes (49:43 dros 50 oed) a chawsant gefnogaeth gan Donna Davies (74:22) a Rowena Greasley (81:01.)

Am yr ail flwyddyn cynhaliwyd ras 5 cilometr Glynhebog yn Llanbed (neu "Ras Santa") ac yr oedd 20 o aelodau'r Clwb yn rhedeg yn y ras elusen hon. Yr oedd Ken Caulkett ar ei ben ei hun yn ennill mewn 17 munud a 27 eiliad o flaen ei gyd-aelod Carwyn Davies (19:12). Tom Willoughby (21:19) oedd y cyflymaf dan 20 oed. Pob clod i Dafydd Lloyd (bedair blynedd yn ifancach) am orffen o fewn 4 eiliad i Tom, ac i Eric Rees, un o hoelion wyth y Clwb, am arwain y dosbarth dros 45 oed mewn 21 munud 31 eiliad. Y sêr ymhlith y menywod oedd Dee Jolly (yn 1af mewn 21:51) ac Eleri Rivers (yn gyntaf yn y dosbarth 35 i 40 mewn 22:39.)

Ym myd y pellteroedd eithafol gwnaeth Daniel Hooper yn lew i ddod yn 6ed yn ei ymgais gyntaf yn y math hyn o her mewn ras ym Mannau Brycheiniog gan orffen mewn 8 awr a 3 munud - diwrnod caled o waith.

Y mae ras Nos Galan Aberpennar yn un o'r achlysuron mwyaf adnabyddus yng nghalendr y byd rhedeg yng Nghymru a daeth Caryl Wyn Davies â blwyddyn o welliant cynyddol i ben trwy orffen y cwrs 5 cilometr hwn mewn 20 munud a 11 eiliad, record bersonol arall iddi hi.

O'r Cynghorau Bro



Cynghorau Cymuned Llanybydder a Rhydcymerau

Mae seddi gwag ar Gynghorau Cymuned Llanybydder a Rhydcymerau. Os oes unrhyw ddiddordeb gennych, ysgrifennwch at y Clerc, Mavis Beynon, Castle Green, Llambod SA48 7EF



Tîm pêl-rwyd Bro Pedr yn ennill pob gêm yng nghystadlwyaeth cylch yr Urdd. Llongyfarchiadau a phob lwc yn y Sir a diolch i Miss Davies am hyfforddi.

Ysgol Bro Pedr Campws Iau

Bu dros bedwar cant o ddisgyblion y campws cynradd ynghyd â chôr o'r sector hŷn yn cymryd rhan yn ein sioe Chwedltastig. Gan ei bod yn flwyddyn y chwedlau a'n bod yn ymrwymo fel ysgol i gefnogi'r Siarter Iaith lluniwyd y sioe ar dair chwedl enwog sef Cantre'r Gwaelod, Culhwch ac Olwen a Branwen. Pleser o'r mwyaf oedd gweld y disgyblion i gyd yn mwynhau perfformio ar lafar, ar gân a thrwy ddawns. Braf oedd clywed bod pawb wedi cael gwefr wrth wyllo'r sioe a llwyddwyd i ddod â'r chwedlau'n fyw i'r gynulleidfa. Mae'n diolch ni yn fawr i holl staff yr ysgol am eu gwaith diflino yn paratoi ac ymarfer ac yn arbennig i Sandra Davies, Eirian Jones am gyfeilio ac i Sally Saunders am ei hysbrydoliaeth. Diolch hefyd i Brifysgol y Drindod Dewi Sant am gael defnyddio'r cyfleusterau ac i'r holl rieni, llywodraethwyr a ffrindiau am eu cefnogaeth. Bydd DVD o'r sioe Chwedltastig a Scrumddidlymptious Roald Dahl ar werth cyn hir yn yr ysgol. Bu dau o'n dirprwy brif swyddogion sef Manon Williams a Twm Ebbsworth yn gwneud cyflwyniad hyfryd a byw i ddisgyblion yr ysgol am eu taith i Batagonia a diolch iddynt am roi o'u hamser prin - gwerthfawrogn hyn yn fawr. Cafwyd cyflwyniad gwyb, bywiog a llawn hiwmor o hanes taith yr iaith Gymraeg gan Gwmni Mewn Cymeriad a'r actor dawnus Llion Williams yn dod â'r stori'n fyw.

Bu pedwar disgybl o'r ysgol yn cystadlu yng ngala Nofio Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd - mae'n gamp eithriadol i gyrraedd y lefel yma ac fe wnaethant fwynhau'r profiad yn fawr gan wneud eu gorau glas. Bu Lowri Meles James Evans yn cystadlu'n unigol yn ogystal â bod yn aelod o'r tîm cyfnewid gyda Ellie Maie Jones, Arthur Williams a Harvey Walters yng ngala nofio Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd gan wneud argraff yn y rhagras - da iawn i chi gyd. Diolch o galon i'r rhieni am eu cefnogaeth ac yn arbennig i Eirlys mam Lowri am ei chymorth ar y dydd.

Cynhaliwyd cystadleuaeth Cogurdd Cynradd a bu 13 o ddisgyblion yn cystadlu. Diolch yn fawr iawn i Aled Dafis am feirniadu a da iawn i'r disgyblion i gyd am eu gwaith paratoi trylwyr. Llongyfarchiadau arbennig i'r canlynol sef :- Iaf Michael McDonagh 2il William Hoe 3ydd Lowri Meles James Evans 4ydd Sara Jones a Summer Howden. Da iawn ti Michael a phob dymuniad da yn y gystadleuaeth Sirol. Daeth llwyddiant ysgubol i dîm pêl-rwyd yr ysgol yng nghystadlwyaeth cylch yr Urdd. Ar ddiwedd bore o gystadlu brwd gyda'r tîm yn ennill pob gêm daethant yn ôl yn fuddugwyr. Llongyfarchiadau Rhun Davies, Regan Jones, Sara Jones, Ceris Jones, Lizzie Lomas, Robyn Moss, Elizabeth Foot a Lucy Davies a diolch yn fawr i Miss Nia Davies am hyfforddi. Pob lwc yn y Sir. Diolch i Mr Patterson a Miss Sarah am ddod i wneud gwasanaeth i ni am Dduw yn creu'r byd. Mae blynyddoedd 5 a 6 wedi bod yn derbyn cyflwyniadau diddorol gan griw y "Bible Explorers" a diolch iddynt am roi o'u hamser. Bu'r criw hefyd yn gwneud sioe bypedau i'r ysgol gyfan. Canodd côr yr ysgol yn nhe'r Ifanc o Galon ac yn noson siopa hwyr y dre a diolch i Heledd Besant am arwain a Sandra Davies am gyfeilio. Derbyniodd nifer o ddisgyblion yr ysgol dystysgrifau a medalau am gwblhau Cynllun darllen y llyfrgell a diolch i Delyth Hughes am ddod atom i gyflwyno'r gwobrau.



Lowri, Ellie-Maie, Arthur a Harvey Ysgol Bro Pedr yn gwneud argraff wrth iddynt gynrychioli'r ysgol yng ngala nofio Genedlaethol yr Urdd

Llanwnnen

Sefydliad y Merched

Nos Lun, 4 Rhagfyr drwy garedigrwydd John ac Avril Jones, gwahoddwyd y Gangen i gyfarfod yn eu cartref, Troed-y-Bryn, Llanwnnen a chafwyd croeso twymgalon ganddynt. Ar ddechrau'r noson cynhaliwyd cyfarfod busnes gyda Carol Thomas yn Llywyddu ac wrth drafod y materion amrywiol ar yr agenda bu'r aelodau yn yfed gwin poeth di-alcohol blasus iawn a oedd wedi'i baratoi gan Avril. Wedyn croesawodd y Llywydd Mrs. Delyth Jenkins, Pen-banc, Ffos-y-ffin a'i mam Mrs. Avarina Lewis, gynt o Dalgrwn, Llanwnnen yn gynnes iawn yn ôl i'r Gangen am noson, gan fod y ddwy yn gyn-aelodau. Adroddodd Delyth ei hanes yn ennill Cystadleuaeth Bara Brith Gorau'r Byd a soniodd am y troeon trwstan a ddigwyddodd iddi hi a'r dorth fuddugol cyn cael ei choroni'n bencampwraig. Dangosodd hefyd ei chasgliad diddorol o liain sychu llestri lliwgar o bob cwr o'r byd. I ddilyn gweiniwyd lluniaeth ysgafn a oedd wedi'i baratoi gan Avril a chafodd pawb gyfle i flasau bara brith buddugol Delyth. Tynnwyd y raffl a gynhaliwyd ar y noson a Doris Jones enillodd y mat diod Nadoligaidd a oedd wedi'i roi'n wobwr gan Carol. Beirniadodd Delyth y gystadleuaeth fisol ac enillydd y label i'w roi ar anrheg Nadolig oedd Carol Thomas, gyda Gwen Davies yn ail ac Irene Jackson yn drydydd. Cyn ymadael diolchodd Carol yn gynnes iawn i Delyth ac Avarina am eu cwmni, i Delyth am ein diddanu ac i John ac Avril am eu croeso a'u haelioni.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad ag Ann ac Alan Jones, Anedd Wen ar golli ewythr ar ddechrau'r flwyddyn.

Hefyd â Doris ac Andrew Jones, Cwmngwyn ar golli ei brawd ar ddiwedd y mis sef Dennis Jones, Llwynieir a chofiwn hefyd am Glenys a John Jones, Penpompren a theulu Neuadd Fawr yn eu profedigaeth ar golli chwaer yng nghyfraith a modryb sef Eirwen Thomas o Bontsian a fu farw ar ddiwedd y mis.

Wedi meddwl hysbysebu
yn eich papur bro?
Ceir prisau rhesymol
iawn
gan ddechrau gydag
hysbyseb bach yn

£12 yn unig,

a dim ond £72 am ddeg
ohonynt.

ysgrifennydd@clonc.co.uk

Gofynnir am
gyfraniad o

£5

yn unig er
mwyn rhoi
neges o ddiolch
ym Mhapur
Bro Clonc os
gwelwch yn dda.

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llanbedd
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221



Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Mwnici ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a Mared Jones
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llanbedd

☎ 01570 423135
☎ 07811917799 /
07968821035
✉ mwniciffwnci@hotmail.com

MIS y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Cewri ddod ... cewri fory?

Mae'n rhaid ichi osod y seiliau er mwyn deall o ble r'ych chi wedi dod – dyna oedd neges Simon Evans hanner ffordd trwy ei gyflwyniad cyfoethog am hanes plwy Llanwenog.

Arwain yr oedd o at ddisgrifiad o rai o'r bobol amlwg sydd wedi codi o'r ardal ac amryw o'r rheiny'n enwog ar draws y byd – o'r ddau frawd gwyddonol Desin a Dafydd Williams, i'r tenor o Gwrtnewydd, Edgar Evans, a'r pensaer Frank Lloyd Wright.

Roedd y mapiau ganddo i ddangos bod Blaenralltddu, lle'r oedd Anna Lloyd Jones, mam yr athrylith wedi ei geni, ychydig fodfeddi ar ochr iawn ffin y plwy' ac roedd y cyflwyniad o waith Frank Lloyd Wright yn un o'r rhannau cofiadwy o gyflwyniad sy'n llawn gwybodaeth a lliw a diddordeb.

Doedd Simon Evans ddim wedi anghofio chwaith am rai fel y bardd Cledlyn a'r ysgolhaig Gwenogvryn Evans, ac enwau'r ddau yn dangos yn glir ble'r oedd eu gwreiddiau. Un wedi ennill y Gadair Genedlaethol ddwywaith, y llall yn un o'r rhai cynta' i roi trefn ar lyfrau mawr y Cymry, sy'n cynnwys cerddi a hanes cynnar a straeon y Mabinogion.

Ond be oedd y tu cefn iddyn nhw? Dyna oedd testun hanner cynta'r sgwrs yn Ysgol Dyffryn Cledlyn ac roedd hi'n drawiadol i weld sut yr oedd symudiadau mawr hanes wedi effeithio ar y plwy' bach sy'n golchi ei draed yn afon Teifi.

Mae olion y cyfan yma, o fryngaerau (OK, mae cwpwl o'r rheiny ychydig lathenni yr ochr anghywir i ffin y plwy') i un o geirydd dros dro y milwyr Rhufeinig ... ymlaen wedyn i gyfnod pan oedd Rhuddlan Teifi'n un o ganolfannau penaethiaid llwythi Dyfed ac eglwys Llanwenog yn un o'r sefydliadau Cristnogol cynnar ... a chyffwrdd yn stori'r dynion cyffredin oedd wedi gadael yr ardal i ymladd mewn rhyfeloedd ar hyd yr oesau.

Erbyn rhyw 300 mlynedd yn ôl, teuluoedd cyfoethog oedd yn rheoli'r ardal a mapiau a graffeg crefftus Simon Evans unwaith eto'n dangos yn glir be oedd y cysylltiadau rhyngddyn nhw a'r gafael oedd ganddyn nhw ar dir a deiliaid y cylch.

Sawl Desin a Chledlyn coll

Trwy'r cyfnod yna, mae'n rhaid bod sawl Desin a Chledlyn coll, pobol alluog na chawson nhw erioed y cyfle i ddisgleirio ond oedd wedi eu clymu wrth y gwaith o grafu bywoliaeth o dir cyndyn ac ar drugaredd meistri anwadal.

Yn Saesneg yr oedd sgwrs Simon Evans ac mi ddylai pawb sy'n symud i'r ardal yma i fyw gael eu hannog i fynd i weld cyflwyniad o'r fath er mwyn iddyn nhw ddechrau deall sut y daethon ni yma, ac i ble y daethon nhwthau. Mi fyddai cyflwyniad Cymraeg yn gallu mynd rhywfaint yn nes at y miloedd o bobol ddienw, ddiwyneb sydd wedi byw yn y plwyfi yma dros y canrifoedd – mae cysgodion eu straeon i'w cael mewn penillion, dywediadau a straeon llên gwerin.

Roedd yna falchder yn llais Simon Evans wrth iddo ddisgrifio sut yr oedd rhai, o dro i dro, wedi cydio yn eu dyfodol eu hunain a gweithredu ... gwraig a fentrodd yr holl ffordd at y Mormoniaid yn Salt Lake City a cholli ei gŵr a thri o'i phedwar plentyn ar y ffordd ... ymneilltuwyr cynnar oedd wedi sefyll yn erbyn Eglwys ac Awdurdod ... a'r arweinwyr a greodd Smotyn Du'r Undodiaid, a Llanwenog yn ei ganol.

Wrth edrych o bellter amser, mae'n hawdd tybio mai ar drugaredd digwyddiadau a phobol rymus yr oedd y werin, gan gynnwys cyni mawr yr 1840au a ddechreuodd ar gyfnod hir o ddiblogi. At ei gilydd, ymateb i ddatblygiadau technegol y mae ffermwyr a pŵer economaidd rhannau eraill o wledydd Prydain sy'n tynnu pobol ifanc oddi yma ac yn gyrru pobol eraill i mewn. Mae Simon Evans yn iawn; mae'n rhaid i ni ddeall patrymau'r gorffennol er mwyn gweld ein lle ni ym mhatrwm heddiw. Y gamp wedyn – fel y gwnaeth unigolion a grwpiau yn ei stori ef – yw gweld sut i ddylanwadu a llunio dyfodol gwahanol.

Ein dyletswydd ni ydi gwneud yn siŵr nad ni ydi'r bennod ola'.

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543823

Caerwenog,
Penffordd,
Llanbydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

**WILLIAMS
& BOURNE**

CYFREITHWYR,
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
**1 Sgwâr Harford,
Llanbedd**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbedd**

Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yp - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau

Gwasanaethau Coed Llanbedd



Gwêl-y-Coed, Cwmann
Llanbedd, SA48 8EL
01570 422819

www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.



Masnachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stones
Pumsaint, Llanwnda
Tel: 01558 650215



**COMPASS
OFFICE
SUPPLIES**

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llanbedd, Heol Tregaron,
Llanbedd.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

CANOLFAN ADDURNO

**AA
A**

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrin, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cynysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cwmsychpant



Cwrdd Bore Nadolig

Yn ôl ein harfer gwelwyd Capel y Cwm yn llawn gogyfer â'r Cwrdd ar Fore Dydd Nadolig. Cymerwyd at y rhannu arweiniol gan Ieuenctid y Capel ac fe fu'r Parch Wyn Thomas yn holi'r plant am eu hanrhegion ac yn rhannu'r cymun. Diolch i bawb a drodd allan i ddathlu ar fore Nadolig. Wrth yr organ oedd Einir Ryder, Tyngrug Ganol.

Priodas

Daeth y newyddion wythnos cyn y 'Dolig am briodas Wyn Thomas, gweinidog Capel y Cwm a Mathew Walters yng Nghaerfyrddin. Pob dymuniad da i chwi eich dau a iechyd da.

Merch fach

Ddeuddydd cyn y Nadolig ganwyd merch fach i Siân a Bryn Williams, Tawel, Magi Mei, chwaer fach i Wil Ifan. Wyres fach newydd i Paul a Bessie Williams, Clyncoch a gorwyres arall i Jean Evans, Llwyn-y-gôg, Gorsgoch.

Siarad Cyhoeddus y CFFI

Mae siaradwyr o fri yn ein pentref bach ni!!! Llongyfarchiadau MAWR i bawb boed yn aelod o Glwb Pontsian neu Llanwenog ar eu llwyddiant yn y cystadlaethau Siarad Cyhoeddus Saesneg a Chymraeg. Pob lwc i'r rhai hynny fydd yn mynd ymlaen ar lefel Cymru ym mis Mawrth.

Dathlu Gŵyl Dewi

Bydd croeso i chwi ymuno gyda phlant Ysgol Sul Capel y Cwm i ddathlu Gŵyl Dewi mewn oedfa ar ddydd Sul, Chwefror 25ain am 11:15 o'r gloch ac yna i'r Festri am Gawl a Phice ar y Maen i ddathlu ein Nawddsant.

Symud aelwyd

Pob dymuniad da i Lilwen Davies, Brynawel yn ei chartref newydd yn Llambled. Symudodd Huw Davies mewn i Brynawel o Lysmeddyg gan i berchnogion newydd symud mewn i Lysmeddyg.

Gobeithio y bydd pawb yn ddedwydd ac yn hapus yn eu cartrefi newydd.

Ysgol Sul



Rhai o blant yr Ysgol Sul gyda'u hanrhegion oddi wrth Sion Corn cyn y Nadolig.

Colofn y C.Ff.I.



C.Ff.I. Ceredigion

Cynhaliwyd cystadleuaeth Chwaraeon Dan Do y Sir yn Llanddewi Brefi nôl ym mis Tachwedd ond roedd yn rhaid aros yn amyneddgar am ganlyniadau'r noson tan Bwyllgor Gwaith y Sir ym mis Ionawr. Llongyfarchiadau i Glwb Llanwenog am ddod i'r brig.

Parti Blynnyddol Staff a Swyddogion y Sir - Aeth Staff a Swyddogion y Sir am barti Nadolig ar y 23ain o Ragfyr, lle gwelwyd amrywiaeth o wisgoedd ffansi ar y thema cân neu ffilm Nadoligaidd. Diolch yn fawr i Anne a Tomos yn y swyddfa am drefnu'r diwrnod gyda phawb wedi mwynhau mas draw.

Cynhaliwyd Dawns y Frenhines a'r Ffermwr Ifanc yn Pier Pressure, Aberystwyth ar yr 28ain o Ragfyr gyda nifer o drigolion wedi mynychu'r ddawns.

Cynhaliwyd Cwis y Sir ar yr 8fed o Ionawr yng Ngholeg Llambled. Cafwyd noson llawn hwyl o dan arweiniad Llywydd y Sir, Euros Davies, gyda nifer o gwestiynau hwylus ar bynciau amrywiol. Llongyfarchiadau i Glwb Llangeitho am ennill yr adran gyffredinol ac i Glwb Llangwryfon am ennill yr adran amaeth. Enillwyd y Cwis Diogelwch ar y Ffyrdd gan Felinfach C a Chaerwedros. Ar ddiwedd y tri Chwis, tîm Felinfach C ddaeth i'r brig.

Bydd yna wledd o gystadlu gyda'r Pantomeim yn Theatr Felinfach yn ystod wythnos hanner tymor o nos Lun y 19eg i nos Wener y 23ain o Chwefror. Bydd tocynnau ar werth ar y 7fed o Chwefror yn uniongyrchol o'r Theatr.

Bydd cyngerdd ar y nos Lun ganlynol gyda'r tri chlwb buddugol yn perfformio unwaith eto. Diolch i'r Theatr am eu cydweithrediad bob amser. Cafwyd noson werthfawr 'Tec a Sbec' i baratoi at gystadleuaeth y Pantomeim gyda chyfarwyddwyr ac aelodau'r clybiau yn cael cyngor cyfarwyddo a chyfle i weld gwisgoedd a phropiau'r Theatr.

Clwb 200 mis Tachwedd - 1. Einir Ryder, Tyngrug Ganol, Cwmsychbant. 2. Emyr a Caryl Haf Jones, Caeronnen, Llanddewi Brefi. 3. Dennis Davies, Penlon Esgair, Pontsian.

Clwb 200 mis Rhagfyr - 1. Emyr Davies, Awel-y-Bryn, Tregaron. 2. C.Ff.I. Dihewyd. 3. J. Mansel Jones, Garreglwyd, Rhydlewis.

Mis Ionawr - 1. Lloyd Jones, Ystrad Llanio, Llanddewi Brefi. 2. Emyr ac Ada Evans, Rhosgoch, Llanilar. 3. Dan ofal Lloyds Bank.

Roedd hi'n bryd troi am gampws theatr Felinfach am y tro olaf eleni i gystadlu yn y Siarad Cyhoeddus Saesneg. Bu'n ddiwrnod llwyddiannus tu hwnt, gyda'r beirniaid yn canmol y safon uchel.

Dyma'r canlyniadau:

Darllen Dan 14: Cadeirydd: 1af Beca Jenkins, Pontsian; Darllenydd: 1af Beca Jenkins, Pontsian; Tîm – 1af Lledrod

Dan 16 - Cadeirydd: 1af Gwion Ifan, Pontsian; Siaradwr: 1af Hedd Dafydd, Llangeitho; Diolchydd: 1af Ben Lewis, Llanwenog A; Tîm: 1af Llangeitho.

Dan 21- Cadeirydd: 1af Nest Jenkins, Lledrod; Siaradwr: 1af Meleri Morgan, Llangeitho; Tîm: 1af Lledrod.

Dan 26 - Cadeirydd: 1af Luned Mair, Llanwenog; Siaradwr: 1af Cennydd Jones, Pontsian B; Tîm: 1af Pontsian B.

Canlyniad Terfynol: 3ydd: Llangeitho; Cydradd 1af: Llanwenog a Pontsian
Cynhaliwyd cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg y Sir ar ddydd Sul, Ionawr 21ain. Dyma'r canlyniadau hynny.

Darllen dan 14 - Cadeirydd Gorau: Sioned Fflur Davies, Llanwenog A; Darllenydd Gorau: Sioned Fflur Davies, Llanwenog A; Tîm Gorau: Llanwenog A.

Dan 16 - Cadeirydd Gorau: Beca Williams, Talybont; Siaradwr Gorau: Siwan George, Lledrod; Diolchydd Gorau: Beca Jenkins, Pontsian; Tîm Gorau: Caerwedros A.

Dan 21 - Cadeirydd Gorau: Mared Davies, Felinfach; Siaradwr Gorau: Nest Jenkins, Lledrod; Tîm Gorau: Lledrod.

Dan 26 - Cadeirydd Gorau: Nest Jenkins, Lledrod; Siaradwr Gorau: Elen Jones, Llangeitho; Tîm Gorau: Pontsian.

Clwb Buddugol – Tarian
Brynhogfaen: Lledrod

Ail Fuddugol – Cwpan Coffa Eric
Davies, Prengwyn: Pontsian

Dyddiadau i'r dyddiadur

18/2/18 Cyfweiliadau Aelod Hŷn ac Iau

19 – 23/2/18 Wythnos Adloniant y Sir – Pantomeim

26/2/18 Cyngerdd Pantomeim



Beca Jenkins, Pontsian yn ennill Cwpan Ken Griffiths, Penparc am y Diolchydd Gorau o dan 16 oed yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg.

Drefach a Llanwenog

Y Gymdeithas Hŷn

Daeth nifer dda o'r aelodau i Neuadd y Pentref, Drefach ar gyfer cyfarfod mis Ionawr. Croesawyd pawb gan Dilwen George, y Cadeirydd, cyn mynd ymlaen i gydymdeimlo â'r rhai oedd wedi colli anwyliad yn ddiweddar, a dymunwyd adferiad iechyd buan i rai eraill.

Siaradwraig wadd y prynhawn oedd Mrs Elin Williams o Gwmann, a threuliwyd orig hyfryd yn ei chwmni. Sôn wnaeth Elin am sut yr oedd yn colli pethau, ac yna'n ceisio cofio beth yr oedd yn ei wneud pan gollwyd hwy! Mae'n siŵr bod nifer o'r gwrandawyr yn medru uniaethu â hynny! Darllenodd rai penillion roedd wedi eu cyfansoddi i gofnodi rhai o'r troeon trwstan yma - roedd hanes yr allwedd yn ber! Roedd awr yng nghwmni Elin yn well nag unrhyw foddion i'n cynnal ni dros y gaeaf! Diolchwyd yn gynnes iddi gan Dilwen George, a hi hefyd wnaeth ddiolch am y te a'r lluniaeth a ddilynodd.

Bydd y cyfarfod nesaf Ddydd Mercher, Chwefror 14eg am 1.30 ym ym Ffestri Capel-y-Cwm, pan fydd Pamela ac Emlyn Davies, Cwrtnewydd yn dangos eu gwaith crefftus.

Gair o ddiolch

Dymuna Eifion ac Yvonne, (Afallon) ddiolch o waelod calon i bawb a anfonodd gyfarchion iddynt adeg eu Priodas Aur ddiwedd y flwyddyn. Diolch arbennig am y te prynhawn yng Nghegin Gareth, a'r cyfraniadau ddaeth i law. Anfonwyd yr holl arian tuag at Ymgyrch Rhian i godi arian i Ysbyty Felindre yng Nghaerdydd.

Diolch hefyd i ferched Côr Lleisiau'r Werin am gefnogi'r fenter yma drwy'r cyfraniadau a ddaeth i law yn y Noson Garolau yn Eglwys Sant Pedr, Llanybydder, ac anfonwyd y swm teilwng o £520 i'r gronfa. Diolch i bawb am eu caredigrwydd.

Eglwys Santes Gwenog

Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda a dedwydd i bawb, yn enwedig i'r aelodau sy'n methu ymuno â ni oherwydd anhwylder. Gobeithio y daw 2018 ag adferiad iechyd buan i chwi oll.

Diolch i'r ieuencid canlynol, sef Osian, Ben, Sam ac Elen am eu parodrwydd i ddarllen yn y gwasanaeth Naw Llith a Charol a gynhaliwyd cyn y Nadolig.

Ddechrau Ionawr aeth aelodau Eglwysi Llanwenog, Llanwnnen a Llanybydder i ganu carolau'r Plygain yn Eglwys Llanllwni. Cafwyd prynhawn pleserus iawn dan arweinyddiaeth ein Ficer, Y Parch. Suzy Bale. Diolch i aelodau Llanllwni am eu paratodau trylwyr, y gosodiadau Nadoligaidd hyfryd, a the arbennig i gwblhau'r prynhawn bendithiol a hapus.

Mae Tymor y Grawys yn weddol gynnar eleni; Dydd Mercher y Lludw ar Chwefror 14eg, a Sul y Pasg ar Ebrill 1af.

Dymuniadau gorau i Mrs Mair Davies, Eleri a Hywel sydd wedi ymgartrefu yn Llanwenog, wedi cyfnod hir o fyw yn Highmead Cottages, Rhuddlan. Ein dymuniadau gorau hefyd i Mrs Nia Evans, Tomos, Jac ac Alaw sydd yn symud o Drefach i fyw yn Llanybydder.

Canlyniadau'r Clwb Cant yn rhifyn nesaf Clonc

Sefydliad y Merched

Nôl ym mis Tachwedd, cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol. Etholwyd Christine Rogers yn Llywydd am yr ail flwyddyn ac ailetholwyd aelodau eraill y pwyllgor. Diolchwyd iddynt am eu gwaith diflino ac roedd pawb yn dymuno'n dda iddynt am y flwyddyn i ddod. Diolch yn fawr i Gay Evans, a ddaeth o Swyddfa'r Sir i gadw llygad ar y gweithgareddau a sicrhau bod y cyfarfod yn drefnus.

Ym mis Rhagfyr, bu'r aelodau'n trafod a phleidleisio ar y Penderfyniadau (Resolutions) a fydd yn cael eu trafod yn y Cyfarfod Blynnyddol yn Llundain. Hefyd ym mis Rhagfyr bu'r aelodau'n mwynhau cinio blasus iawn yng Ngwesty'r Dolau Cothi ym Mhumpsaint. Cafwyd noson hwylus iawn a phawb yn mwynhau'r cymdeithasu.

Cynhaliwyd cwis yng nghyfarfod cynta'r flwyddyn eleni, gyda Rick Roberts – gŵr Carol, un o'n haelodau, yn holi'r cwestiynau. Roedd sawl tîm yn cystadlu a chafwyd llawer o hwyl a chwerthin.

Y mis nesaf mae Sarah Wentworth yn dod i arwain noson o Enameleiddio. Mae'n siŵr y bydd sawl peth tlws i'w harddangos ar y diwedd.

Da clywed fod un o'n haelodau, sef Donna Joseph adre ar ôl cael llawdriniaeth ddifrifol yn ddiweddar. Pob dymuniad da iddi am wellhad llwyr a buan.

Priodas

Yn ystod mis Rhagfyr priodwyd Ffion Dafis, Awelon, yng Nghapel Ciliau Aeron a James Clode o Gaerdydd. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chwi eich dau.

Pen-blwydd arbennig

Dathlodd Dafydd Davies, Ger y Nant, ben-blwydd arbennig yn ystod diwedd y flwyddyn. Gobeithio Dafydd i ti fwynhau'r dathlu.

Hefyd roedd Gillian Lewis, Gwarcoed Einon gynt, wedi dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed yn ystod yr un mis.

Gwellhad Buan

Gobeithio fod Peter Howells, Tycam, yn gwella ar ôl iddo dreulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Priodas Aur a Halen y Ddaear



Ar ddiwedd 2017 dathlodd Eifion ac Yvonne Davies, Afallon, eu Priodas Aur. Llongyfarchiadau mawr a dymuniadau gorau i chwi.

Hefyd llongyfarchiadau i'r ddau ar dderbyn Plat Halen y Ddaear gan S4C am yr holl waith mae'r ddau yn ei wneud i Clonc nawr ac ar hyd y 36 mlynedd diwethaf. Mae cyfraniad y ddau yn amhrisiadwy – diolch i chi.

C.Ff.I. Llanwenog

Y gystadleuaeth siarad cyhoeddus Saesneg oedd ar galendr y clwb nesaf. Braf oedd gweld aelodau o bob oedran yn llwyddo yn y gystadleuaeth. Dyma restr o'r canlyniadau. Dan 14: Cadeirydd - Lleucu Rees a Sioned Davies cydradd 3ydd. Darlennydd- Sioned Davies cydradd 2il. Llanwenog A-2il fel tîm sef Sioned Davies, Ffion Davies a Carys Evans. Dan 16: Siaradwr- Elin Davies, 2il. Diolchydd – Ben Lewis, 1af. Llanwenog A - cydradd 2il fel tîm sef Elin Davies, Nia Morgans a Hafwen Davies. Dan 21: Cadeirydd- Meleri Davies, 2il. Llanwenog yn 3ydd fel tîm sef Meleri Davies, Twm Ebbsworth, Lauren Jones a Rhys Davies. Dan 26: Cadeirydd- Luned Mair 1af. Ar ddiwedd y dydd fe ddaeth Llanwenog yn gydradd gyntaf gyda Phontsian.

Fe wnaeth aelodau'r clwb fwynhau noson o gystadlaethau a chymdeithasu yn noson chwaraeon dan do'r sir yn Llanddewi Brefi yn ddiweddar ac fe ddaeth y clwb i'r brig ar ddiwedd y noson.

Daeth llwyddiant hefyd i un o'n haelodau sef Owain Jones pan ddaeth yn 1af yn y gystadleuaeth barnu ŵyn yn y Ffair Aeaf. Da iawn ti.

Cafwyd sawl noson ddiddorol i orffen 2017 fel gwers Iwcalili gydag Enfys ac ymweliad â milfeddygon Caerfyrddin.

Amser oedd hi nawr i ymlacio a dathlu'r Nadolig. Fe fuodd y clwb yn canu carolau o amgylch yr ardal a chodwyd swm ardderchog o £1218.51 mewn un noson, gyda hanner yr arian yn mynd at 'sign Language Uk'. Diolch am bob cefnogaeth. Daeth aelodau a ffrindiau'r clwb ynghyd i gael cystadleuaeth ddartiau yng Nghefn Hafod er mwyn ceisio ennill twrci ar gyfer dydd Nadolig.

Ar ôl i bawb ymlacio dros yr ŵyl, roedd hi'n amser i droi'n ôl at y siarad cyhoeddus, ond yn y Gymraeg y tro hyn. Cafodd aelodau o'r clwb llwyddiant unwaith eto. Dyma ganlyniadau'r diwrnod:

Dan 14: Cadeirydd- Sioned Davies 1af, Darlennydd Ffion Davies 3ydd a Sioned Davies 1af. Tîm Llanwenog A yn 1af sef Sioned, Ffion a Hafwen a Llanwenog B yn ail sef Lleucu Rees, Lois a Luned Jones. Dan 16: Cadeirydd - Hanna Davies, 2il Dan 21: Cadeirydd - Meinir Davies 2il. Dan 26: Cadeirydd- Cydradd 3ydd Sioned Davies, 1af. Llanwenog B yn 3ydd. Fe ddaeth Llanwenog yn 3ydd ar ddiwedd y dydd.

Rydym ar hyn o bryd yn ymarfer ar gyfer cystadleuaeth y Panto a fydd yn cael ei chynnal rhwng 19/2/2018 a 23/2/2018. Dewch i gefnogi!!

Drefach a Llanwenog

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r clwb neu am ragor o wybodaeth ewch i'r wefan: www.cffillanwenog.org.uk

Ysgol Dyffryn Cledlyn

Dymunwyd blwyddyn newydd dda a chroeso'n ôl i bawb i'r ysgol yn dilyn tymor cyntaf prysur a llwyddiannus dros ben. Cafwyd llawer o hwyl ar ddiwedd y tymor wrth i ni fwynhau trip i'r sinema, parti Nadolig, ymweliad gan Siôn Corn, cyngerdd gan holl blant yr ysgol a gwelwyd y Neuadd yn llawn, a chinio Nadolig blasus cyntaf yr ysgol gan Miss Jo a Miss Shan. Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion yr ysgol ar eu noson Mentergarwch lewyrchus dros ben – codwyd dros fil o bunnoedd, anhygoel!

Croesawyd plant bach newydd i'r dosbarth Meithrin sef Bela, Lisa, Harvey, Hari-Jac a Seren. Maent wedi ymgartrefu'n dda yn y dosbarth ac yn mwynhau gwneud llawer o ffrindiau bach newydd. Pleser hefyd oedd croesawu Miss Bethan John i dîm addysgu'r ysgol. Bydd Miss John yn addysgu'r dosbarth Meithrin ar foreau Gwener tra bod Miss Deloni Davies yn addysgu blynyddoedd 1 a 2.

Thema'r tymor hwn yw ailgylchu ac edrychwn ymlaen at groesawu'r tîm Ysgolion Creadigol atom wrth i'r ysgol gyfan gychwyn ar brosiect aml-gyfrwng cyffrous iawn ar y thema.

Buodd PC Hannah yn ymweld â phlant blynyddoedd 5 a 6 yn ddiweddar er mwyn trafod ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ychwanegol i hyn cafodd blwyddyn 6 y cyfle i ddyysgu am gamddefnyddio cyffuriau a'u peryglon.



Diolch unwaith eto i Lleucu sydd yn parhau i ymweld â'r ysgol yn wythnosol i addysgu sgiliau pêl a chwaraeon i flynyddoedd 1 a 2. Mae hefyd yn cymryd grwpiau o Gyfnod Allweddol 2 y tymor hwn ar y cyd gyda Dyfrig Dafis. Mae'r plant wrth eu boddau a'u sgiliau yn amlwg wedi gwella.

Mae'r clwb Urdd ar nos Fawrth wedi ailgychwyn ar ôl toriad bach dros wyliau'r Nadolig. Braf yw gweld y niferoedd yn codi a'r plant yn mwynhau.

Newyddion cyffrous hefyd yn dilyn dymuniad plant blynyddoedd 3 i 6 yw'r gwersi ukulele gan Mr Ebbsworth ar brynawn Iau. Roedd talentau llinynnol Mr Ebbsworth ar ei ukulele wedi arwain at nifer o blant yn derbyn yr offeryn fel anrheg Nadolig. Edrychwn ymlaen at ensemble ukulele yn y dyfodol agos efallai?!

Bu'r Cyngor Ysgol hefyd yn ffodus i godi digon o arian drwy'r siop ffrwythau i brynu offer gwyddbwyll newydd i'r ysgol. Gobeithiwn ddechrau clwb gwyddbwyll o dan arweiniad Meredydd o flwyddyn 6 yn fuan iawn.




Cynrychiolodd grŵp o blant cymysg blynyddoedd 5 a 6 yr ysgol mewn gêm bêl-rwyd yn erbyn ysgolion cylch Llanbed yn ystod ein hail wythnos yn ôl. Chwaraeodd pob un ohonynt yn arbennig o dda.

Llongyfarchiadau gwresog hefyd i Elan Jenkins o flwyddyn 6 ar ei llwyddiant yng nghystadleuaeth Cogurdd yr ysgol. Diolch i Gill Jones am feirniadu'r 16 o ddisgyblion ac i bawb am eu hymdrechion wrth baratoi ar



gyfer y gystadleuaeth. Bydd Elan yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth Cogurdd Sir Ceredigion yn Ysgol Bro Teifi.

Gwelir llun o Elan ar dudalen 28.



Gwesty'r
Grannell
Hotel
Bar & Restaurant

Llanwnnen, Llambed
Ffôn: 01570 480476

Bwyd
Diod
Ystafell i gynnal digwyddiad
Ystafelloedd gwely

Cofrestrwch
ar ein
gwefan
gymunedol

www.clonc360.cymru

er mwyn
cyfrannu
eich stori chi.

Cwrtnewydd

Croeso

Dymunwn estyn croeso cynnes i Rhian a Tom i rif 2 Yr Hen Ysgol. Mae'r ddau wedi symud yn ystod mis Ionawr – gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

Yn yr ysbyty

Gobeithio fod Wyn Evans, Parc yn teimlo'n well yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty.

Pen-blwydd arbennig

Yn ystod mis Ionawr dathlodd Anne Thomas, Milford ben-blwydd arbennig. Gobeithio eich bod wedi cael dathliad i'w gofio.

Pen-blwydd hapus

Dymuna aelodau Capel Seion ddymuno pen-blwydd hapus iawn i'w aelod hynaf sef Walter Harries, [Clarence gynt] ond sydd bellach wedi ymgartrefu yng Nghartref Maes y Felin, Drefach a fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 93 oed ddechrau mis Chwefror.

PJ PHILIP JONES
FINANCIAL SOLUTIONS
Agricultural, Construction and Business Finance

Cyllid Amaethyddol, Adeiladu & Busnes • Offer Amaethyddol ac Adeiladu • Ceir a Cherbydau Masnachol • Cyfleusterau Amddiffiniad Offer Newydd a Ddefnyddir

Rheolwr Ardal: Bedwyr Davies
07757 668339 / 01544 340562
bedwyr@pjfinancialsolutions.co.uk
www.pjfinancialsolutions.co.uk

Authorised and regulated by the
Financial Conduct Authority No FRN 690293

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
 - Symud celfi
 - Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
 - Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder
SA40 9RL



Neuadd Mileniwm Cellan a Neuadd yr Hafod Gorsgoch yw'r llefydd am ffilmiau yn ardal Papur Bro Clonc a dyma Gary Slaymaker i sôn am y ffilmiau a ddangosir yng Nghellan yn ystod y mis:

Chwefror 2il - The Other Side of Hope - Ffilm o'r Ffindir yw hon gan y cyfarwyddwr chwedlonol, Aki Kaurismäki (os gewch chi gyfle i weld ei ffilm gynta, Leningrad Cowboys Go America, mae wir werth yr ymdrech). Mae'n adrodd hanes gŵr busnes sy'n prynu bwyty bach llwm yn Helsinki, a'i berthynas gyda ffoadur o Syria, sydd wedi cael ei alltudio o'i wlad, ac sy'n ei chael hi'n anodd iawn i dderbyn unrhyw gysur na chymorth gan lywodraeth fiwrocratiadd y Ffindir. Er bod hi'n swno'n ffilm drom, yn y bôn, mae'n gomedi bach ysgafn a phersonol sy'n canolbwyntio ar y syniade o gysylltiad, brwydyr dynol (ar raddfa personol iawn), ac empathi. Mae na elfen o ddychan yn perthyn i waith Kaurismäki fan hyn, ac er bod e'n beirniadu ei wlad yn hallt am ei hagwedd negyddol tuag at ffoaduriaid, mae e'n fwy parod i chwilio am y pethe positif yn y stori; sy'n gwneud hon yn ffilm lawer mwy difyr na'r disgwyl.

Chwefror 19eg - The Viceroy's House - Ym 1947, mae India yn barod i dderbyn ei hannibyniaeth, a'r Arglwydd Mountbatten a'i wraig (Hugh Bonneville a Gillian Anderson) sydd wedi cael y swydd o drial gwneud y broses mor esmwyth â phosib. Felly ma na ofyn iddyn nhw roi eu syniadau ymerodraethol i'r naill ochr, a thrial derbyn bod bobol India bellach yn gydradd â thrigolion Prydain. Downtown Abbey dramor yw hon yn y bôn. Bonneville yw'r cysylltiad agosa da'r gyfres, yn amlwg, ond mae hefyd yn rhyw fath o emyn o fawl i oes a fu. Ma'r sgript yn lled ysgafn am stori mor fawr, ond falle bod hwna'n helpu hefyd – os ydych chi'n gweld hon fel opera sebon gyda gags, mae'n gweitho'n dipyn gwell na drama hanesyddol. Yr un peth sydd yn ddiddorol fan hyn yw'r portread o Winston Churchill. Mewn cyfnod sydd wedi gweld sawl ffilm yn canmol y cyn-brif weinidog, o leia ma'r Viceroy's House yn ddigon dewr i bwyntio bys a gweud mai fe odd un o'r prif ddihirod ynghlwm â hanes India. Digon joli, ond peidwch disgwyl gwers hanes o swmp a sylwedd.

Mawrth 2il - The Zookeeper's Wife - Stori wir am bâr priod oedd yn rhedeg sŵ yng ngwlad Pwyl, adeg yr ail ryfel byd, wnaeth troi selar eu tŷ, ynghanol y sŵ, yn hafan ar gyfer Iddewon oedd yn trial dianc rhag y Nazis, adeg yr ail ryfel byd. Jessica Chastain a Johan Heldenbergh yw'r pâr priod, a Daniel Bruhl (odd yn wych fel Nikki Lauda yn y ffilm, Rush), sy'n chwarae'r Nazi sy'n dangos tipyn o ddiddordeb yn y sŵ...ac yn enwedig Chastain – ac mae'r tri yn cynnig perfformiade cynnil a chraff drwy gydol y ffilm. Na drueni na fydde'r sgriptio a'r cyfarwyddo o'r un safon uchel, achos mae'r stori'n ymlwybro i gyfeiriadau digon di-nod ar adegau, ac mae'r hanner awr ola yn euog o fod yn or-sentimental. Ond ar y cyfan, mae'n stori ddiddorol iawn, sy'n ychwanegiad cryf arall i'r rhester o ffilmiau sydd wedi nodi twf y Nazis ac effaith yr holocaust.

Mae drysau Neuadd Mileniwm Cellan yn agor am 7.15yh a'r ffilm yn dechrau am 7.45yh. Mynediad drwy rodd.

Dangosir ffilm yn Neuadd yr Hafod Gorsgoch ar nos Iau diwethaf y mis am 7.30yh. Mynediad am ddim.

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwygo cyflawn ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weinï gysurus Clwb Rygbi Llambled yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 2.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.



Peiriant
Rhostio
Mochyn
ar gael

Yn y Gegin gyda Gareth



Hyfryd bod 'nôl yng Nghegin Clonc, yn barod am flwyddyn o ryseitiai blasus unwaith eto!

Y mis yma rwyf am ganolbwyntio ar ryseitiai Cymreig, gan ddefnyddio cynhwysion a chynnyrch o Gymru.

Mae'r ryseitiai'n addas i'w gweini adeg Dydd Gŵyl Dewi; maent yn gynhwysfawr, yn flasus a chyda blas o Gymru – ac wrth gwrs yn defnyddio'r genhinen, ein hemblem genedlaethol.

Mwynhewch y dathliadau,

Hwyl,
Gareth

Cacennau Tatws, Caws a Chennin

Cynhwysion

2 bwys o datws wedi eu coginio, a'u stwnsho â menyn

1 wy

3 cenhinen wedi'u darnio

125 g blawd plaen

150 g caws Caerffili wedi gratio

225 g bacwn wedi ei dorri'n fân 1 owns menyn Cymreig

Dull

1. I'r tatws, ychwanegwch yr wy a'r blawd.
2. Toddwch y menyn, a ffrwch y cennin a'r bacwn am tua 10 munud, ac yna ei oeri.
3. Rhannwch y toes tatws yn 8, gan ffurfio pelenni, a gwnewch dwll yn y canol.
4. Ychwanegwch y caws i'r cennin; rhewch ychydig o'r gymysgedd ynghanol pob pelen, eu selio a'u gwasgu'n ysgafn fel eu bod yn wastad. Sgeintiwh â blawd.
5. Ffrwch yr 8 bicen mewn padell ffrïo ag ychydig fenyn. 5 – 8 munud bob ochr.
Hyfryd wedi eu gweini ag wy a selsig.

Pwdin Pice ar y Maen

Cynhwysion

50 g menyn Cymreig

50 g lard

225 g blawd codi

75 g siwgr mân

75 g cwrens

1 wy

½ llwy de sbeis cymysg

1 llwy de mêl Cymreig

Llenwad afal: - 25 g menyn Cymreig

2 afal cwca wedi eu plicio a'u darnio

2 llwy fwrdd mêl Cymreig

pinsied o sbeis cymysg

Dull

1. Rhwbiwh y menyn a'r lard i'r blawd i greu 'briwsion': ychwanegwch y siwgr, y cwrens, y sbeis a'r mêl, a ffurfiwh yn does â'r wy.
2. Rholiwh a thorrwch yn gylchoedd, a choginiwh ar y radell
3. I baratoi'r compote afal, toddwch y menyn mewn sosban, a meddalwch yr afal a'r sbeis ynddo am tua 15 munud. Yna ychwanegwch y mêl.
4. Holltwch y pice ar draws, a llenwch â'r afal a hufen wedi chwipio. Sgeintiwh â siwgr eis.

Gwledd Gŵyl Dewi yng Nghegin Gareth

Os hoffech ddathlu Dydd Gŵyl Dewi eleni, beth am archebu tocynnau, neu fwrdd yng Nghegin Gareth.

6.30:- Cyrraedd am ddiod cynnes

7.00: - Pryd 3 chwrs Cymreig –

yn cynnwys Dechreuwyd, Cawl, Pwdin, coffi/te a danteithion

Dyddiad: - Nos Iau, Mawrth 1af 2018

Lleoliad: - Cegin Gareth, Y Goedwig

Pris £15 y pen

I archebu lle, ffoniwch: 01570 422 313



Cegin Gareth

Goedwig

Llanbedr P.S.

SA48 7JP

01570 422 313

Blodau

Cacennau

Dathliadau

Partion

Llangybi a Betws



Ysgol Y Dderi

Croeso cynnes iawn i ddeg o ffrindiau bach newydd i ddosbarth y meithrin. Rydych chi wedi cael tipyn o hwyl a sbri wrth ymgartrefu gyda ni ac rydym ni wrth ein bodd yn eich cwmni.

Da iawn i dîm pêl-rwyd yr ysgol a fu'n cystadlu mewn twrnament yn Llanbed yn ddiweddar. Ennill, colli a gemau cyfartal oedd yr hanes a phawb wedi mwynhau'r cyfle. Llongyfarchiadau i dîm Bro Pedr a ddaeth i'r brig a phob hwyl iddynt yn y rownd nesaf.

Mae disgyblion blwyddyn 1 a 2 wedi cychwyn gwersi Kerbcraft gyda Miss Nerys o Gyngor Sir Ceredigion. Maent yn dysgu am ddiogelwch y ffordd sy'n sgil hollbwysig.

Diolch i Miss Lleucu sydd wedi bod yn ymweld â'r ysgol i hybu sgiliau pêl, hoci a phêl-droed. Mae'r plant yn mwynhau'r profiad yn fawr.

Adroddiad Christie Boyle, Blwyddyn 6, Ymweliad â Rhydychen

Yn gynnar ar fore Gwener, Ionawr 12fed, dechreuon ni ein ffordd i Rydychen. Chi'n gweld, llynedd danfonodd plant blwyddyn 5 lythyr at Brifysgol Rhydychen yn gofyn pam nad oedd Llyfr Coch Hergest yn cael ei gadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth? Dyna ble mae Llyfr Du Caerfyrddin, Llyfr Gwyn Rhydderch a'r mwyafrif o drysorau ein cenedl yn cael eu gwarchod. Roedd Coleg yr Iesu wedi danfon llythyr nôl yn datgan pwysigrwydd y llyfr iddyn nhw a chawsom wahoddiad personol gan Thomas Charles Edwards, un o athrawon Prifysgol Rhydychen, i fynd i weld y llyfr ac arteffactau eraill o ddiddordeb i ni.

Ar ôl pedair awr a hanner o siwrne, parciodd y bws tu allan i Goleg 'Christ Church'. Dysgais fod 38 coleg yn creu Prifysgol Rhydychen ac roedden ni'n ymweld ag oriel o fewn Coleg Christ Church yn gyntaf. Cawsom gyfle i werthfawrogi eu casgliad o gyfnod y dadeni. Sylwais fod yr arlunwyr wedi defnyddio llawer o aur a bod y lluniau cyntaf yn fflat iawn. Yna gydag amser, roedd y cefndir yn chwarae rhan bwysig, roedd y lluniau yn fwy realistig a sylwais hefyd fod y peintiadau o Seintiau.

Edrychon ni'n ofalus ar lun enfawr o'r enw 'Scipio The Great', gan Anthony van Dyke. Roedd e'n dweud stori ac yn lliwgar iawn.

Cyn i ni adael roedd rhaid i ni ymweld â'r grisau enwog, grisau a ddefnyddiwyd wrth ffilmio Harry Potter! Roedd rhaid i ni gael llun yn y fan yma!

Ymlaen â ni i Goleg yr Iesu. Roedd y cysylltiad â Chymru'n gryf. Gwelwyd tair pluen uwchben y fynedfa. Cawsom wledd o ginio yma a gwnaethon ni gyfarfod â myfyrwyr o Gymru.

Roedd hi'n amser mynd i'r 'Weston Library' wedyn. Yn gyntaf, cawsom ni gyflwyniad am greaduriaid ffiniol a beintwyd yn y llawysgrifau. Gwnaethon nhw gymharu'r creaduriaid â chymeriadau Pokemon, roedd yn ddiddorol iawn. Yna daeth hi'n amser i weld Llyfr Coch Hergest. Darllenodd Thomas Charles Edwards rannau ohono a chawsom ni gyfle i edrych arno'n ofalus. Mae'r llyfr yn cynnwys ryseitiau Meddygon Myddfai, y diarhebion a phedair cainc y Mabinogi. Roedden nhw hefyd wedi gosod Llyfr Ancr Llanddewi Brefi sy'n sôn am hanes Dewi Sant. Mae'n llyfr arwyddocaol am fod y dyddiad, 1346 wedi ei nodi ynddo ac mae hyn yn brin iawn. Yna cawsom weld llyfr o gyfreithiau cynnar, cyfreithiau Hywel Dda. Mae'r cyfreithiau yma o ddiddordeb ar draws y byd oherwydd roedden nhw'n gyfreithiau teg iawn oedd yn rhoi sylw teilwng i fenywod ac yn dyst fod Hywel Dda ym mhell o flaen ei amser. Am brofiad gwefreiddiol!

Yn olaf, cawsom ni gyfle i ymweld ag oriel 'Modern Art Oxford'. Redden ni'n canolbwyntio ar arddangosfa gwehyddwraig o'r enw Hannah Ryggan a gwaith Nicholas Party. Cawsom gyfle i wehyddu ein hunain, roedd hyn yn hwyl. Roedd Nicholas Party wedi cynllunio pennau merched enfawr, llawer mwy na ni, ac roedden nhw'n cadw swm!

Wel am ddiwrnod! Diwrnod prysur yn llawn profiadau bythgofiadwy. Mae



Rhydychen yn ddinas hyfryd, roedd y siwrnai werth pob munud, ond heb os nac onibai, uchafbwynt y diwrnod i ni oedd cael gweld Llyfr Coch Hergest yn ei ysblander! Dyna brofiad unigryw!

Hamdden

Cyfarfu'r gymdeithas ddechrau mis Rhagfyr yn Ysgol y Dderi dan lywyddiaeth Janet Farrow. Y wraig wadd oedd Stella o'r Mulberry Bush, busnes lleol a sefydlwyd gan ei rhieni flynyddoedd yn ôl. Cafwyd sgwrs ddiddorol ar Fwyta'n iach a llysiau - rhai sy'n cael eu defnyddio'n ddyddiol a rhai nad ydynt mor amlwg gyda'u cysylltiadau meddygol maethlon â choginio. Rhoddwyd 'goodie bag' i bob aelod yn cynnwys gwybodaeth werthfawr a phacedi bach o llysiau'n ymwneud â'r testun. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch gwresog i'r siaradwraig am brynhawn mor ddiddorol ac addysgiadol gan Gwen Lewis.

Enillwyd y raffl gan Maureen Williams, Helen Frensh, Gwen Lewis, Maisie Morgans, Janet Farrow, Elfed McLoughlin, Tegwen Cornielus, Sally Davies ac Alunda Jones. I ddiweddu'r cyfarfod cafwyd lluniaeth ysgafn a roddwyd gan Janet Farrow a Rita Jones.

Bu'r aelodau'n dathlu'r flwyddyn newydd drwy gyd-gyfranogi mewn Cinio Calan yng Nghlwb Golff Cilgwyn yn Llangybi. Cawsom wledd fendigedig a chwmni hyfryd. Diolchwyd i staff y Cilgwyn am eu gwasanaeth a'r bwyd blasus gan Sue Wellings. Cyfnewidiwyd anrhegion yn ystod y prynhawn ac fe gynhelir ein cyfarfod nesaf ar ddydd Gwener, Chwefror 2il am 2:00 o'r gloch pryd y disgwylir i Sheila Yellings arddangos lluniau o brosiect cymdeithasol yn nwyrain Affrica. Croeso i aelodau newydd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â nifer o deuluoedd a fu mewn profedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf sef Blaenwern, Bro Felin a Tai Bach yn Llangybi, Rhif 2, 4, 5 a 6 yn Godre'r Coed, Olmarch a Station View a 3 Bro Deri yn Betws.

Llangybi a Betws

Merched y Wawr

Cyfarfu'r gangen yn ystod Ionawr yn Ysgol y Dderi dan lywyddiaeth ein his-lywydd Deborah Jones. Croesawodd y gŵr gwadd sef y Canon Aled Williams a phawb arall i'r cyfarfod gan ddyuno iddynt Flwyddyn newydd Dda.

Bu'r Canon yn sôn am pam y bu iddo gyhoeddi ei lyfr 'Cerrig Milltir' sy'n olrhain ei deulu am nifer o genedlaethau. Treuliodd ei flynyddoedd cynnar ym Mhontypridd ac yna symud i Lanbadarn Fawr lle y bu i'w ddawn gerddorol ddod i'r amlwg. Ei swydd gyntaf fel ciwrad oedd yn Llanelli, a bu'n Ficer ar amryw o eglwysi yng Ngheredigion ac yn Ganol Tyddewi cyn ymddeol. Cewch y manylion yn y Llyfr 'Cerrig Milltir' neu yn Saesneg 'Milestones'. Diolchwyd iddo am noson ddiddorol yn llawn hanes ac atgofion gan Mary Jones.

Derbyniwyd gwahoddiad oddi wrth Gyngor Tref Llambled i ymuno â nhw yng ngorymdaith Gŵyl Ddewi. Bydd rhai aelodau'n mynychu'r Pwyllgor Rhanbarth lle bydd gwaith aelod ymroddgar, egniol a gweithgar yn cael ei gydnabod. Rhoddwyd y raffl gan Gwyneth Jones ac fe'i henillwyd gan Mary Jones. I ddiweddur cyfarfod cafwyd paned a bisgedi wedi eu rhoi gan Ann Davies a Mair Morgan.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 14eg pryd y disgwylir i'r Bnr John Meredith ein hannerch.

C.Ff.I. Bro'r Dderi

Bu'r wythnosau diwethaf yn rhai llewyrchus iawn i'r clwb. Cwplwl o wythnosau nôl cynhaliwyd Cwis y Sir yn Neuadd Prifysgol Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan a daeth y Clwb yn 5ed.

Ar y 18fed a'r 21ain o Ragfyr, bu'r clwb allan yn canu carolau o gwmpas yr ardal. Codwyd arian sy'n mynd tuag at Ganolfan Deuluol Llanbedr Pont Steffan a Thregaron. Hoffwn estyn diolch i bawb wnaeth gyfrannu mor hael tuag at yr achos.

Noson gyda'n llywyddion Huw ac Eleri oedd ar y 15fed o Ionawr. Cawsom noson llawn sbort wrth ddysgu'r sgil creadigol o wneud 'bleaching'.

Rydym bellach yng nghanol y bwrlwm yn paratoi ar gyfer y panto fydd yn cael ei gynnal wythnos hanner tymor yn theatr Felinfach.

Myfyrdodau Jones y Fish

Dyma un arall o bump erthygl a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer papur bro gan Huw Evans, Alltgoch, Cwrtnewydd a enillodd iddo'r wobwr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn. Yn ôl y beirniad, Catrin Withers, roedd Jones y Fish – neu Huw Alltgoch i ni – yn "... ysgrifennu'n dda mewn tafodiaith rywiog." Mae'n bleser gan Clonc gael cyhoeddi'r gwaith gan wybod y bydd yr erthyglau'n rhoi mwynhad mawr i'n darllenwyr.

Arian, Arian, Arian

Mae'r ceiniogau'n cyfri: 'diwedd y gân yw'r geiniog', 'o geiniog i geiniog â'r swllt yn bunt'. A'r pos: 'ceiniog a cheiniog, hanner dwy geiniog, grôt a phum ceiniog a deuswllt'. Triswllt yw'r ateb ond aeth y ddimau, swllt a choron i ebargofiant.

Yn fy meddiant mae llyfr ocsiwn o 1904. Gwerthwyd

	£	s	d
buwch ddu	10	15	0
llo glas	4	12	6
caseg	33	10	0
gwyddau		5	0
whilber		3	6
cart	9	7	6

Cyfanswm gwerth stoc Alltgoch (200 erw) oedd £179 a'r peiriannau yn £63. Heddiw byddai'r stoc werth £150,000 a'r 'fuwch ddu' yn godro £3000 mewn blwyddyn! Roedd rhych o swêds werth triswllt (15c) a thalai'r teulu £66 y flwyddyn o rent i sgweier Neuadd Fawr. Cyflog y gwas oedd coron (25c) yr wythnos.

O neidio tri degawd enillai'r gwas 17/6 (88c) yr wythnos. Erbyn hyn dadfeilia stad Neuadd Fawr a gwerthwyd Parc y rhos (30 erw) a Ty'n rhos (25 erw) - dau le yn ffinio ag Alltgoch - am £280 a £300 yr un. Sefydlwyd y Bwrdd Marchnata Llaeth a dibynnai 150 o lefydd y plwyf ar y churn am fywoliaeth; heddiw deuddeg sy'n dal i odro. Collwyd mwy na beudy a buwch.

Tri degawd eto, i ddechrau'r chwedegau a'r gwas ar £12 yr wythnos. Prynodd Nhad dractor M. F. a byrnwr Jones am £600 yr un. Cost peiriannau cyfatebol heddiw fyddai £35,000 yr un ond yma mae Jones a'r Ffergi yn dal i weithio - mae'r bunt y gallwch ei harbed gyfwerth â'r bunt y gallwch ei hennill. 'Run adeg gwerthwyd fferm cymydog (175 erw) am chwe mil. Yn y degawd diwethaf newidiodd ddwylo deirgwaith am bedair, chwech ac wyth can mil sy'n gwneud dyn i holi, 'Pa hyd y pery echelydd chwil y sioe?' A gwas 2017: £400 yr wythnos.

Ydyn, mae'r ceiniogau'n cyfri. Cofiaf hanesyn am gymeriad lleol yn cael ei lyfr siec cyntaf. Cafodd flas ar dynnu'r dail ac o ganlyniad ei alw o flaen y Rheolwr am fod arno ganpunt i'r banc. Ei ymateb: 'Peidiwch beco dim, gewch chi cheque 'da fi nawr!' Cofiaf Nhad hefyd yn doethinebu yn yr wythdegau: 'Gelli di gael dyn i fyw ar dair mil y flwyddyn ac un i ffaelw byw ar dair ar hugen.' Nid 'run faint yw digon i bawb. Ac mewn oes lle mae FTSE 100 a'r cardiau plastig yn dduwiau'r dydd, mae o hyd ryw beth hyfryd o hen ffasiwn mewn 'edrych i lygad y geiniog'.



**ARWYN VOBÉ
ACCOUNTANCY LTD.**



CYFRIFYDD SIARTREDIG

**Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY**

❖ **Cyfrifon Blynnyddol ac Interim**

❖ **Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau**

❖ **Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW**

❖ **Cyflogau a CIS**

❖ **Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion**

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gŵen gyfeillgar!

**Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu**

ebost arwyn@avaccountancy.cymru

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor – ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor arlaennol i chi?

Oe rhybwrth wedi atal gwasanaeth treth ac nwyd arweithred profedigaeth, gallaf eich cynnwylu!

Gyda thros 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnig cyngor ar:

Cyfrif a Bankoddi • Yswiriant a Diogelwch • Cyfrifon a gyfwrthwyl

Taliadau treth • Rheoli Ffôn • Mergolau a Yswiriant Cartref

Cyflwynwch â mi am gyngor arlaennol yn eiddoedd:

Richard Owen Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP

M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com

www.richardjarman.tpllp.com



**True potential
wealth management**



Mae Delmi Harries, neu Delmi Ila'th i'r mwyafrif ohonom, yn berson cyfarwydd iawn i drigolion Llambled a'r cyffiniau. Dyn bach byr ydyw yn ôl ei edrychiad ond heb os nac onibai, mae'n gawr o ddyn o ran ei bersonoliaeth. Cefais y fraint o dreulio prynhawn difyr iawn yng nghwmni Delmi rai wythnosau'n ôl. Braf oedd gwrandio arno'n hel atgofion rif y gwlith am yr hen ddyddiau ac er bod y tywydd yn arw ac yn oer tu allan, roedd y croeso'n gynnes iawn ar aelwyd Tanfforest, Llambled.

Gŵr y filltir sgwâr yw Delmi a'i wreiddiau'n ddwfn yn yr ardal. Ganwyd ef yn 'Ffinant Fach', Alltyblaca ar Awst 25ain, 1937, yn fab i William ac Ann, ac yn un o bump o blant. Symudodd y teulu yn fuan i fwthyn 'Castell' ar gyrion y pentref ond mewn byr amser, roeddent wedi hel eu pac eto a symud y tro hwn i Rif 3, Tangraig ym mhentref bach Pencarreg. Derbyniodd Delmi ei addysg fore yn Ysgolion Cynradd Llanwnnen a Phencarreg. Mynychai'r ysgol Sul ym Mhencarreg yn gyson a byddai'r trip blynyddol yn ddigwyddiad arbennig gan fod cyfleoedd i fynd i 'drampan' yn brin iawn yr adeg honno.

Derbyniodd ei addysg Uwch yn Ysgol Ffynnonbedr, Llambled a buan y sylweddolodd nad oedd eistedd tu ôl i ddesg bren ddiflas yn apelio o gwbl i grwtyn anturus o gefn gwlad Sir Aberteifi. Yn hytrach, roedd treulio amser yn yr awyr agored yn pysgota yn llyn Pencarreg a dal cwingod ar y banc gerllaw yn dipyn mwy o atynfa. Ond, fe ddaeth hi'n amlwg cyn hir bod Delmi'n dechrau magu pen busnes a hynny'n gynnar iawn mewn bywyd. Gwelodd ei gyfle i wneud ceiniog neu ddwy ac ar ôl ymgynghori gyda Dan Evans o Lambled, fe darwyd bargaen a chytunodd hwnnw i brynu'r cwingod oddi wrtho am bris teilwng. Ond, sut aeth y cwingod i Lambled? Wel, ar yr hen fws ysgol wrth gwrs!

Ar ôl gorffen ei addysg, roedd yn rhaid chwilio am waith. Y swydd gyntaf a gafodd, ac yntau ond yn bedair ar ddeg, oedd gweithio yn siop Megicks yn Llambled. Dim ond wythnos yn unig fu'n rhaid iddo seiclo i'r gwaith, diolch i'r drefn, oherwydd symudodd y teulu i Gwmann i fyw. Gweithiai o 8:30 yb tan 5:30 yh a hynny am un bunt, pum swllt yn unig, ond roedd yn dipyn o arian yr adeg honno wrth gwrs!

Pan oedd Delmi'n ddeunaw, cafodd gynnig gwaith yn Llaethdy'r Dolau, Llanybydder a chyfle felly i ddrws newydd agor yn ei fywyd. Dyma'r hyn oedd yn ofynnol mewn diwrnod- casglu'r llaeth o'r ffermydd, golchi'r poteli a rhoi llaeth ynddynt, a dosbarthu'r llaeth o gwmpas cartrefi a busnesau Llambled, Cwmann, Cellan, Llanddewi Brefi a Llanybydder.

Doedd y llaeth ddim yn cael ei basteureiddio'r adeg honno a doedd dim sôn am oergell ar yr un lori chwaith. Gweithiai Delmi'n ddygn yn y ffatri, saith diwrnod bob wythnos, gan fod angen potelu'r llaeth yn ddyddiol. Roedd yr oriau'n anghymdeithasol a rhaid oedd codi gyda'r wawr er mwyn cadw'r bos a'r cwsmer yn hapus. Roedd y diwrnod gwaith yn cychwyn am bump y bore ac yn gorffen am ddau'r prynhawn. Ar ddiwrnod tesog o haf serch hynny, rhaid oedd potelu'r llaeth gyda'r nos gan fod y gwres yn achosi i'r llaeth suro'n gyflym. Ond, doedd dim ofn torchi llewys ar Delmi a sylweddolodd y perchnogion yn gyflym iawn ei fod yn gaffaeliad mawr iddynt ac yn weithiwr diwyd, cydwybodol a ffyddlon.

Ar noson olau leuad ym mis Rhagfyr 1958, roedd aelodau eglwys Sant Iago Cwmann yn paratoi ar gyfer eu cyngerdd Nadolig blynyddol. Roedd Delmi yn eu plith ac yng nghanol dathlu genedigaeth Crist, nid cyhoeddiad yr angel Gabriel oedd yr unig 'Newyddion da o lawenydd mawr' o fewn muriau cadarn yr adeilad sanctaidd y noson honno. Oedd, roedd hi'n noson arbennig i Delmi gan mai dyma'r noson y dechreuodd garu gyda Mareth. Ond er bod Mareth ar ben ei digon pan ofynnodd Delmi a allai roi lifft adre iddi, ychydig a wyddai'r cariadon bod syniadau eraill gan ffrindiau a chwiorydd Mareth! Mewn chwinciad chwannen, roedd y fan fach yn llawn dop a'r merched wedi'u gwasgu i mewn fel 'sardins' rhwng y muriau metel! Ie, dyna i chi noson i'w chofio oedd honno!

Blodeuodd perthynas Delmi a Mareth, ac ar Awst 6ed, 1962, priododd y ddau yn eglwys Pencarreg ac aethant i fyw i 'Tanfforest', Llambled.

Roedd Delmi wedi prynu Tanfforest rai blynyddoedd ynghynt ac wedi llwyddo i redeg siop ar y safle, gyda chymorth ei fam a'i ddarpar wraig.

Ymhen rhai blynyddoedd, ganwyd dau blentyn i'r pâr ifanc sef

Gareth ac Angie a gyda threigl amser, caewyd drysau'r siop am y tro olaf gan droi Tanfforest yn gartref clyd cysurus. Erbyn heddiw, mae gan Delmi a Mareth bedwar o wyrion sef Cara, Rhian, Ffion a Guto ac maen nhw werth y byd.

Wedi gweithio yn y ffatri laeth yn Llanybydder am nifer helaeth o flynyddoedd, daeth cyfle i Delmi fod yn hunangyflogedig a rhedeg ei rownd laeth ei hunan. Prynodd fan ar gyfer y gwaith a dyma ddechrau pennod newydd yn ei yrfa. Yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd Llaethdy'r Dolau'n cynhyrchu hufen iâ yn ogystal â llaeth ac yn y flwyddyn 1967, dechreuodd Delmi werthu hufen iâ o gwmpas sioeau lleol. Cafodd fan bwrpasol at y gwaith a bu wrthi'n crwydro o sioe i sioe am gyfnod o bedair blynedd.

Roedd Delmi'n bendant yn ddyn prysur iawn. Yn ystod ei gyfnod fel 'dyn laeth', bu hefyd yn gweithio i'r frigâd dân am bron dair blynedd ar hugain a derbyniodd fedal am wasanaeth hir ac ymddygiad da. Ond roedd cyfle weithiau i hamddena a beth yn well na chwarae bowls gyda ffrindiau a joio mewn ambell barti?


Yn y flwyddyn 1971, daeth Peter Scothern, Gweinidog 'Gwasanaeth iachau drwy ffydd' i bregethu yn Llambled. Mynychodd Delmi a Mareth y gwasanaethau ac o'r dyddiau hynny ymlaen, trawsnewidiwyd eu bywydau'n gyfan gwbl. Sylweddolodd y ddau wir ystyr bod yn Gristion a daeth anghenion eraill yn bwysig iawn iddynt gan roi cymorth, gofal a gair bach caredig pan fo angen. Rhoddwyd heibio'r partïon a'r ddiod gadarn a ffocysu'n hytrach ar wasanaethu Duw. Erbyn hyn, roedd datblygiad ym myd technoleg a gwelwyd dechreuad y pasteureiddio. O ganlyniad, doedd dim angen gweithio ar y Sul mwyach a chyfle felly i fynychu dwy oedfa a chadw'r Saboth yn ddiwrnod cysegredig.

Ar ddiwrnod gwaith, bant â Delmi a'r fan fach ar hyd heolydd culion y wlad er mwyn sicrhau bod y botel laeth yn eistedd ar riniog y drws yn barod i'r cwsmer pan fyddai'n codi. Ond nid dosbarthwr llaeth yn unig oedd Delmi i'w gwsmeriaid. Roedd e hefyd yn ffrind tyner a oedd yn barod iawn ei gymwynas. Byddai'r wên siriol bob amser yn codi calon a'r 'helo' groesawgar ar fore rhewllyd yn werth y byd. Mae Delmi'n dal i helpu pawb ac yn barod i fynd yr ail filltir bob amser. Dyna pam yr enwebwyd ef ar gyfer 'Halen y Ddaear' a 'Diolch o galon'. Gan fod Delmi'n cyfrannu cymaint i'r gymuned, roedd hwn yn gyfle gwych i'r ardalwyr ddangos eu gwerthfawrogiad.

Yn 2003, ar ôl blynyddoedd o wasanaeth, daeth hi'n amser dweud ffarfél wrth y rownd laeth ac anfonodd Delmi nodyn i'r cwsmeriaid i'w hysbysu am ei benderfyniad. Er bod hwn yn newyddion trist, roedd pawb yn amlwg yn gwerthfawrogi ei wasanaeth clodwiw. Derbyniodd roddion niferus gan drigolion y fro ac roedd Delmi'n ddiolchgar i bawb am eu haelioni. Ond, fe fydd gweithred un teulu o Lambled yn aros yn y cof am byth. Ar ei ddiwrnod olaf, cododd pob aelod o'r teulu hwnnw am 4:30 yb er mwyn cyflwyno hamper o ffrwythau iddo fel arwydd o werthfawrogiad am ei wasanaeth amhrisiadwy. Roedd e'n amlwg yn uchel iawn ei barch ganddynt!

Wedi gorffen gyda'r rownd laeth, cafodd waith am bedair blynedd fel dyn lolipop yn Ysgol Ffynnonbedr. Bellach, mae e'n cynorthwyo Gareth y mab gyda'i fusnes 'Compass Office Supplies' ond yn mwynhau mynd ar wyliau hefyd yn ei amser sbâr! Gofalwraig yw ei ferch Angie, yn ôl ei galwedigaeth, ac mae'n gweithio yng nghartref gofal Hafan Deg, Llambled.

Hoffai Delmi ddiolch o galon i'w deulu am eu cefnogaeth ddiflino ar hyd y blynyddoedd. Doedd pethau ddim yn hawdd gan fod natur ei waith fel dyn llaeth yn golygu bod yn rhaid iddo weithio ar ddiwrnod Dolig hyd yn oed. Y peth anoddaf iddo fe fel tad oedd colli'r cyfle i weld ei blant yn agor anrhegion Siôn Corn. Ta waeth, er gwaetha'r anawsterau, mae ganddo atgofion melys iawn am ddyddiau'r rownd laeth. Erbyn hyn, mae gweld potel laeth ar garreg y drws wedi mynd yn beth prin iawn. Ond, cyhyd â bod storïau difyr yn cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall, bydd hanes ac arferion y dyn llaeth ar gof a chadw am byth.



Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtcadno



Gwasanaeth
troi
Vhs i Dvd

Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153
e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk
Y we: cwrtphtorestore.com

T. Emyr Jones
Adeiladwr



Araul, Cwmann
01570 423921
07867 945174

ANDREW JAMES
PLYMWR PROFIADOL



Gwasanaethu boeler olew
Gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi a cheginau
Ffôn: 07811052757
Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a
Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â
Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffynau Olew
- Pymplau Gwres o Ffynonhellau'r
ddaeir a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Sgowtiaid Llambed



Huw Howells – aelod o grŵp sgowtiaid cyntaf Llambed – yn cael tystysgrif a medal Gwobr Sgowtiaid y Frenhines gan Leah Sier a Gareth Jones, Comisiynydd Aardal dros dro. Bydd Huw yn ymweld â Chastell Windsor ym mis Ebrill pan fydd y Frenhines yn cyflwyno'r wobwr iddo. Huw yw'r ail sgowt o Llambed i gael y wobwr anrhydeddus hon. Bob ochr iddynt yn y llun y mae Iris Newman, Arweinydd y Grŵp Sgowtiaid, a Tonia Knight, Arweinydd y Sgowtiaid Anturus.

O San Steffan gan Ben Lake AS



Amddiffyn gwasanaethau hanfodol yn ein cymunedau gwledig
Roedd cyhoeddiad NatWest ym mis Rhagfyr am eu bwriad i gau eu canghennau yn Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi yn 2018 yn ergyd galed i'r ddwy dref a'r ardaloedd cyfagos.

Bydd yr ymgyrch i amddiffyn gwasanaethau bancio yn ein cymunedau yn flaenoriaeth i mi yn San Steffan dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Yn gynnar yn y flwyddyn newydd, cefais gyfle i herio penderfyniad NatWest mewn cyfarfod un-i-un gyda chyfarwyddwr y banc yn San Steffan. Bu i mi rannu pryderon a godwyd gan fy etholwyr gan ddatgan fy siom o weld y banc yn cefnu ar y cymunedau a'r cwsmeriaid hynny sydd wedi bod yn ffyddlon iddynt ers degawdau. Llai na degawd ar ôl i drethdalwyr achub eu crwyn pan oedd yr argyfwng ariannol ar ei waethaf, maent nawr yn bygwth tansellio sylfaen ariannol yr economi leol gyfan.

Mewn cydweithrediad ag Elin Jones AC ac Undeb Amaethwyr Ceredigion, cynhaliwyd dau gyfarfod cyhoeddus yn Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi yn ddiweddar er mwyn ymgynghori a gwrando ar farn pobl leol am benderfyniad NatWest. Bu'r ddau gyfarfod yn gyfle i drafod syniadau ymarferol ac arloesol ar gyfer gwasanaethau bancio'r dyfodol, gan gynnwys y posibilrwydd o ail-leoli banciau'r stryd fawr mewn un hwb bancio canolog ymhob tref.

Mewn dadl ddiweddar ar wasanaethau bancio yn Westminster Hall, galwais ar Lywodraeth Prydain i drefnu uwchgynhadledd ar fyrder, gan ddod â phob un o'r prif fanciau ynghyd i drafod eu cynlluniau hirdymor ar gyfer eu rhwydwaith o ganghennau.

Ers y cyhoeddiad, mae nifer fawr o etholwyr, busnesau a chymdeithasau wedi cysylltu â mi i ddatgan eu siom, ac i fynegi eu pryderon am y dyfodol. Dyma enghraifft arall, eto fyth, o gymunedau gwledig yn cael eu hamddifadu o wasanaethau hanfodol. Dyma ofyn, felly, a yw hi'n bryd i ni drafod pa wasanaethau fedrwn ni ddim ymdopi hebddyn nhw yn ein trefi a'n pentrefi?

FUW

Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG
Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,

**Masnachwyr-coed, ffensio
a nwyddau adeiladu o
bob math. Tanwydd gan
gynnwys nwy FloGas a
glo caled a meddal o'r
ansawdd gorau**

Cefn Hafod
Gorsgoch

Cyri bob nos Wener,
£6 y pen

Prydiau bwyd ar gael drwy'r
wythnos

Nos Lun— Nos Sadwrn

Bwyd Cartref a Chwrw da.
Croeso cynnes i bawb!
01570 434 238

Lifestyle Kitchens

CELFI CEGIN A 'STAFELL
WELY WEDI'U FFITIO,
ATEGOLION CEGIN,
CYFARPAR TRYDAN,
TEILS WAL A LLAWR

SGWÂR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER
01570 480257

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

**Gwasanaethau Coed
Teifi
Tree Services**



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

DANIEL DOUGHTY
Plumbing & Heating Services

Gas/LPG & Oil Services

Renewables ■ Installation
Maintenance ■ Breakdowns
Boiler Servicing ■ Sprinklers

07969 289679
doughtyplumbing@gmail.com



Cegin Coedlannau
*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Dantethion i de
* Pwdinau
* Arlwyio ar gyfer pob achlysur

Sirian Davies, Coedlannau
Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045



Llewod yn Llambod

Y flwyddyn oedd 1977, pan oedd y Frenhines Elizabeth yn dathlu ei jiwbilí arian, Virginia Wade yn cipio gwobr gyntaf cystadleuaeth tennis senglau'r menywod yn Wimbledon ac Elvis yn gadael y llwyfan am y tro olaf. Ar y maes rygbi, fe orffennodd Cymru yn ail i Ffrainc yng nghystadleuaeth y pum gwlad a Chasnewydd yn curo'r hen elyn o'r brifddinas 16-15 ar Barc yr Arfau yn rownd derfynol Cwpan Schweppes Undeb Rygbi Cymru.

I'r cefnogwr rygbi brwd, uchafbwynt yr haf hwnnw heb os nac oni bai, fyddai'r prawf eithaf o dalent rygbi'r undeb ym Mhrydain yng ngwlad y cwmwl hir gwyn, gan gynnwys 25 gêm yn erbyn timau o Seland Newydd dros gyfnod yn ymestyn o'r 10fed o Fai i'r 20fed o Awst. Yn dilyn camp ryfeddol carfan y Llewod dan arweiniad Carwyn James yn 1971 a thaith heb golli'r un gêm i Dde Affrig yn 1974, mae'n deg dweud fod y disgwyliadau wedi eu gostwng yn sylweddol, pan ddewisodd Gareth Edwards, Gerald Davies a J.P.R. Williams beidio â theithio i hemisffer y de.

Roedd y garfan yn cynnwys tri deg chwaraewr yn unig dan gyfarwyddyd y rheolwr, sef George Burrell o'r Alban a'r hyfforddwr John Dawes o Gymru. Y maswr Phil Bennett oedd y capten, ac yn rhyfeddol o gymharu'r sefyllfa bresennol gyda'r fyddin o staff oedd yn perthyn i Lewod 2017, nid oedd gan Lewod 1977, hyfforddwr swyddogol ar gyfer y blaenwyr. Er mawr glod iddo, fe gymerodd blaenasgellwr Pont-y-pŵl Terry Cobner y cyfrifoldeb mewn rhinwedd answyddogol.

Cafwyd tipyn o gystadleuaeth am safle'r mewnwr ar gyfer y gemau prawf rhwng yr Albanwr Dougie Morgan a mewnwr Caerdydd, Brynmor Williams a fynychodd Ysgol Uwchradd Aberteifi, ac a oedd yn cynrychioli Ceredigion yng nghystadleuaeth siroedd Cymru, gyda'r gemau hynny'n cael eu cynnal dan y llifoleuadau yng Nghlwb Rygbi Llambod.

Ar y pryd, nid oedd Brynmor wedi ennill yr un cap i Gymru er ei fod yn un o fewnwyr gorau'r byd, yn bennaf oherwydd ei fod yng nghysgod y dewin Gareth Edwards. Yn ystod y daith honno i Seland Newydd, fe ddaeth Brynmor ac Elgan Rees, sef tad Sara Elgan Rees sydd mai'n debyg â chysylltiad teuluol â Chwrtnewydd, yn ddau o bedwar chwaraewr yn unig sydd wedi chwarae gêm brawf i'r Llewod cyn ennill cap i Gymru!

Yn y cyfnod yma, amaturiaid oedd y chwaraewyr ac ar y daith yma roedd bob chwaraewr yn cael arian gwario dyddiol o 50 ceiniog, dau grys y Llewod i bara trwy gydol y daith, a gyda llaw'r disgwyliad oedd i bob chwaraewr ddod â'i esgidiau personol ar y daith! Fel chwaraewr amatwr, roedd Brynmor Williams yn ennill ei fara menyf fel athro Chwaraeon a Daearyddiaeth yn Ysgol Uwchradd Caldicot, gyda chyflog blyneddol o £2,500. Yn wahanol i'w gydwladrwr J.J. Williams, o leiaf fe gafodd ganiatâd y cyngor lleol i deithio gyda'r Llewod ar gyflog llawn.

Eleni fe gafodd dwsin o Gymry eu dewis gan Warren Gatland ar gyfer y daith i Seland Newydd, ac fe fyddai rhai'n dweud bod hyn yn gyfran hael, o ystyried tymor cymysglyd Cymru. Roedd nifer y Cymry ar daith 1977 yn ddigon i faesu tîm llawn a thri eilydd. Ymysg yr olwyr chwim o wlad y gân oedd: Phil Bennett, John D. Bevan, David Burcher, Gareth Evans, Steve Fenwick, Alun Lewis, Elgan Rees, Brynmor Williams a J.J. Williams. Roedd yr un nifer ymysg y blaenwyr, sef: Terry Cobner, Trefor Evans, Charlie Faulkner, Allan Martin, Graham Price, Derek Quinnell, Jeff Squire, Clive Williams a Bobby Windsor.

Ymddengys fod y llyfrau hanes wedi bod yn annheg i arwyr y bêl hirgron yma, gan eu hystyried yn fethiant o gymharu â llwyddiant rhyfeddol Llewod 1971 a charfan 1974 oedd yn ddiguro yn Ne Affrig! Hyd yma, Llewod Carwyn James 46 mlynedd yn ôl, yw'r unig rhai i ennill cyfres yng ngwlad y Maori. Beth bynnag, fe ddaeth gwŷr John Dawes yn agos iawn i efelychu'r gamp yn ystod taith tu hwnt o anodd.

Cafwyd 21 buddugoliaeth a phum colled, un yn erbyn Fiji yn Suva gyda'u meddyliau ar ddychwelyd i Walia fach! O ystyried y pedair gêm brawf, y ddamcaniaeth boblogaidd yw y dylen nhw fod wedi ennill y prawf cyntaf a'r olaf, ac yn wir roedden nhw ar y blaen o 9 pwynt i 6 wrth fynd i mewn i amser ychwanegol am anafiadau yn y prawf olaf. O ganlyniad cawsant feirniadaeth lem yn sgil ennill yr ail brawf yn unig o 13 pwynt i 9.

Fel y gwnes grybwyll ynghynt, dyma oedd blwyddyn dathlu jiwbilí arian y Frenhines ac fe benderfynwyd llwyfannu gêm i ddathlu'r achlysur ar faes Twickenham rhwng y Llewod a thîm y Barbariaid. Er bod Gareth Edwards, J.P.R. Williams a Gerald Davies yn nhîm y Barbariaid, y Llewod a orchfygodd o 23 pwynt i 14.

Fe fydd llawer o ddilynwyr y bêl hirgron yn cofio'r achlysur yma, ond tybed faint sy'n ymwybodol o'r ffaith, yn hwyrach yn Hydref 1977, bod y Llewod wedi camu i'r maes unwaith eto a'r tro yma ar faes rygbi Heol y Gogledd yn nhref prifysgol Llanbedr Pont-Steffan, sydd bellach yn cael ei gydnabod yn fan geni gêm rygbi'r undeb yng Nghymru. Diolch i weledigaeth a brwdfrydedd pwyllgor Clwb Rygbi Llambod fe ddenwyd yr elfen Gymreig o garfan y Llewod 1977 i chwarae XV Llywydd Clwb Rygbi Llambod, gan gynnwys chwaraewyr rhyngwladol, megis y blaenasgellwr Mark Keyworth o glwb Abertawe a Lloegr, a oedd yn ffermio yn Llanon. Er

i'r Llewod Gymreig ennill y frwydr dan y llifoleuadau ar achlysur agoriad swyddogol estyniad adeilad Clwb Rygbi Llambod gan Phil Bennett, cafodd y cefnogwyr a deithiodd o bob rhan o'r gorllewin gwyllt y noson honno wledd wirioneddol o rygbi.

Fel cefnogwr rygbi tair ar ddeg oed yn gwledda ar oes aur rygbi Cymru, roedd yn ymddangos fod Nadolig wedi dod yn gynnar y flwyddyn honno. Rwy'n dal i gofio'r wefr o fod yn rhan o'r dyrfa o 3,000 ynghyd â fy mrawd a fy nhad, a fu'n dyst i noson wirioneddol hanesyddol i Glwb Rygbi Llambod.

Fe wnaeth un o hoelion wyth Clwb Rygbi Llambod, Selwyn Walters, gadarnhau fod gan aelodau pwyllgor y clwb gryn ddylanwad o fewn y gêm yng Nghymru ar y pryd, gan fod y clwb yn un o aelodau gwreiddiol Undeb Rygbi Cymru ac yn wir yn ddiweddar fe gafwyd cadarnhad mai Llambod oedd man geni'r gêm yng Nghymru. Mewn cyfweiliad â'r Cambrian News wythnos cyn y gêm, dywedodd Ysgrifennydd y clwb Mr John Lloyd Jones mewn ymateb i'r cwestiwn sut roedd clwb bychan fel Llambod yn medru denu'r fath sêr o fewn y gêm i Sir Aberteifi, "mae gennym ambell i gysylltiad defnyddiol o fewn y gêm ac mae'n amlwg fu hyn o gymorth i ni". Ymysg y dynion dylanwadol hyn oedd Llywydd y clwb, Vincent Evans a'r Cadeirydd Lawrence Davies.

Roedd y Llewod Gymreig yn cynnwys o rif un i bymtheg: Graham Price, Bobby Windsor, Charlie Faulkner (Pont-y-pŵl), Allan Martin (Aberafan), Derek Quinnell (Llanelli), Terry Cobner (Pont-y-pŵl), Trefor Evans (Abertawe), Jeff Squire (Casnewydd), Brynmor Williams (Caerdydd a Sir Aberteifi), Phil Bennett (Llanelli), Elgan Rees (Castell-nedd), David Burcher (Casnewydd), Steve Fenwick (Pen-y-bont), J.J. Williams (Llanelli) a Gareth Evans (Casnewydd).

Y pymtheg anrhydeddus yn y crysau marwn yn cynrychioli XV Llywydd Clwb Rygbi Llambod oedd: Kevin Doyle (Capten), Daniel Williams, John Williams (Llanelli), Geoff Wheel (Abertawe), Phil May (Llanelli), Mark Keyworth (Abertawe), Edward Morris, Hefin Jenkins (Llanelli), Roy Thomas, Bryn Gregson, Wyn Evans, Keith Pugh, James Williams, ac Alan Thomas. Yr eilyddion oedd: Daniel Rees, Aubrey Morris, Wyn Williams, Steve Edwards, Siriol Evans, Ieuan Jones, Ron Thomas ac Adrian Evans.

Fel y gwelwch, roedd y tîm cartref wedi ei gryfhau gan ambell i chwaraewr dosbarth cyntaf, ond yn anffodus rhaid oedd i'r chwedlonol Geoff Wheel ildio ei le oherwydd anaf. Y dyfarnwr yn cadw trefn ar bethau oedd Mr G. Watts o Landybie.

Yn ôl y Cardigan & Tivy-Side Advertiser, roedd yna dorf o 3,000 o gefnogwyr ar faes Heol y Gogledd y noson honno. Yn gynnar yn y gêm roedd Phil Bennett, Terry Cobner ac Elgan Rees yn serennu, wrth i bymtheg Phil Bennett, gan roi eu teitl swyddogol iddynt, rithro ar y blaen gydag ugain pwynt o fantais, chwarter ffordd drwy'r gêm, gyda cheisiadau gan David Burcher (2) a chais yr un i Bennett ac Elgan Rees. Llwyddodd Steve Fenwick o Ben-y-bont i drosi dwy o'r ceisiadau. Cafwyd ymateb yn llawn ysbryd gan dîm Llambod ac wedi iddynt ennill meddiant o daflad i'r llinell, fe daranodd y blaen asgellwr grymus Edward Morris dros y llinell gais, ond methwyd y trosiad.

Gyda chapten y tîm cartref Kevin Doyle, yn arwain y blaenwyr yn ddewr a'r chwaraewr gwadd o Lanelli Phil May yn ennill pêl dda o'r llinell, roedd hyn yn galluogi'r mewnwr dawnus Aubrey Morris i ddarparu gwasanaeth gwych i gefnwyr dawnus Llambod, gan gynnwys Bryn Gregson, Alan Thomas, Wyn Evans a Wyn Davies, y cefnwyr oedd fel craig yr oesoedd.

Yn wir, roedd llawer o sêr y tîm cartref eisoes wedi cynrychioli Llanelli yn ystod oes aur tre'r sosban, gan gynnwys Kevin Doyle, Alan Thomas, Wyn Evans a Keith Pugh. Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, fe fyddai Mark Douglas o Gwmann yn aelod cyson o dîm Llanelli, gan ei gynrychioli fel llanc deunaw oed yn erbyn y Crysau Duon yn 1980 ac ennill tri chap i Gymru a chynrychioli'r Barbariaid.

Ar yr egwyl, roedd y Llewod wedi ymestyn eu mantais i 32 pwynt i 4, diolch i geisiadau pellach gan Gareth Evans o Gasnewydd, Elgan Rees a Derek Quinnell o Lanelli. Er gwaethaf ymgais ddewr y tîm cartref i gau'r bwlch, roedd yr ymwelwyr yn feistri corn wrth iddynt sgori geisiadau pellach, diolch i Elgan Rees (2), Trefor Evans, Gareth Evans, Jeff Squire, Phil Bennett a'r mewnwr o Aberporth, Brynmor Williams. Daeth diddanwch y nos i ben gyda throsiadau llwyddiannus gan Rees a Williams, a thîm Phil Bennett yn fuddugol o 64 pwynt i 4.

Yn yr oes broffesiynol sydd ohoni, mae meddwl bod y fath gêm wedi cael ei chynnal yn nhref marchnad Llambod bron yn anghredadwy, yn enwedig o ystyried y fath sêr oedd ar faes Heol y Gogledd y noson honno. Diolch i fy nhad Rhythwyn Evans oedd yn ffermio gerllaw ym mhentref Silian, roeddwn i â fy mrawd Dai yn dyst i'r wledd ryfeddaf o rygbi agored pymtheg dyn, ac mae'n annhebygol y gwelir y fath dalent eto ar faes rygbi yng Ngheredigion!

Aled Evans



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel mae 2018 wedi cyrraedd o'r diwedd ac nid yw'n rhy hwyr i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd! Sut ydych chi ers tro byd? Dydw i ddim wedi siarad gyda chi ers y llynedd!

Wel llongyfarchiadau mawr i bawb a wnaeth liwio llun y Nadolig yn rhifyn mis Rhagfyr. Mi fuodd y postmon yn brysus iawn yn eu cario nhw i'r tŷ. Llongyfarchiadau i Ceris Gateley o Lanbedr Pont Steffan am lun lliwgar a thacius iawn. Ond am liwio llun bendigedig, enillydd y mis hwn yw Elliw Grug Davies, 1 Tynyffordd, Llanybydder. Llongyfarchiadau mawr i ti ac i bob un arall wnaeth gystadlu. Cofiwch bod cyfle i chi gystadlu mis yma eto. Wel blantos, rwyf wrth fy modd ar ddechrau blwyddyn newydd fel hon yn chwilio a thwrio am fargen fach yn y siopau. Ydych chi'n hoffi siopa? Mi ges i fargen yn y siop deganau. Cer ati i liwio llun yr holl deganau a oedd yn y siop a'i ddychwelyd i mi erbyn dydd Llun, Chwefror 19eg.


Hwyl am y tro,



Enillydd
y mis!

Elliw
Grug
Davies

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne

RHIBLYD, PENTWYNMŴN A NANT YR HIDDL (100)

Yn 1840 fe ddarganfu'r torrwr beddau, wythien yn cynnwys mwyn plwm ym mynwent yr eglwys ym Myddfai. Cofnodwyd y darganfyddiad yn y 'Mining Journal' ond ni fu cloddio pellach, yn naturiol, ar y safle. Rib neu ribb yw'r enw ar y llinellau o fwyn gwerthfawr yn y gwythiennau. Dyma, mae'n siwr, yw'r elfen gyntaf yn yr enw RHIBLYD. Ystyr yr enw yw '(gwythieni) yn cynnwys llinell o fwyn (plwm)' A mwyn plwm oedd yr unig



fwyn ag iddo werth economaidd, i'w gloddio yn ardal Myddfai – Llandigad.

Mae Mynydd Myddfai yn Sir Gaerfyrddin yn gefn lydan. Ceir carnedd hynafol ar y mynydd ynghyd ag amryw hen gwarrau. Ni wyddys yn union pa mor hen yw'r lefelydd. Mae'n bosibl bod rhai ohonyn nhw wedi bod yn weithredol dros gyfnod maith.

Cafodd y mwynwyr cynnar hyd i haenau o fwyn plwm digon addawol yn yr ardal hon yn ddiraffferth, naill ai ar wyneb y tir neu'n agos iawn at yr wyneb. Ond wedi cloddio'r haenau mwyaf hwylus a'u disbyddu, roedd y mwyn yn y gwythiennau'n teneuo o gryn dipyn. Dyna a achosodd fethiant y mentrau cloddio mwyn yn rhan hon o ogledd Sir Gaerfyrddin.

Mae'r enw PEN-TWYN-MŴN 'copa bryn (lle y mae) mwyn' yn

dystiolaeth ychwanegol i'r nodwedd ddaearogol.



Roedd golchi a gwagru yn rhan o broses trin y mwyn ar gyfer y farchnad. Defnyddid hiddl haearn sylweddol er mwyn gwahanu'r gronynnau manach oddi wrth y rhai brasach. Mae enw'r nant, NANT YR HIDDL, yn coffau'r arfer ddiwydiannol.

Yn y cyfnod 1855-66 bu achosion yn Llys Sirol Llanymddyfri yn erbyn perchnogion y cloddfeydd am iddynt fethu â thalu cyflogau. Doedd dim modd dan yr amgylchiadau i'r mwynwyr dalu eu dyledion i siopwyr Myddfai. Ei heglu hi wnaeth amryw o'r mwynwyr.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru enwaulleoedd@gmail.com

Atgynhyrchwyd y mapiaugyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban.



Siaradwyr Cyhoeddus o fri....



Aelodau C.Ff.I. Llanllwni yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg - daeth tîm yr adran ganol yn drydydd, gyda Sioned Howells yn mynd ymlaen i gynrychioli Sir Gaerfyrddin fel Cadeirydd a Sioned Bowen fel eilydd. Llongyfarchiadau i'r tîm iau a thîm yr adran ganol hefyd.



Luned Mair, C.Ff.I. Llanwenog enillodd Cadeirydd Gorau o dan 26 oed yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg Ceredigion yn ddiweddar.



Beca Jenkins, C.Ff.I. Pontsian a ddaeth yn 1af fel Cadeirydd a Darlennydd dan 14 oed yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg C.Ff.I. Ceredigion. Da iawn ti Beca a phob lwc ar lefel Cymru.



Tîm Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.Ff.I. Llanwenog a enillodd dan 14 oed. Aelodau'r tîm oedd Ffion Davies, Hafwen Davies a Sioned Davies. Enillodd Sioned y Cadeirydd a'r Darlennydd Gorau a daeth Ffion yn 3ydd fel Darlennydd.

**GOSTYNGIAD
HYD AT
HANNER
PRIS**

Hanner tymor yma cymerwch daith deuluol i lawr lôn cof i weld y newidiadau

10fed i'r 25ed o Chwefror 2018

ABERYSTWYTH I BONTARFYNACH

MAE RHEILFFORDD CWM RHEIDOL YN CYNNIG TEITHIAU RHATACH I BOBL LEOL O ARDALOEDD COD POST SA, SY, LD YN YSTOD **HANNER TYMOR MIS CHWEFOR**

www.rheidolrailway.co.uk - 01970 625 819 - Park Avenue, Aberystwyth, SY23 1PG
Charity No 1076037



Daniel ac Elan o CFfI. Cwmann a Haf o CFfI Llandeilo fel tîm yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg (darllen) Sir Gâr. Da iawn Elan am ddod yn ail fel darlennydd ac yn eilydd i gystadleuaeth Cymru. Diolch i Dylan am eu hyfforddi.



TEIFY FORGE CYF
PEIRIANNWYR AMAETHYDDOL A WELDIO SYMUDOL

Weldio Symudol

Priranydd Amaethyddol

Pibellau Hydrolig

Gatiau a Rheiliau

Asiant BOC

ymholiadau@teifyforge.co.uk

Teify Forge Cyf, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 8JN

CYFRI

CYNGORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambod, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breccs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur

Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

Digon o gogyddion ifanc yn yr ardal....



Elan Jenkins oedd enillydd Cogurdd Ysgol Dyffryn Cledlyn.



Llongyfarchiadau i ddisgyblion cynradd Bro Pedr a fu'n cwblhau cystadleuaeth cogurdd a diolch i Mr Aled Dafis am feirniadu - 1af Michael McDonagh 2il William Hoe 3ydd Lowri Meles James-Evans 4ydd Sara Jones a Summer Howden.



Bu grŵp o ddisgyblion hŷn Ysgol Bro Pedr yn coginio yng nghystadleuaeth Cogurdd a diolch o galon i Miss Mattie Evans am feirniadu. Ar ddiwedd bore prysur o goginio a blasu'r bwyd hyfryd dyma'r disgyblion a ddaeth i'r brig. Llongyfarchiadau mawr iddynt:- Cogurdd blwyddyn 7-9 1af Elen Jones. 2ail Martha Thomas. 3ydd Ifan Meredith. Cogurdd bl 10 – 13 1af George Newton.



Disgyblion Ysgol Y Dderi yn ymweld â Choleg yr Iesu, Rhydychen yn ddiweddar. Mwy o'r hanes ar dudalen 21.